Y DRYSORFA.

Rhif. 715.] MAI, 1890. [Llyfr LX.

URDDAS A DYLANWAD EIN CYFUNDEB.

GAN Y DIWEDDAR BARCH. JOHN PRICHARD, AMLWCH.

(Yr Araeth a barotoisid i'w thraddodi wrth roddi i fyny gadair lywyddol y Gymdeithasfa; ac a ddarllenwyd yn Nghymdeithasfa Rhosllanerchrugog, Ebrill 10fed, 1890, gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor.

Anwyl Frodyr,—

Yr oedd y brawd oedd yn eich cyfarch yn y Gymdeithasfa gyntaf a gynnaliwyd yn y flwyddyn ddiweddaf, wrth roddi y gadair i fyny i mi, yn gallu eich cyfarch yn "frodyr a thadau;" ond nis gallaf fi eich cyfarch yn dadau—na, dim ond brodyr. Mae fy holl dadau wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur, a'u gweithredoedd yn eu canlyn hwynt; mae ein bod wedi eu colli o'n plith yn achosi i ni deimlo yn bruddglwyfus yn aml; ond gallaf finnau eich cyfarch yn frodyr anwyl.

Dymunwn argraffu ar eich meddwl, ac ar fy meddwl fy hun hefyd, fod ein llwyddiant fel Cyfundeb o Gristionogion yn ymddibynu i raddau mawr ar fod *brawdgarwch* yn parhau yn ein plith. Cymhellai awdwr y llythyr at yr Hebreaid y rhinwedd hwn ar y rhai yr ysgrifenai atynt, gan ddywedyd, "Parhaed brawdgarwch." Mae parhad brawdgarwch yn yr eglwysi yn anghenrheidiol er eu llwyddiant—brawdgarwch rhwng yr holl aelodau â'u gilydd, a rhwng yr eglwysi â'u swyddogion. Mae parhad brawdgarwch yn y Cyfarfodydd Misol a'r Cymdeithasfaoedd yn anghenrheidiol er eu llwyddiant. Ië, mae parhad brawdgarwch rhwng yr eglwysi a'r Cyfarfodydd Misol yn ddymunol ac anghenrheidiol er llwyddiant y Cyfundeb. Mae teimlad da yr eglwysi tuag at y Cyfarfodydd Misol yn ymddibynu i raddau helaeth ar ymddygiad doeth y Cyfarfodydd Misol fel llysoedd uwch, tuag at yr eglwysi fel llysoedd îs. Doethineb y Cyfarfodydd Misol ydyw dangos pob parch i'r eglwysi—peidio ymyraeth yn ormodol â hawliau annibynol yr eglwysi; oblegid y mae gan eglwysi Methodistaidd eu hawliau annibynol yn gystal a'u hawliau henaduriaethol, a chredwn mai dyma y ffordd i sicrhau parch yr eglwysi i'r Cyfarfodydd Misol. Peth pwysig iawn hefyd yw fod brawdgarwch yn parhau yn y Cyfarfodydd Misol rhwng y gweinidogion a'r blaenoriaid; ac un ffordd i beri i'r brawdgarwch barhau fyddai i'r naill a'r llall beidio ymyraeth yn ormodol â dyledswyddau neilldnol eu gilydd. Parhaed brawdgarwch rhwng y ddau ddosbarth o weinidogion y gwahanol Gyfarfodydd Misol—rhwng yr hen a'r ieuainc; ac un fantais fawr i barhad brawdgarwch rhwng y ddau ddosbarth fyddai fod yr hen yn rhoddi pob cefnogaeth i'r ieuainc i ddyfod ymlaen—rhoddi digon o waith iddynt. Mae rhai gorchwylion ag y mae bod dyn yn ieuanc yn hytrach na bod yn hen yn gymhwysder iddo i'w cyflawni, ac y mae gorchwylion eraill ag y mae bod dyn mewn

oedran teg yn hytrach na bod yn ieuanc, yn gymhwysder iddo i fyned trwyddynt. Credwn fod y sylw hwn yn gymhwysiadol hefyd at ein hanwyl frodyr y blaenoriaid, yn gystal ag at y gweinidogion. Mae llwyddiant ein Cyfundeb hefyd yn ymddibynu i raddau lled fawr ar fod brawdgarwch yn parhau rhwng y Cyfarfodydd Misol â'r Gymdeithasfa. Fel y mae y Cyfarfodydd Misol yn cael eu gwneyd i fyny o gynnrychiolwyr yr eglwysi, felly y mae y Gymdeithasfa yn cael ei gwneyd i fyny o gynnrychiolwyr y Cyfarfodydd Misol. Ac fel y mae yn bwysig fod yr eglwysi yn deyrngarol i'r Cyfarfodydd Misol, felly y mae yn bwysig hefyd fod y Cyfarfodydd Misol, fel llysoedd is, yn deyrngarol i'r Gymdeithasfa fel llys uwch. Mae teyrngarwch y Cyfarfodydd Misol i'r Gymdeithasfa yn ymddibynu i raddau mawr

ymddygiad doeth a brawdol y Gymdeithasfa tuag at y Cyfarfodydd Misol. Gofaled y Gymdeithasfa na fydd yr un o'r Cyfarfodydd Misol yn cael ei anwybyddu. Mae gan y Gymdeithasfa ei gwahanol swyddogaethau: er mwyn brawdgarwch, cadwer golwg, hyd y gellir—ond cael brodyr cymhwys i lenwi y gwahanol swyddogaethau—ar yr holl Gyfarfodydd Misol wrth eu dewis. Nid oes ammheuaeth nad oes yn yr holl Gyfarfodydd Misol ddynion cymhwys i lenwi rhyw un o'r swyddogaethau perthynol i'r Gymdeithasfa. Os dywedir nad oes anghen dywedyd ar hyn, oblegid ei fod yn cael ei wneyd, gallwn ninnau ddyweyd mai cymhell parhad brawdgarwch ar y Gymdeithasfa yr ydys, ac nid beïo mewn un modd; ie, cymhell ein gilydd i bob rhinwedd ag sydd yn meddu cymhwysder i gadw teimlad da a chynhes rhwng y Cyfarfodydd Misol fel llysoedd is, a'r Gymdeithasfa fel y llys uwch. Ac os gwyddom am rhyw rinwedd arall ag sydd yn meddu cymhwysder i gadw urddas y Gymdeithasfa yn ein gwlad, meddyliwn am dano, ac ymarferwn ein hunain iddo.

Credwn y dylai urddas y Gymdeithasfa gael ei deimlo gan y Cyfarfodydd Misol wrth ddewis cynnrychiolwyr iddi. Os oes brodyr yn y Cyfarfodydd Misol yn uwch o'u hysgwyddau i fyny na'u brodyr, gofaler fod un o'r gwŷr hyny yn cael ei ddewis, a brawd arall ychydig fyrach gydag ef; nid dau dàl gyda'u gilydd y tro hwn, a dau lled fyr gyda'u gilydd y tro nesaf. Cofus genym fod un o'r Cyfarfodydd Misol yn dewis dau gynnrychiolydd am flwyddyn: dewiswyd y ddau frawd hynaf a mwyaf eu defnyddioldeb am y flwyddyn gyntaf, a'r ddau nesaf atynt o ran oedran yr ail flwyddyn, nes o'r diwedd y dewiswyd dau frawd hollol ieuainc ar y pryd. Yn lle bod un o'r ddau ddosbarth wedi eu dewis gyda'u gilydd, ac felly cawsid synwyr a phrofiad yr henafgwr, a bywiogrwydd yr ieuanc ynghyd.

Mae urddas y Gymdeithasfa hefyd yn ngolwg yr eglwysi yn ymddibynu i raddau mawr ar y Gymdeithasfa ei hun, ac yn enwedig ar ei swyddogion. Mae yr arferiad i'r cyn-lywydd wrth roddi y gadair i fyny i'w olynydd i roddi araeth ar rywbeth a ewyllysia yn dwyn perthynas â'r achos yn ein plith, yn rhoddi cyfleusdra iddo i ddyrchafu neu darostwng y Cyfundeb ar g'oedd gwlad, yn ol fel y bydd efe yn teimlo ar y pryd, a bydd yr araeth yn ymddangos mewn amryw o'r papyrau newyddion, ac yn enwedig os bydd hi yn ymosodiad ar y Cyfundeb. Mae yn debyg nad oes yr un Cyfundeb crefyddol yn Nghymru yn fwy ystwyth na'r Methodistiaid i newid yn ol fel y tybir fod amgylchiadau a galwadau yr oes yn gofyn; ac ystyriwn hyn yn un o ragoriaethau ein Cyfundeb. Ond pan y tybir y byddai yn ddoeth i ni newid rhai o'n harferion, bydded i ni siarad yn barchus am yr arferion a fuont yn llesol ac yn fendithiol i ni fel cenedl yn amser ein tadau,

ac hefyd yn ein dyddiau ninnau, ac nid siarad yn anmharchus am danynt. Byddai yn dda i ni wrth geisio dwyn rhyw gyfnewidiadau ymlaen, mewn trefn i ymberffeithio, ddysgu gwers oddiwrth yr ysgrifenwyr Ysbrydoledig. Pan y maent hwy yn profi rhagoriaeth yr efengyl ar y ddeddf—rhagoriaeth y Cyfamod Newydd ar yr Hen Gyfammod, maent hwy yn caniatâu rhagoroldeb a gogoniant yr Hen Gyfammod, ond fod y Newydd yn rhagori mewn gogoniant ar yr Hen: "Canys os bu gweinidogaeth damnedigaeth yn ogoniant, mwy o lawer y mae gweinidogaeth cyfiawnder yn rhagori mewn gogoniant." O ran hyny nis gall rhai ddangos rhagoriaeth yr efengyl ar y gyfraith ond trwy iselu y gyfraith a gwneyd rhyw fath o wawd o honi. Dull yr ysgrifenwyr sanctaidd yn ysgrifenu ar hyn ydyw gosod allan gyfammod Sinai yn hen, a chyfammod yr efengyl yn newydd; gweinidogaeth y gyfraith yn ogoneddus, a gweinidogaeth yr efengyl yn rhagori mewn gogoniant; un yn dda, a'r llall yn well. Gadewch i ninnau siarad am gynlluniau ein tadau yn dwyn yr achos ymlaen yn y modd mwyaf parchus, fel cynlluniau oeddynt yn rhagorol yn eu tymmor, ïe, y rhai goreu i sefyllfa ac amgylchiadau y wlad ar y pryd. Mae y llwyddiant mawr a fu ar ein Cyfundeb mewn amser mor fyr yn brawf o ragoroldeb eu cynlluniau. Pe buasai Howell Harris wedi aros yn Nhrefecca, a chasglu cynnulleidfa lïosog yno, a sefydlu eglwys gref; a Daniel Rowlands yr un modd yn Llangeitho a'i chyffiniau; pa beth fuasai wedi dyfod o Gymru? Os oedd ein hen dadau fel *gipsies* yn crwydro, buont o fendith annhraethol i'n cenedl ni, fel y bu yr Apostolion i'r byd o'u blaen hwynt. Crwydro yr oedd yr apostolion, fel ein tadau; a ninnau hefyd hyd yn hyn. Mae y weinidogaeth deithiol yn yr ystyr y bu gan ein tadau yn nghychwyniad ein Cyfundeb, wedi myned heibio; mae hi wedi marw a'i chladdu yn barchus er ys dros 40 mlynedd. Y mae y diweddar Barchedig John Hughes, Liverpool, yn siarad yn barchus am dani yn *Methodistiaeth Cymru*. Os teimlir yn y dyfodol y bydd amgylchiadau ac anghenion yr oes yn galw am gyfnewidiad eto, gadewch i ni ddwyn y cyfnewidiad ymlaen heb ymollwng i ddiystyru a dirmygu y drefn bresennol o ddwyn yr achos ymlaen, yr hon a gymhellwyd gan rai o ddynion goreu ein Cyfundeb, megys y Parchedigion Henry Rees, a John Hughes, Liverpool; Lewis Edwards, D.D., Bala, ac Edward Morgan, Dyffryn; a brodyr eraill, y rhai, trwy drugaredd yr Arglwydd, ydynt yn aros gyda ni hyd y dydd hwn. Dywedai un o flaenoriaid mwyaf galluog ein Cyfundeb yn y Deheudir wrthym fod rhai o'n gweinidogion ni yn cymeryd mantais ar y gadair lywyddol i iselu ein Cyfundeb, pan y mae gweinidogion y Cyfundebau eraill yn cymeryd mantais arni i geisio dyrchafu eu Henwadau yn ngolwg y genedl. Rhoddwn y credyd i'n brodyr hyn eu bod yn caru ein Cyfundeb gymaint a ninnau; ond y mae eu tanbeidrwydd, a'u zel am gyfnewidiad, yn eu hattal i dalu y parch dyledus i arferion ag y bu yn wiw gan y Nefoedd eu parchu trwy roddi sêl bendith wrthynt. Y cyfan yr ydym yn dadleu drosto ydyw pan y byddwn yn ymgais at ryw gyfnewidiad, gadewch i ni geisio argyhoeddi ein gilydd o ragoriaeth yr hyn a gynnygir, heb siarad yn anmharchus am ein harferion presennol.

Mewn trefn i gadw urddas a gogoniant y Gymdeithasfa yn marn yr eglwysi, oni ddylem ymdrechu myned trwy y pethau amgylchiadol mor gyflym ag y mae yn bosibl, fel y gellid cael un cyfarfod mwy poblogaidd nag ydym yn ei gael i ymdrin â rhyw fater

ysbrydol, ymarferol, neu athrawiaethol? Mewn trefn i gael hyn, cynghorem ein hanwyl frodyr ydynt wedi eu donio yn helaeth â gallu i siarad, a siarad yn dda ar bob mater, i fod yn dipyn byrach ar faterion lled ddibwys, fel y caffont amser i draethu ar faterion teilwng o'u doniau, a buddiol i'r eglwysi. Onid oes tuedd gref yn ein hoes ni yn y Gymdeithasfa i ddeddfu byth a hefyd, a'r deddfau hyny yn cael eu newid yn fuan iawn, neu yn dyfod yn llythyrenau meirwon ymhen ychydig flynyddoedd. Oni fyddai yn dda i ni gofio fod deddfau hanfodol teyrnas yr Arglwydd Iesu wedi eu cael ganddo Ef? Mewn un ystyr, unbenaeth ydyw eglwys Crist; nid oes ganddi awdurdod i ddeddfu rhyw lawer iddi ei hun. "Un gosodwr cyfraith sydd" yn nheyrnas Crist, a'r Un hwnw ydyw Crist ei hun. Nid oes gan na *Vatican*, na Senedd, na *Chonference*, na Chymdeithasfa awdurdod i wneyd deddfau i eglwys Crist. Gweinyddu y deddfau y mae Crist wedi eu rhoddi yw gwaith yr eglwys yn ei swyddogion, ac nid gwneyd deddfau. Mae swyddogion teyrnas Crist yn debycach i ustusiaid yn ein teyrnas ni nag i seneddwyr. Gwneyd deddfau ydyw gwaith ein seneddwyr, a gweinyddu y deddfau ydyw gwaith yr ustusiaid. Felly yn nheyrnas yr Arglwydd Iesu, ynddo Ef ei Hun y mae y gallu deddfwriaethol, ac yn y swyddogion y mae y gallu gweinyddol. Mae perygl i'r Gymdeithasfa ddyfod yn fwy o *legislative* nag o *administrative power*. Mae gan yr eglwys hawl i gasglu y deddfau a roddodd ein Harglwydd Iesu Grist yn bersonol a thrwy ei apostolion, y rhai ydynt yn wasgaredig trwy y Testament Newydd, mewn un gyfrol fechan, fel y gwnaeth ein tadau yn y Rheolau Dysgyblaethol; ac mae genym ninnau hawl i ychwanegu at y Rheolau Dysgyblaethol, os cawn ni fod rhai yn y Testament Newydd wedi eu gadael allan gan ein tadau. Honwn mai yr hyn y dylem amcanu ato yn y Cymdeithasfäoedd ydyw egluro y deddfau mawrion a roddodd Crist i'w eglwys, a chymhell ein gilydd i fod yn ffyddlawn i'r Brenin yn ngweinyddiad y deddfau yn yr eglwysi, ac nid gwneyd rhyw lawer o fân ddeddfau yn barhaus.

Mewn trefn i ni ddal ein tir, ac ennill tir newydd a chwanegu cryfder, mae yn rhaid i ni barhau fel Cyfundeb yn allu moesol cryf yn y wlad. Bu y Methodistiaid yn y blynyddau a aethant heibio yn allu moesol cryf iawn yn y wlad er daioni, ac yn erbyn drygau oeddynt yn anurddo ein cenedl; a buont yn llwyddiannus i gael penau rhai o'r drygau hyny i lawr; ond mae drygau mawrion yn aros eto yn uchel eu penau yn y wlad ag y dylem ni fel Cyfundeb, ynghyd a chyfundebau crefyddol eraill, alaru o'u herwydd —sef anniweirdeb, meddwdod, llwon, a chelwyddau. Yn sicr fe ystyrir y drygau hyn yn bechodau ffiaidd. Y mae gweinidogaeth yr efengyl ac ymdrechion crefyddwyr mewn gwahanol ffyrdd wedi cadw y syniad yn iachus yn y wlad o berthynas i'r arferion hyn; ond ofnwn mai un o beryglon mawrion yr oes hon ydyw peth sydd yn ymddangos i lawer yn ddiniwed ac yn barchus, sef rhedeg ar ol difyrwch; ac yn lle bod cyfundebau crefyddol y wlad yn alluoedd yn ei erbyn, mae lle i ofni eu bod i raddau helaeth yn gyfrifol am dano, a'u bod yn rhoddi eu dylanwad o'i blaid. Nid yn unig mae y byd digrefydd yn dyheu am ddifyrwch, ond y mae yr eglwys yn dyheu am dano fel y byd. Beth yw rhai o'r cyfarfodydd llenyddol perthynol i'r capelydd? Mae lle i ofni mai nid awydd am wybodaeth a diwylliad meddwl sydd yn wreiddyn iddynt, ond awydd am ddifyrwch. Yn y cyffredin ystyrir beirniadaeth fanwl a da ar y traethodau yn y cyfarfodydd hyn yn rhy sych, a gofynir

i'r beirniaid fod yn fyr yn eu beirniadaeth. Y pwnc mawr ydyw gallu difyru y cyfarfod, ac nid ei adeiladu. Na chamddealler ni; nid ydym yn haeru mai fel hyn mae yr holl gyfarfodydd llenyddol yn ddïeithriad, a bod eu holl bleidwyr yn amcanu at ddim uwch a gwell na difyru y bobl ieuainc. Gwyddom fod aml un yn amcanu gwneyd lles iddynt. Ond yr elfen ddifyr ynddynt sydd yn eu gwneyd yn boblogaidd. Cyfarfodydd eraill a gynnelir er mwyn difyrwch ydynt *tea parties*. Mae *tea parties* crefyddol yn ein dyddiau ni—*tea parties* perthynol i'r Ysgolion Sabbothol, ac wedi darfod yfed tê, eir i faes i chwareu *kissing ring*, &c. Dyma chwareu crefyddol—cymdeithas grefyddol ydyw yr Ysgol Sabbothol—a hi fel y cyfryw sydd yn cynnal y chwareuyddiaeth. Mae chwareu yn dyfod yn rhan o grefydd yr oes. Mae pleserdeithiau crefyddol hefyd yn y dyddiau hyn; yr Ysgolion Sabbothol yn myned am ugeiniau o filldiroedd gyda'r *trains* am bleserdaith; arian yn cael eu casglu weithiau yn y dosbeirth ar y Sabboth yn yr Ysgolion i dalu treuliadau y pleserdeithiau. Na chamddealler ni; nid ydym yn edrych ar bleserdeithiau ynddynt eu hunain yn bechadurus; ond y mae dyfod â hwy i mewn i'n crefydd, yn rhan o grefydd, yn peryglu crefydd a'n cymdeithasau crefyddol. Dywed rhai fod yn rhaid i Fethodistiaid wrth y pethau hyn; os na chedwir y pethau yr ä Methodistiaeth i lawr, y derfydd yn y wlad. Y cwestiwn pwysig ydyw, a ydyw Methodistiaeth a gynnelir trwy y fath ffyn baglau yn werth byw? A fyddai yn golled i'r wlad pe byddai farw, os nad oes modd i'w chadw yn fyw ond trwy bethau o'r fath yma? Nid trwy bethau fel hyn y cododd Methodistiaeth yn y wlad, a chredwn mai prysuro ei marwolaeth a wna pethau o'r natur yma, ac nid ei chadw hi yn fyw. Frodyr, ffyddlondeb i wirioneddau mawrion ac hanfodol yr efengyl—athrawiaeth iachus, yr hon sydd yn ol duwioldeb, o'n pulpudau ni, a ffyddlondeb iddynt yn ein bywydau, a geidw Fethodistiaeth teilwng o gael byw yn yr oesoedd a ddêl, ac nid ffyddlondeb i ddifyrwch.

CUR DEUS HOMO? NEU, PAHAM YR YMDDANGOSODD DUW YN Y CNAWD?

Gan ANSELM, *Archesgob Caergrawnt*, 1093—1107.

PENNOD I.

Y CWESTIWN AR BA UN Y GORPHWYSA YR HOLL WAITH.

ANNOGWYD fi lawer gwaith, yn y modd taeraf, gan amryw, mewn ymddyddan a thrwy lythyrau, i ysgrifenu er cynnorthwy i'r côf, y rhesymau a arferwn roddi i'r rhai fyddent yn ymofyn â mi, mewn perthynas i amryw gwestiynau ynghylch ein ffydd; canys dywedant fod y rhesymau yn foddhäol ganddynt, a'u bod yn eu hystyried yn gywir. Gofynant hyn, nid er mwyn iddynt hwy ddyfod i afael â chrediniaeth trwy reswm; ond o herwydd eu bod yn cael hyfrydwch wrth edrych i mewn, a myfyrio ar y pethau a gredant eisoes; ac fel y gallant fod yn abl i roddi boddlonrwydd bob amser i unrhyw un a ofyno reswm ganddynt am y gobaith sydd ynom.

Dyma y cwestiwn y mae anghredinwyr yn arfer ddwyn ymlaen yn ein herbyn, gan ddirmygu symledd Cristionogaeth fel ffolineb; ac y mae llawer o gredinwyr hefyd yn troi y cwestiwn yn eu calonau, sef, pa reswm, neu, pa anghenrheidrwydd oedd, i Dduw ddyfod yn ddyn, a thrwy ei farwolaeth, fel yr ydym ni yn credu, ac yn sicrhau, adfer bywyd yn ol i'r byd; pan y gallasai ddwyn hyny oddiamgylch trwy offerynoliaeth rhyw berson arall, megys angel, neu ddyn, neu yn unig trwy weithred o eiddo ei ewyllys? Y mae, nid yn unig y rhai dysgedig, ond llawer o rai annysgedig, yn ymofyn ac yn dymuno rheswm am hyn. Gan hyny, gan fod cynifer yn dymuno i'r pwnc hwn gael ei drafod, ac o herwydd

fod rhai pethau yn ymddangos yn dywyll wrth eu chwilio, eto ar ol eu hegluro yn dyfod yn oleu i bawb, ac hefyd o herwydd y defnyddioldeb a'r prydferthwch dymunol sydd yn yr ymresymiad, fe ymdrechaf ddangos i ymofynwyr yr hyn y gwêl Duw yn dda ei ddadguddio i mi ar hyn; er y dylasai digon fod wedi ei ddywedyd ar y pwnc hwn gan y tadau sanctaidd. A chan fod y pwnc hwnw a olrheinir trwy ofyniadau ac atebion, yn gliriach i lawer, yn enwedig y rhai mwyaf anwybodus, ac hefyd am ei fod yn fwy pleserus, fe gymeraf un o blith yr ymofynwyr—un o'r rhai a'm cymhellasant i ddechreu y gwaith hwn—i ddadleu â mi; felly, caiff Boso ofyn, ac ateba ANSELM, fel y canlyn.

PENNOD II.

PA FODD Y MAE Y PETHAU Y TRAETHIR ARNYNT YMA I'W DERBYN.

Boso. Y mae trefn pethau yn galw y dylem gredu dyfnion bethau y ffydd Gristionogol, cyn ymgymeryd â dadleu y pethau trwy reswm; ond ymddengys i mi yn ddiofalwch, os ar ol ein cadarnhau yn y ffydd yr esgeuluswn astudio i ddeall yr hyn a gredwn. Beth bynag, trwy help gras Duw, yr wyf yn tybied y daliaf ffydd ein hiachawdwriaeth yn y fath fodd, nas gall dim effeithio i'm hysgaru oddiwrth ei chadernid, pe yn analluog i amgyffred y pethau wyf yn gredu, ac erfyniaf arnoch chwi egluro i mi, yr hyn fel y gwyddoch, y mae llawer eraill yn ofyn gyda mi, sef, pa anghenrheidrwydd, neu pa reswm, oedd i Dduw, gan ei fod yn Hollalluog, i ymgymeryd â darostyngiad, a gwendid y natur ddynol, mewn trefn i'w hadferu?

Anselm. Mae y peth a geisiwch ymhell uwchlaw i mi, ond y mae arnaf ofn traethu am bethau mor oruchel, rhag dygwydd i rywun arall, pan yn tybied, neu pan yn canfod, fy mod yn methu rhoddi boddlonrwydd iddo, ddychymygu fy mod yn amddifad o wirionedd y pwnc, yn hytrach na fy mod yn amddifad o allu digonol i'w drin.

Boso. Ni ddylech ofni hyny, ond yn hytrach gofio, y gall ddygwydd yn aml, pan yn ymddyddan ynghylch unrhyw gwestiwn i Dduw ddadguddio yr hyn oedd o'r blaen yn guddiedig. A dylech hefyd obeithio, trwy ras Duw, os bydd i chwi roddi yn rhwydd, yr hyn yn rasol a dderbyniasoch, yr ystyrir chwi yn deilwng i dderbyn pethau uwch, y rhai na chyrhaeddasoch eto.

Anselm. Y mae peth arall hefyd, yr hyn sydd yn ymddangos i mi yn ei gwneyd yn anhawdd iawn, os nad yn anmhosibl i drin y pwnc sydd genym yn llawn, sef fod yn anghenrheidiol meddu gwybodaeth am *Allu*, *Anghenrheidrwydd*, *Ewyllys*, ac amryw bethau eraill a ddaliant gysylltiad â'u gilydd, fel y mae yn anmhosibl ystyried un o honynt yn gyflawn ar wahân i'r lleill; ac i'w trafod yn iawn, gofyna bob un waith arno ei hun, yr hyn na ymddengys i mi yn hawdd iawn, eto heb fod yn hollol anfuddiol, o herwydd y mae anwybodaeth o'r pethau hyn yn eu gwneuthur yn anhawdd, a gwnelai gwybodaeth o honynt hwynt yn hawdd.

Boso. Gellwch drafod y pethau yna yn fyr yn eu lleoedd priodol, fel y gallwn gael yr hyn sydd ddigonol at y gwaith presennol; a'r hyn ellir ddyweyd yn ychwaneg am danynt, ni a'i gadawn hyd amser arall.

Anselm. Y mae hyn hefyd yn fy rhwystro yn fawr i ymgymeryd â'r hyn a geisiwch, sef, fod y mater hwn nid yn unig yn bwysig iawn, ond y mae hefyd yn dal perthynas â Pherson gogoneddus sydd uwchlaw meibion dynion; gan hyny, gofyna reswm gogoneddus uwchlaw deall dynion i'w egluro, am hyny, y mae ofn arnaf rhag dygwydd i mi, fel y byddaf yn aml yn teimlo yn ddigllawn wrth arlunwyr anghelfydd pan y gwelaf ein Harglwydd wedi ei arlunio yn anffurfiol, wneuthur yr un modd, wrth ymgymeryd â thrafod pwnc mor oruchel gydag arddull mor afler ac isel.

Boso. Ni ddylai hyn chwaith eich rhwystro, o herwydd, fel yr ydych yn caniatâu, os gall rhywun arall draethu yn well, na bydd i chwi ei attal, ac os bydd eich iaith yn anfoddhaol i rywun, iddo ef ysgrifenu iaith brydferthach. Ond fel y cauer allan bob esgusawd o'r eiddoch, dymunaf arnoch wneuthur hyn, nid i'r dysgedig, ond i mi, a'r rhai a ddymunant gyda mi.

Anselm. Yn awr, gan fy mod yn canfod eich taerni chwi ac eraill, pa

rai, o gariad a zel grefyddol, a geisiant hyn gyda chwi, fe ymdrechaf hyd eithaf fy ngallu, trwy help Duw a'ch gweddïau chwithau, pa rai yn aml a addawsoch i mi pan yn gofyn hyn genyf, nid yn gymaint i ddangos i chwi yr hyn a geisiwch ond i geisio gyda chwi, eto dymunaf i'r oll a ddywedaf gael ei dderbyn yn y modd yma, os bydd i mi ddyweyd rhywbeth na chadarnha awdurdod uwch, er iddo ymddangos yn cael ei brofi trwy reswm, eto nid ydyw i'w dderbyn ar un sicrwydd uwch na'i fod yn ymddangos felly i mi yn bresennol, hyd nes y dadguddia Duw ef yn gliriach i mi; ac os gallaf roddi boddlonrwydd i chwi ar eich cwestiwn, dylai hyn fod yn eglur, y gallai un doethach na mi ei wneyd yn rhagorach; ïe, dylid ystyried, pa faint bynag all dyn draethu neu wybod am dano fod rhesymau uwch ar bwnc mor bwysig yn aros o'r golwg.

Boso. Goddefwch, gan hyny, i mi ddefnyddio geiriau yr anghredinwyr, oblegid y mae yn gyfreithlon, pan yr ydym yn astudio i geisio rheswm am ein ffydd, i ddwyn ymlaen wrthddadleuon y rhai nad ydynt ewyllysgar i dderbyn y ffydd heb reswm; canys er eu bod hwy yn ceisio rheswm am yr hyn nad ydynt yn gredu, a ninnau yn ceisio am ein bod yn credu, eto yr ydym yn ceisio yr un peth; ac os atebwch chwi yr hyn fydd yn ymddangos yn groes i awdurdod yr ysgrythyr, byddaf at fy rhyddid i wrthwynebu, fel y gellwch chwi egluro ymhellach paham nad yw yn wrthwynebol iddo.

Anselm. Dywedwch yr hyn a ymddengys i chwi yn briodol.

W.

SYLWADAU

(*A wnaed ar ddiwedd Pregeth*) *ar y diweddar Barch.* ABIAH DAVIES, *Nazareth, Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin.*

Gan y Parch. J. WYNDHAM LEWIS, *Caerfyrddin.*

FE ellir cymhwyso gyda phriodoldeb neillduol at ein cyfaill ymadawedig eiriau tyner a chariadlawn Dafydd yn ei alargan arddunol i Jonathan: "Gofid sydd arnaf am danat, fy mrawd Jonathan, cu iawn fuost genyf fi," &c. Felly y brawd ieuanc hwn: "cu iawn" fu yntau genym ninnau yn y Sir hon. Heb son yn awr am ei ddarfelydd bywiog a'i athrylith gref, fe allai fod y ffaith mai plentyn amddifad ydoedd, a'i fod hefyd yn ddyoddefydd mawr, yn cyfrif am y gofal a ddangoswyd am dano, a'r dyddordeb dwfn a deimlid ynddo. Y mae yr amddifad yn cael lle mawr yn ein gwlad ni, am mai gwlad Gristionogol ydyw. Y mae y dyoddefydd hefyd yn cael lle a sylw mawr yn mhob gwlad wareiddiedig dan haul. Gŵyr pawb fod gan y *tragical* afael ddyfnach yn nghalon dyn na'r *comical*. Un o'r pethau sydd yn gwahaniaethu gwledydd Cristionogol a gwareiddiedig oddiwrth wledydd anwaraidd, yw y gofal a ddangosir ganddynt am gleifion a dyoddefwyr. Ychydig mewn cymhariaeth o hen bobl fethedig, ac ychydig yw nifer y cleifion (*invalids*) a geir mewn gwledydd paganaidd ac anwaraidd. Y rheswm, mae'n ymddangos, am hyny ydyw hyn: gosodir i lawr fel egwyddor gan yr anwariaid nad oes gan neb hawl i fyw oddieithr ei fod yn medru gwneyd drosto ei hun, a myned trwy y byd heb fod yn faich ar gymdeithas. Y mae y plant yn fuan ar ol eu genedigaeth yn cael eu gosod allan yn yr awyr agored; y mae y gweiniaid o anghenrheidrwydd yn marw, ac nid oes neb ond y sawl fyddo yn meddu ar gyfansoddiad cryf yn medru goroesi goruchwyliaeth o'r fath. Dyna y rheswm nad oes ond ychydig o *invalids* i'w cael yn ngwledydd anwaraidd y byd.

Ond y mae crefydd yr Arglwydd Iesu wedi gosod *premium* ar wendid; ac y mae yr Eglwys Gristionogol wedi codi clafdai a thlottai ar gyfer dyoddefwyr a thlodion a phobl fethedig ein byd. Ond yr oedd ein brawd ymadawedig hefyd yn meddu ar dalentau dysglaer, ac y mae talent ac athrylith yn hawlio gwarogaeth; ac offrymodd ei holl dalentau ar allor ei Arglwydd a'i Waredwr.

Yr oedd yn hawdd canfod fod ei brofedigaethau a'i amgylchiadau neillduol wedi gadael argraff ddofn ar ei weinidogaeth. Tosturi at ddyn oedd yr elfen fawr oedd yn rhedeg trwy ei holl bregethau; sylfaenai ei

weinidogaeth yn benaf ar egwyddorion mawrion yr ail lech yn neng air y Ddeddf, yn hytrach na'r llech gyntaf. Hyn, fe allai, sydd yn rhanu pregethwyr mawr y gwahanol oesau. Yr oedd y pregethwyr hyny gododd Duw i aflonyddu ar y byd—diwygwyr y byd—yn sylfaenu eu gweinidogaeth ar egwyddorion y llech gyntaf—hawliau goruchel (*supreme*) yr Anfeidrol i wasanaeth llwyr a hollol dyn fel ei greadur; hyn oedd yn cyfansoddi ochr haiarnaidd (*iron side*) eu cymeriad gweinidogaethol. Dynion felly oedd Jonathan Edwards, Martin Luther, John Knox, John Wesley, John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern. Pan oedd y dyn mawr hwnw, un o'r meddylwyr mwyaf arddansoddol (*metaphysical*) welodd y byd erioed, sef Jonathan Edwards, yn traddodi y bregeth ofnadwy hono ar y mater difrifol hwnw, "Pechaduriaid yn llaw Duw cyfiawn," gwaeddodd allan un o'r gweinidogion oedd yn ei wrando, "If there is nothing else in God, dear Mr. Edwards, we shall all perish." Ond yr oedd y pregethwr mawr a'r diwygiwr zelog hwnw, George Whitfield, yn eithriad. Tosturi at ddynion, hawliau ein cyd-ddynion i'n gwasanaeth a'n cydymdeimlad, oedd nodwedd fawr wahaniaethol gweinidogaeth Whitfield. Fe allai mai y tlodi yr aeth trwyddo ynghyd a'r gwawd a'r dirmyg a dyoddefodd am ei fod yn blentyn tlawd, sydd yn cyfrif am y nodwedd hon oedd i'w chanfod mor amlwg yn ei weinidogaeth. Hawliau ein cyd-ddynion i'n gwasanaeth a'n cydymdeimlad oedd un o brif elfenau gweinidogaeth y brawd ieuanc sydd wedi ein gadael. Parodd ei dosturi a'i gariad angerddol at eneidiau dynion, iddo fyned i'r pulpud pan mai yn ei wely, yn ol barn pawb eraill, y dylasai fod. Aeth oddiamgylch gan anghofio ei hun i ddyddanu y gwan eu meddwl, a chyhoeddi gollyngdod i gaethion. A dyna y fath un yw y gwir bregethwr,—un yn rhodio oddiamgylch gan wneuthur daioni. Talodd Oliver Cromwell unwaith ymweliad âg un o eglwysi cadeiriol ein teyrnas; yr oedd ei enw yr adeg hono yn arswyd yn y wlad, a'i air yn ddeddf. Arweinid ef o fan i fan yn y *Cathedral* gan y Deon; a phan ddangoswyd iddo ddelwau y deuddeg apostol wedi eu gwneuthur o arian pur, gofynodd i'r Deon sut ddynion oedd yr apostolion gynt. Atebodd y Deon mai dynion yn rhodio oddiamgylch gan wneuthur daioni oeddynt. "Os dynion felly oeddynt," ebe Cromwell, "nid yw y delwau hyn yn gwneuthur cyfiawnder â hwynt, gan eu bod hwy yn aros, fel pob delwau eraill, yn yr unfan o ddechreu blwyddyn hyd ei diwedd hi." "Rhaid toddi y deuddeg apostol hyn," meddai, "ac wedi gwneyd hyny, mi ddanfonaf fi yr arian i'r *mint* i gael gwneyd arian treigl *(current coin)* o hono; ac yna fe fydd y deuddeg apostol hyn, fel yr apostolion gynt, yn myned o gwmpas y wlad gan wneuthur daioni."

Dernyn o arian, o *current coin* teyrnas nefoedd, oedd ein brawd tra bu yn ein plith, ac aeth gymaint o gwmpas ag oedd ei iechyd yn caniatâu iddo. Ond y mae bellach wedi ein gadael, canys yr oedd "yn rhaid i'r Arglwydd" wrtho mewn cylch uwch o ddefnyddioldeb. Diolchwn i Dduw am dano, a gweddïwn ar Ben Mawr yr Eglwys roi i ni eto ddynion yn llawn o gariad at Grist, ac at eneidiau dynion.

NODWEDDION PAUL FEL DYN, CRISTION, A PHREGETHWR.

PENNOD I.

Dywedir mai ystyr yr enw Paul ydyw "bychan," ond y mae yn anhawdd iawn cael allan yn ei fywyd unrhyw fychander yn perthyn iddo. Yr oedd pob peth perthynol iddo yn hollol i'r gwrthwyneb yn ein golwg ni. Ond y mae yn ymddangos fod yr enw yn hollol gydweddol â'i deimlad ef ei hun. Dyma yr olwg yr oedd yn hoffi edrych arno ei hun; edrychai arno ei hun fel y lleiaf ymhlith ei frodyr; teimlai nad oedd ef yn ddim: "Canys myfi yw y lleiaf o'r apostolion, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn apostol." Gwelwn oddiwrth hyn fod yr enw a roddwyd arno yn hollol yr un â'r hyn yr oedd efe yn ymhyfrydu mewn cyfrif ei hun. Yn ei olwg ei hun yn unig yr oedd efe yn "fychan," o herwydd mewn gwirionedd gellir dyweyd am dano ei fod ef ymhlith y

hai talaf o feibion dynion. Yr oedd yn enwog ymysg ei genedl ei hun, wedi "cynnyddu yn fwy na llawer o'i gyfoedion." Edrychid arno gyda pharch gan ei gyd-apostolion, edmygid ef yn fawr gan yr eglwysi; ïe, y mae yn un o gymeriadau mwyaf ardderchog a goruchel yr eglwys Gristionogol hyd y dydd hwn; ac fe fydd felly hefyd tra y pery yr Eglwys mewn bod.

Yr oedd efe yn Ddyn, Cristion a Phregethwr. Y mae yn anhawdd cael golwg gyflawn ar gyfoeth y tair gwythïen yma yn ei gymeriad. Nid dyn, Cristion a phregethwr yn unig ydoedd Paul, eithr y mae yma enwogrwydd neillduol yn perthyn iddo ymhob un o'r tair gwedd yma ar ei gymeriad. Mae yna nodweddion goruchel a mawreddog yn perthyn iddo fel dyn, Cristion a phregethwr.

I. Edrychwn yn gyntaf ar rai o nodweddion Paul fel Dyn.

1. Yr oedd yn ddyn *dysgedig ac urddasol.* Yr oedd o genedl Israel, yn Iuddew gwirioneddol. Nid yn unig nid oedd ef ei hun yn broselyt oddiwrth y Cenedloedd, ond nid oedd yr un o'i henafiaid felly ychwaith. Yr oedd ef o "lwyth Benjamin;" yr oedd wedi disgyn oddiwrth Jacob drwy ei wraig, ac nid trwy un o'i lawforwynion, a thrwy ei wraig anwylaf; ac yr oedd yn perthyn i lwyth a barhaodd yn ffyddlawn i addoliad a gwasanaeth Jehofah pan y ciliodd y deg llwyth ar ol eilunaddoliaeth, a llwyth hefyd a anrhydeddwyd drwy fod dinas Jerusalem a'r deml o fewn ei derfynau. Yr oedd yn "Hebrëwr o'r Hebreaid." Nid oedd yn un o'r Iuddewon hyny a elwir yn Roegiaid (Act. vi. 1), am eu bod wedi colli eu hiaith eu hunain, ac am eu bod o ran rhyw arferion cymdeithasol wedi myned yn lled dèbyg i'r Groegiaid y cyfanneddent yn eu plith. Ond yr oedd Paul yn un o'r Hebreaid oeddynt yn cadw at eu hiaith eu hunain, a'r rhai oeddynt yn fwy eiddigeddus o lawer dros yr arferion a'r defodau a berthynai iddynt fel cenedl. Gallai ymffrostio hefyd ynddo ei hun o ran ei gysylltiad urddasol â'r grefydd Iuddewig. Yr oedd yn un o'r Phariseaid, y sect fanylaf, y fwyaf gofalus, defosiynol a rhinweddol a berthynai i'r genedl. Yr oedd yn ddiargyhoedd. Nid Pharisead penboeth oedd, zelog dros draddodiadau y tadau, ond yn esgeulus o foesoldeb cyffredin; eithr i'r gwrthwyneb yr oedd wedi ymgadw rhag pob peth gwaharddedig, fel yr oedd o ran ei fuchedd allanol a'i ymddangosiad i ddynion yn gyfryw ag nad oedd gan neb le i achwyn dim arno. Gwelir oddiwrth yr ystyriaethau hyn fod Paul yn gymeriad dysglaer ymhlith ei genedl ei hun o ran ei waedoliaeth a'i grefydd. Yr oedd yn ddyn o gyfrifoldeb ac yn uchel yn ngolwg mawrion y genedl. Mae lle cryf i gredu fod Paul pan yn ieuanc yn aelod o'r cynghor pwysig hwnw a elwir y Sanhedrim. Cesglir hyn oddiwrth y lle amlwg oedd iddo ynglŷn â'r erledigaeth ar yr eglwys Gristionogol. Yr oedd hefyd, yn ol ei dystiolaeth ei hun, yn rhydd-ddinesydd Rhufeinig. Yr ydym yn cael ei fod pan wedi ei alw yn apostol Iesu Grist yn cymeryd gafael yn yr holl bethau hyn er amddiffyn ei gymeriad pan yn cyhoeddi efengyl y deyrnas. Mae yn troi ei holl ragorfreintiau er mantais i'r grefydd yr oedd yn ei lledaenu.

Yr oedd Paul yn ddyn dysgedig. Byddai y rhieni Iuddewig dan rwymau deddf i roddi addysg i'w plant, ac heblaw hyny, mae yn ymddangos fod teulu Paul yn deulu cyfrifol uwchlaw y cyffredin. Yr oedd y ddinas lle ei ganwyd, sef Tarsus, yn lle enwog am ei manteision addysgawl. Dywed un ysgrifenydd fod athrofeydd Tarsus yn rhagori hyd yn nod ar rai Athen ac Alexandria mewn athroniaeth a llenyddiaeth, ond fod mwy o athronwyr yn y rhai diweddaf. Yn y ddinas enwog hon y derbyniodd Paul ei addysg foreuol. Wedi bod am yspaid dan addysg yn y ddinas hon, cawn iddo fyned i Jerusalem fel y gallai ymgydnabyddu â hanesiaeth ei genedl yn wladol a chrefyddol. Wrth draed Gamaliel yr ydym yn ei gael yma, yn yfed o wybodaeth y Rabbi dysgedig. Gwelwn iddo gael addysg lawer, ac y mae ei areithiau a'i ysgrifeniadau yn tystio yn eglur ei fod wedi gwneuthur defnydd helaeth o'r ddysgeidiaeth a gafodd. Cesglir oddiwrth rai nodweddion ynddo fel ysgrifenydd ei fod yn meddu gwybodaeth helaeth am yr awduron Groegaidd. Ceir ei fod yn dilyn y dull rhesymegol o osod gwirionedd allan yn fwy na'r un o'r ysgrif-

enwyr sanctaidd. Y mae wrth ymresymu hefyd yn dwyn ger bron yr egwyddor bellaf ar ba un yr ymddibyna terfyniad y ddadl. Yr oedd hefyd yn hyddysg yn holl athrawiaethau a ddulliau yr Iuddewon o ymresymu, yn ngwyneb pa rai yn neillduol yr oedd Paul wedi ei fwriadu i amddiffyn yr efengyl. Addysgwyd ef gyda golwg neillduol ar y gwaith y galwyd ef i'w gyflawni.

2. Nodwedd arall yn Paul fel dyn ydoedd ei *weithgarwch* a'i lafur diflino. Yr oedd yn weithiwr mawr cyn ei dröedigaeth. Gwelodd gelynion crefydd Iesu Grist hyny, ac y maent ar unwaith yn ei gymeryd i mewn at eu gwasanaeth. Y mae yn cael lle ac eisteddle yn y Sanhedrim, lle yr oedd eu cynlluniau yn cael eu dwyn o amgylch, ac os byddai yno waith mewn llaw yr oedd Paul yn cael cynnyg buan arno. Ond yr ydym yn cael hefyd ei fod yn awyddus am waith: "Efe a ddeisyfodd gan yr archoffeiriad lythyrau i Damascus at y synagogau." Pan ddarfyddodd y gwaith gartref nid oedd yn foddlawn heb gael tori maes newydd. Cymaint oedd ei awydd yn y gwaith, a'i grediniaeth o uniondeb y gwaith, fel y dywed iddo "erlid eglwys Dduw allan o fesur," &c. "Minnau yn wir a dybiais ynof fy hun, fod yn rhaid i mi wneuthur llawer o bethau yn erbyn enw Iesu o Nazareth, yr hyn hefyd a wnaethum." Ond fe gymerodd Duw drugaredd arno, ac a'i galwodd trwy ei ras at y gwir waith i'r hwn yr oedd efe wedi ei neillduo o'i febyd. O'r blaen yr oedd yn erlid eglwys Dduw a'i hanrheithio hi, ond yn awr y mae Duw yn ei alw nid i anrheithio ei eglwys, ond i'w hadeiladu. Yr oedd yn "llestr etholedig i'r Arglwydd." Ymddengys mai un o amcanion awdwr llyfr yr Actau ydyw gosod allan sylfaeniad a chynnydd yr eglwys ar y ddaear. Yn y pennodau cyntaf yr ydym yn cael yr eglwys yn cael ei sylfaenu, a'r prif ddyn ynglŷn â'r gwaith hwn oedd yr apostol Pedr. Wedi i'r gwaith o sylfaenu yr eglwys yn Jerusalem gael ei gyflawni, nid oedd i sefyll yno, ond yr oedd i gynnyddu a lledaenu: yr oedd y Gair i gael ei bregethu i'r holl genedloedd. Nid Pedr oedd y dyn i gyflawni y gwaith hwn, canys pregethwr yr Iuddewon oedd ef yn fwyaf neillduol, un i lafurio gartref megys; ond yn Paul yr ydym yn cael y dyn i'r gwaith hwn, efe oedd y "llestr" i gario yr had da dros gyrau y ddaear. Dyma arwr mawr y rhan ddiweddaf o lyfr yr Actau, yr hwn oedd i fod yn offeryn arbenig yn llaw y Brenin er cynnydd a lledaeniad ei deyrnas. Un rhan bwysig o waith yr Apostol Paul ydoedd gorchfygu yr anhawsderau a chlirio y ffordd, arloesi y tir yn barod i dderbyn yr had da. Yr oedd i gyfarfod â Phaganiaeth ac Iuddewiaeth; yr oedd aml-dduwiaeth Groeg a Rhufain ar ei ffordd. Yr oedd i ymresymu â'r Stoiciaid a'r Epicuriaid. Ceid pob dosbarth o ddynion yn dueddol i ymddiried mewn breuddwydion, dewiniaeth, a phethau truenus eraill, yn lle crefydd. Boddlonai y Phariseaid ar y ffurf o grefydd, ymffrostiai y Saduceaid fel ammheuwyr. Yr oedd Paul i gyfarfod â'r rhai hyn oll, ac i'w hargyhoeddi o'u cyfeiliornadau. Wedi hyny yr oedd i hau yr had ac i wylio drosto pan yn tyfu. Er cyrhaedd yr amcan o ledaenu yr efengyl yr oedd yn rhaid teithio, ac yr ydym yn cael mai Paul ydoedd y dyn i hyn. Y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, rhoddi cyfrif o'i lafur teithiol. Rhenir ei deithiau yn fynych i dair taith benodol. Yr ydym yn cael oddiwrth y cyfrif lleiaf, a gadael allan ei fordeithiau, ei fod wedi teithio dros dri chant a phedwar ugain o filldiroedd y daith gyntaf, ac ar yr ail daith dros fil o filldiroedd y fan leiaf. Mae llawer o ddynion yn gwneyd gwaith mawr mewn un cyfnod o'u bywyd, ond yn syrthio i ddinodedd y cyfnod dilynol. Mae rhai felly o herwydd diffyg argyhoeddiadau digon cryfion i'w dal yn gedyrn drwy wahanol gyfnodau eu hoes; mae eraill â'u nerth meddyliol fel pe byddai wedi ei drethu yn rhy drwm; ac eraill â'u nerth corfforol yn diffygio. Ond y mae yr apostol Paul yn un o'r dynion hyny sydd wedi ymgynnal drwy eu holl fywyd, a gweithio yn galed drwy bob rhwystrau. Yr oedd ei dröedigaeth, ei barotoad i'w waith, a'i ddwy daith gyntaf, yn cael eu nodweddu mewn modd neillduol gan lafur corfforol, gweithgarwch meddyliol, a duwiolfrydedd calon. Wrth feddwl am hanes ei deithiau blin a phrofedigaethus, yr ydym yn

barod i ddyweyd, 'Digon bellach, yr wyt wedi gwneyd dy ran.' Ond yn lle hyny cawn yr apostol yn cychwyn allan drachefn, ac y mae hanes ei drydedd daith mor ddyddorol, mor hynod, ac mor bwysig, os nad mwy felly nag unrhyw ran o fywyd y dyn hynod hwn—y "llestr etholedig" hwn sydd wedi cael lle mor bwysig ynglŷn â sefydliad Cristionogaeth yn y byd. Wedi edrych fel hyn yn fras dros ei lafur a'i weithgarwch, yr ydym yn barod i gydolygu âg ef pan y tystia iddo lafurio yn helaethach trwy ras Duw *na'r holl apostolion.*

3. Yr oedd Paul yn ddyn *zelog a phenderfynol* gyda phob achos y cymerai afael ynddo. Yr ydym yn naturiol yn dyfod i'r casgliad fod y nodweddion hyn i'w cael yn ei gymeriad oddiwrth hanes ei lafur a'i weithgarwch. Nid dyn oer a difater a allasai gyflawni y fath waith, yr oedd yn rhaid cael zel a phenderfyniad neilldnol. Hynodid Paul gan ei zel cyn ei dröedigaeth; nis gellir cael dim i gystadlu â'i zel yn erlid yr eglwys, ond ei zel ef o'i phlaid wedi hyny. Yr oedd ei eiddigedd dros y gyfraith y fath fel nas gallasai ddyoddef i neb ddyweyd dim yn ei herbyn. Yr oedd yn credu yn ei hawdurdod Ddwyfol, ac yn edrych arni fel y ffurf uchaf o grefydd yn y byd. Yr oedd yn gydwybodol yn ystyried fod y rhwymau cryfaf arno i wneuthur yr hyn a allai ymhob modd er dinystr pa beth bynag a ymddangosai iddo ef yn tueddu i'w darostwng; a chan fod yr eglwys yn ei olwg ef yn euog o hyny, yr oedd â'i holl egni yn ymdrechu i'w hanrheithio. "Yn ol zel yn erlid yr eglwys." Yr oedd mor benderfynol yn y gwaith fel yr oedd yn llusgo gwŷr a gwragedd o'u tai, "gan eu rhwymo a'u dodi yn ngharchar." Ond ar y ffordd i Damascus fe ddangoswyd i Paul mai nid dyma y ffordd y gallai "ddwyn zel i Dduw," ac fe arweiniwyd y nodweddion dysglaer hyn i'w hiawn gyfeiriad, lle yr ydym yn eu cael y gweddill o'i oes yn gweithio yn ogoneddus. Dros yr efengyl yr oedd wedi ei ordeinio i ddangos ei zel a'i benderfyniad, a'r fath arddangosiad ysplenydd ydym yn gael o honynt! Pan oedd un tro yn bwriadu myned i Jerusalem, rhagwelai ei gyfeillion fod perygl o'i flaen, a cheisiasant ei berswadio i beidio myned; ond hyn ni ellid, yr oedd ei benderfyniad y fath fel yr oedd yn barod i farw yn Jerusalem er mwyn yr Arglwydd Iesu. A'r fath zel dros Grist a ddangosai pan y cynhyrfwyd yn ei erbyn yn Jerusalem, ei daliwyd ac ei curwyd, wedi i'r milwyr ei gael o afael y terfysgwyr, ac iddo gael hamdden i lefaru, y mae yn dechreu yn union ar hanes ei dröedigaeth fel y *llwybr tebycaf iddo allu dangos iddynt ogoniant y Gwaredwr.*

4. Hynodir Paul gan ei *wroldeb a'i ddoethineb.* Yr oedd anghen mawr am wroldeb mewn dyn er lledaenu Cristionogaeth yn ei dyddiau boreuol, gan faint yr anhawsderau, y peryglon, a'r dyoddefiadau. Fel yr ydym yn gweled oddiwrth hanes Paul, ni fu yntau ddim heb ei ran yn helaeth o honynt, ac yr ydym yn gweled hefyd ei fod wedi ei barotoi i'w cyfarfod. Y mae ei Feistr mawr yn hysbysu ar ddechre ei yrfa y dangosai iddo "pa bethau eu maint yr oedd raid iddo ddyoddef er mwyn ei enw." Yr oedd wedi ei gynnysgaethu â gwroldeb mawr dros yr efengyl yr hon yr oedd i'w hamddiffyn. Yr ydym yn cael fod yr Iuddewon yn barod iawn i godi yn ei herbyn, o herwydd ei bod yn myned yn erbyn eu traddodiadau hwy. Drachefn yr oedd rhai eraill megys y dewinwyr, consurwyr, a'r gofaint copr, yn barod i'w llethu am ei bod yn gwneuthur drwg i'w masnach lygredig ac annuwiol. Mae y grefydd Gristionogol yn nod i elynion dirifedi i saethu ati; ac yr oedd y fath gysylltiad agos rhwng Paul â hi, fel yr oedd pob saeth yn disgyn arno yntau. Efe oedd i'w hamddiffyn, a thuag at hyny yr oedd i fod yn wrol a doeth. Yr oedd yn rhaid cael doethineb mawr i ddangos gwir gymeriad crefydd Crist i'w chyhuddwyr, ac nid mesur bychan oedd raid gael er dal i'w garcharu a'i fflangellu ar gam. Cryn beth hefyd oedd croesi o Asia i Ewrop i bregethu Crist y dyddiau hyny, ac ar ol croesi gorfod gwynebu ar y lleoedd mwyaf pwysig, megys Philippi, Thessalonica, Athen, a Chorinth.

5. Nodwedd amlwg arall yn yr Apostol Paul ydoedd *ei ostyngeiddrwydd.* Nid bob amser y mae yr ysbryd hwn yn cydfyw âg ysbryd gwrol, penderfynol, dysgedig. Yn y cyffredin y mae gwroldeb a phender-

fyniad mawr yn magu uchelgais: mae y dysgedig yn tueddu at fod yn hunanol, a'r zelog at fod yn ymffrostgar. Ond am Paul, er ei fod yn ddyn o'r mwyaf dysgedig yn ei oes, yn ddyn gwrol, penderfynol, a zelog, eto y mae yn ddyn o'r mwyaf gostyngedig. Gallesid meddwl ar ryw olwg ei fod i'r gwrthwyneb, pan y dywed gyda neilldnolrwydd am dano ei hun ei fod yn Hebrewr o'r Hebreaid, yn Pharisead, yn ddiargyhoedd; pan y dywed am dano ei hun ei fod wedi cynnyddu yn fwy na llawer, a'i fod yn weithiwr tu hwnt i'w frodyr. Onid ymffrost ac uchelgais ydyw hyn? Mae yr Apostol yn cyfaddef ei fod yn ymffrostio, "fel y gallwyf finnau ymffrostio ychydig." Ond yr oedd yr amgylchiadau yr oedd ynddynt yn gofyn am iddo wneuthur hyny. Nid oedd byth yn ymffrostio heb achos cyfreithlawn i hyny. Yr ydym yn cael rhai yn barod i'w gyhuddo mai Aiphtwr oedd; cawn eraill yn barod i haeru nad oedd wedi ei alw yn apostol; ac er mwyn amddiffyn ei hun, y mae yn egluro ei hun iddynt o ran ei gymeriad a'i waith. Cawn y gau athrawon hyny yn ceisio dyrchafu eu hunain yn ngolwg y Corinthiaid trwy iselhau Paul, ac onid cyfreithlawn "gan fod llawer yn ymffrostio yn ol y cnawd," i'r apostol hefyd ymffrostio? Ond yr ydym yn cael nad oedd yr ysbryd hwn byth yn cael lle ganddo os na byddai yn ennill i efengyl Crist. "Eithr yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd." Gostyngeiddrwydd ydoedd nodwedd amlwg yr Apostol Paul. Yn y sylwadau ar y nodweddion eraill yr oeddym yn cael y cyfryw ynddo i raddau helaeth cyn ei dröedigaeth, ond y mae yma yn wahanol: ar y ffordd i Jerusalem y daeth y duedd hon i'r golwg gyntaf yn ei hanes. Un wers fawr a roddodd yr Iesu iddo oedd bod yn ostyngedig. Diau fod Paul yn ddyn llawer mwy dysgedig nag Ananias, ac y mae yn sicr ei fod yn ddyn o lawer cryfach cynneddfau nag ef; ond y mae yn ymostwng yn ddirwgnach, gyda symlrwydd a pharch, i gymeryd ei ddysgu ganddo. Ceisia ymwasgu â'r dysgyblion yn Jerusalem fel pe buasai eu ffafr yn werth pob peth iddo. Yr oedd yn gallu dal eu hedrychiad ammheus, a pharhâu i lynu wrthynt er mor oeraidd y gweithredent tuag ato. Ennillodd eu serch ato trwy ei ostyngeiddrwydd, a thrwy ei oes wedi hyny yr oedd yn meddu ar ysbryd mor ostyngedig fel yr oedd yn hawdd ganddo fyned o dan draed eraill fel y penaf o bechaduriaid, a llai na'r lleiaf o'r holl saint. Mae yn cyfrif ei hun mor fychan fel nas gallasai fod yn llai: "nid wyf fi ddim." Ond tra yr oedd efe yn gostwng ei hun yr oedd yn mawrhâu ei swydd. Y rhai a gyfyd Duw i orchwylion anrhydeddus, efe a'u gostwng ac a'u gwna yn isel yn eu golwg eu hunain, a lle y rhoddo Duw ras i fod yn isel, yno hefyd y rhydd bob gras arall: "Canys yr hwn a ostyngo ei hun, hwnw a ddyrchefir."

Wrth adael Paul fel dyn yr ydym yn ymdeimlo ein bod wedi ceisio olrhain un o'r cymeriadau cyflawnaf a fu ar y ddaear erioed. Yr oedd yn ddyn yn llawn ystyr y gair. Gellir gofyn gydag addasrwydd a fu ei fath ymhlith y rhai oll a gyfranogasant o lwgr natur Adda? Ond nid dyn yn unig oedd Paul, eithr fel yr awgrymir yn y testyn, yr oedd yn Gristion. Ni buasai yn ddyn cyflawn yn ngolwg eglwys Crist heb ei fod yn ddyn o Gristion. Dyma goron ei ddynoliaeth. Mae llawer o'r anffyddwyr yn ddynion enwog, yn ddysgedig, yn zelog, yn benderfynol, ac yn weithgar, eto mor ddiwerth ydyw y nodweddion hyn, mor druenus ydyw eu gwasanaeth! Ond am y nodweddion hyn fel eu cawn yn Paul, wedi eu sancteiddio i Grist, mor werthfawr ac ardderchog ydynt!

WILLIAM DAVIES.

Portmadoc.

GWEDDI.

Gan y Parch. ISAAC JONES, *Nantglyn.*

SYLWN ar weddi yn gyntaf yn ei *gwrthddrych*, sef Duw. Cofiwn mai Bôd personol yw gwrthddrych gweddi; nid deddf, nid egwyddor, ond Bôd—Bôd personol fel y'n dysgir am dano yn y dadguddiad Dwyfol. Dylem feddu syniad cywir am dano o ran natur. Nis gallwn, fe allai, gael syniad perffaith am dano o ran graddau yn y

fuchedd hon, nac o bosibl mewn un fuchedd arall, am fod y Duw personol hwn yn Fôd nas gall neb synio am dano yn berffaith ond Efe ei hun; er hyny gallwn ni y rhai ydym feidrol gael syniad cywir am yr Anfeidrol o ran natur syniad; dylem amcanu bob amser ffurfio y syniad hwn fel y mae yn y gair Dwyfol, a choleddu'r syniad hwn bob amser. Bôd personol, cofiwn, yn meddu holl berffeithderau bôd o ran natur a phriodoliaethau —y teimladau perffeithiaf ynddo tuag atom ni ei greaduriaid, beth bynag yw ein sefyllfa. Bôd agos atom; ynddo yr ydym yn byw, symud, a bod. Ond nid yw agosrwydd hanfodiad yn unig yn ddigon i'n tynu at Dduw mewn gweddi. Rhaid ein cael o'r pellder cyflwr ac agwedd cyn y gall heddwch a chymundeb fod rhyngom âg Ef. Y teimlad o hono fel ein Tad ydyw sail cymhelliad i'r meddwl i nesâu at y Duw mawr mewn gweddi.

2. Gweddi yn ei *chyfrwng*. Mor wirioneddol ag y mae y Tad yn wrthddrych gweddi, mae y Mab yn gyfrwng trwy ba un yr ydym i fyned at y Tad trwyddo; ac y mae yn rhaid i ni wrtho i nesâu at y Tad trwyddo. Mae y Duwdod yn Fôd personol o un natur a thrindod o bersonau, ac ni byddem yn methu wrth olygu y naill berson yn gystal a'r llall yn wrthddrych gweddi, a'r Duw hwn yn ei undod a thrindod yw'r unig wrthddrych gweddi. Mae rhai pethau yn gyffredin i'r tri pherson, megys eu dwyfoldeb a'u priodoliaethau, ond y mae pethau eraill yn neillduol i un person nad yw felly i'r llall, ac y mae cyfryngdod yn neillduol i'r ail berson yn unig, fel nad ellir golygu y Tad na'r Ysbryd yn gyfryngau o gwbl. Ond y mae i ni Gyfryngwr y dyn Crist Iesu, ac fel y mae pob perffeithrwydd yn Nuw fel un gwrthddrych gweddi, felly y mae pob perffeithrwydd yn Nghrist fel un cyfrwng gweddi. Mae i ni ddyfodfa trwyddo at y Tad, at y Drindod, yn un Duw. Efe yw ein Cyfryngwr ni yn yr oll a wnelom â Duw.

3. Gweddi yn ei *heffeithydd*—yr Ysbryd. Efe sydd yn ei chynnyrchu; nis gall bod gweddi hebddo ef yn rhoi bodolaeth iddi yn ein hysbryd ni. Ac y mae yn rhaid wrtho ef mor wirioneddol ynom, ag y mae yn rhaid fod gwrthddrych a chyfrwng cyn y gall gweddi fod. Nis gall gweddi fod heb wrthddrych priodol iddi. A rhaid fod cyfrwng iddi hefyd cyn y gallai fod. Ond rhaid fod awdwr iddi yn gystal yn ein hysbryd ni; a'r Ysbryd Glân ydyw hwnw. "Ni wyddiom ni beth a weddiom megys ag y dylem," ac nis gall fod ynom weddi hebddo ef. Cynnyrcha ef ocheneidiau annhraethadwy. A dyma ydyw gwir weddi o ran ei hanfod yn ei pherthynas â ni, y teimladau dwyfol hyn yn ein natur, a gynnyrchir yn yr Ysbryd Glân. Yn y goleu hwn mae math o anffaeledigrwydd yn perthyn i wir weddi, ac nid oes gweddi heb hyn. Ond beth ydyw gweddi eto yn ei pherthynas â ni? Dyfodfa at Dduw—dyfodfa ysbryd at y Duw mawr—dynesâd at Dduw mewn teimlad ac agwedd; ac y mae yn rhaid bod yn agos o ran cyflwr cyn y gellir nesâu o ran agwedd a theimlad. Ac y mae ein bod mewn agosrwydd cyflwr yn rheswm ac yn gymhelliad i ni nesâu yn ymarferol mewn gweddi.

Ni ddywedaf ond ychydig am ffurf gweddi, ac eto y mae iddi ei ffurf, fel y mae i bob peth ei ffurf yn y byd ffurfiol hwn. Ond dylai ei ffurf fod yr hyn a gynnyrchir gan ei hysbryd, er yr addefaf fod ymgymeryd â ffurf a thuedd neilduol i'n dwyn i'w hysbryd. Y goreu o lawer ydyw ymdaflu i ysbryd gweddi fel ag y byddo i'r ffurf fod yn gynnyrch yr ysbryd hwnw. Ni chrybwyllaf y gwrthwynebiadau sydd i weddi yn marn ac yn nysgeidiaeth rhyw bobl; ond y mae y rhai hyn yn codi o lygredigaeth natur lygredig dyn, fel y gwrthwynebiadau i bob addysg ac ymarferiad dwyfol a gymhellir arnom. Ac y mae y ddyledswydd o weddïo yn cael ei dysgu mor arbenig ag unrhyw ddyledswydd arall yn ngair Duw. Fe syrth holl awdurdod y gair dwyfol ar unwaith ag y syrth ei awdurdod ar y pen hwn. Gallwn ar yr un tir yn union ofyn paham y mae eisieu yr hyn sydd yn hanfodol i fywyd naturiol y corff er ei hanfodiad, a gofyn paham y mae eisieu gweddi er hanfodiad bywyd ysbrydol ynom? Mae y gair dadguddiedig drwyddo yn dwyn gweddi i'n sylw mewn engreifftiau o honi, a chymhelliadau iddi. Ac un o'r rhanau mwyaf arbenig o ddysgeidiaeth Crist a'r apostolion ydyw gweddi.

"Ymarfer attolwg âg ef, o hyn y daw i ti ddaioni." "Gweddïwch chwi fel hyn, Ein Tad." "Cynghori yr ydwyf, ymlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, a thalu diolch dros bob dyn," &c.

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI YR YSGOL SUL.

DOSBARTH IEUENGAF.

Gan y Parch. R. HUMPHREYS, *Bontnewydd.*

LLYFR GENESIS.

MAI 4YDD. GEN. II. 18—25. ADDA YN ASTUDIO NATUR.

YN ngwers y Sabboth hwn fe geir hanes gwneuthuriad Efa ac ordeiniad priodas. Y mae dau amcan i'r hanes. 1. Dangos gofal yr Arglwydd am gysur a dedwyddwch dyn. Yr oedd y wers flaenorol yn rhoddi adroddiad am y cartref a wnaed iddo yn Eden, a'r darpariadau oedd ynddo ar ei gyfer, ond nid oes son yn yr adroddiad am gydymaith iddo i gydfwynhau y cartref dedwydd âg ef. Yn nghanol prydferthwch a gogoniant y lle yr oedd "y dyn ei hunan." Nid oedd hyny yn "dda." Yn y wers hon y mae y diffyg hwn yn cael ei wneyd i fyny trwy i'r Arglwydd wneyd "ymgeledd gymhwys" iddo. 2. Parotoi y ffordd at yr hyn a geir yn y bennod nesaf. Yn niwedd y wers flaenorol y mae yr Arglwydd yn gwneyd cyfammod â dyn. Yn y bennod nesaf rhoddir hanes y cyfammod yn cael ei dori. Ond cyn rhoddi yr hanes hwnw, fe geir yn y wers hon adroddiad am ddygiad Efa i fôd, yr hon a gymerodd ran mor flaenllaw mewn troseddu gorchymyn yr Arglwydd. Y mae yr hanes a geir yma yn ein harwain yn ol at waith y chweched dydd. Yn yr adroddiad a geir yn y bennod gyntaf am waith y dydd hwnw, rhoddir ar ddeall yn eglur fod yr holl greaduriaid eraill wedi eu gwneuthur o flaen dyn. Y mae adn. 19 o'r bennod hon yn ymddangos fel yn rhoddi ar ddeall fod dyn wedi ei greu yn flaenorol iddynt. A oes yma anghysondeb rhwng y ddau adroddiad? Mewn ymddangosiad, oes; mewn gwirionedd, nac oes. Nid yw yr ysgrifenydd sanctaidd yn y bennod hon yn amcanu at roddi y gweithrediadau i lawr yn eu trefn amseryddol, ond yn y drefn hono oedd yn fwyaf gwasanaethgar iddo i gyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg yn y bennod. Nid oes yma gyfeiriad o gwbl at *adeg* creadigaeth y gwahanol greaduriaid. Yr amcan yw dangos fod y bwystfilod a'r ehediaid, y rhai, fel dyn o ran ei gorff, a luniwyd o'r ddaear, wedi eu dwyn at Adda *(a)* er mwyn iddo roddi enwau priodol arnynt; *(b)* er mwyn iddo *weled* nad oedd yn eu plith oll yr un creadur oedd yn gyfaddas i fod iddo ef "yn ymgeledd gymhwys." Nid ydym i feddwl fod y creaduriaid yn cael eu dwyn yn orymdaith, y naill ar ol y llall, at Adda. Yr hyn a feddylir yw ei fod yn arfer y galluoedd deallol oedd ganddo i astudio y creaduriaid oedd o'i amgylch, ac fel ffrwyth yr astudiaeth yn rhoddi i bob un enw oedd yn briodol iddo. Gallai ei fod wedi cymeryd llawer o amser i wneyd y gwaith. Tra yr oedd yr holl anifeiliaid yn wrryw ac yn fenyw, gwelai Adda nad oedd yn eu plith oll yr un ar ei gyfer ef. Ar ol i Adda gael ei ddwyn i weled a theimlo hyn, y mae yr Arglwydd yn gwneyd y diffyg i fyny yn ddiarwybod iddo (adn. 21, 22). *Trwmgwsg.* Dyma y cwsg cyntaf y sonir am dano yn y Bibl. Mae y gair a ddefnyddir yma am gwsg yn wahanol i'r gair am gwsg cyffredin. Rhydd hyny le i gredu mai nid cwsg naturiol ydoedd, ond cwsg y gwnaed i Adda syrthio iddo er mwyn cyrhaedd amcan neillduol. Gellir dyweyd yn gyffelyb am y trwmgwsg ddaeth ar Abraham (pen. xv. 12). Pan y deffrodd, efe a ganfu *un tebyg iddo ei hunan* yn cael ei dwyn ato, ac un a fyddai yn ymgeledd gymhwys iddo. Galwyd hi gan Adda wrth yr enw "gwraig." Llefarwyd adn. 24, nid gan Adda, ond gan yr hanesydd. Nid oedd Adda yn gwybod eto am y berthynas o dad a mam, am hyny nis gallasai efe wneyd y cyfeiriad sydd yn yr adnod ati. Y berthynas agosaf ymhlith plant dynion yw gŵr a gwraig; yr agosaf ati yw tad a mam. *Nid oedd arnynt gywilydd.* Am eu bod yn ddibechod.

MAI 11EG. GEN. III. 1—13. Y CWYMP.

Ar ol darllen y wers, dylai yr athraw alw i gof y dosbarth, trwy holi, yr holl hanes a roddir yn pen. ii. am brenau yr ardd, ac hefyd am delerau y cyfammod âg Adda (ii. 16, 17). Bydd gwneyd hyny yn gynnorthwy i ddeall y wers. Gellir ei rhanu fel y canlyn:—1. Ymddyddan y sarph â'r wraig (adn. 1—5). 2. Bwyta y ffrwyth gwaharddedig fel canlyniad yr ymddyddan (adn. 6, 7). 3. Yr Arglwydd yn galw Adda a'r wraig i

gyfrif (adn. 8—13). *Sarph.* Nid yw yn hysbys at ba fath o sarph y cyfeirir, ond y mae yn eglur mai am fwystfil o'r enw hwnw y mae yr adnod yn llefaru, oblegid y mae y sarph yn cael ei chymharu â bwystfilod eraill. Yr hyn a briodolir i'r sarph yw cyfrwysdra. Gall yr athraw holi y dosbarth am yr hyn sydd nodweddiadol o ddafad, llwynog, colomen, &c. Y mae cyfrwysdra y sarph yn dyfod i'r golwg mewn myned at y wraig, fel y llestr gwanaf, yn lle at Adda. Ond, wrth ddarllen yr hanes, y mae yn bwysig cofio mai offeryn yn llaw Satan oedd y sarph, ac mai Satan oedd yn llefaru drwyddi. Yr oedd y cyfrwysdra naturiol a berthynai i'r sarph fel creadur yn gymhwysder ynddi i fod yn offeryn. Y mae dull y sarph o demtio Efa yn dangos dull arferol yr un drwg o demtio plant dynion. I ddechreu, y mae y sarph yn dangos math o syndod ammheus at y gwaharddiad. Dyma yr hyn a osodir allan trwy y cyfarchiad i Efa yn adn. 1. Yr oedd tuedd yn y dull yma o lefaru i beri i'r wraig fyned i deimlo y gorchymyn yn un caled. Fe welir wrth gymharu ateb y wraig â pen. ii. 17, nad yw hi yn dyfynu geiriau yr Arglwydd yn gywir. Wrth gamddyweyd y geiriau, a thrwy hyny roddi ffurf mwy caeth ar y gorchymyn, yr oedd hi yn rhoddi grym yn y demtasiwn i'w dori. Y peth nesaf a wna y sarph yw gwadu gwirionedd Duw, "Ni byddwch feirw ddim." Yna dengys y fantais o fwyta o'r ffrwyth—"Canys gwybod," &c. Mae yma dair gradd yn y demtasiwn. (1) Ammheu a oes gwaharddiad. (2) Gwadu gwirionedd y gwaharddiad. (3) Dangos y fantais o droseddu y gwaharddiad *(a)* "Byddwch megys duwiau;" yn well, "megys Duw"—yn annibynol, a galluog fel Efe. *(b)* "Yn gwybod da a drwg," hyny yw, bydd eich gwybodaeth yn cael ei heangu. Byddwch yn gwybod da a drwg heb anghen arweiniad Dwyfol i hyny. Hwy a gawsant y wybodaeth hon, nid yn yr ystyr y rhagfynegid gan y sarph, ond trwy bresennoldeb drwg yn eu mynwes eu hunain. Mae y pethau canlynol i'w gweled yn ymddygiad y wraig, (1) Aeth yn rhy agos at yr hyn oedd yn cael ei wahardd; (2) Ymddyddanodd â'r temtiwr. Y mae yn un rhy beryglus i ymddyddan âg ef. (3) Nid oedd yn dyweyd geiriau yr Arglwydd yn gywir. (4) Aeth i ammheu a oedd perygl mewn anufuddhau. Galwed yr athraw sylw ei ddysgyblion at y pethau uchod wrth holi ar y wers. Bwytaodd y wraig o'r ffrwyth. (1) Am ei fod yn dda yn fwyd, hyny yw, am ei fod yn debyg o wneyd daioni corfforol iddi; (2) Am ei fod yn brydferth i edrych arno; (3) Am y byddai iddo fod yn debyg o agor ei deall ac ychwanegu at ei gwybodaeth. Mae y tri yn cyfateb i'r tri pheth sydd yn y byd—"Chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd." Yn y rhan nesaf o'r wers ni a gawn ganlyniad y bwyta. 1. Gwybod eu bod yn noethion. *Ffigysbren.* Pren adnabyddus gyda changenau uchel, yn cyrhaedd ymhell oddiwrtho, a'i ddail yn dra llydain a chysgodfawr. Dywedir fod dail un rhywogaeth o ffigys yn bedair troedfedd o hyd a thair o led. *Arffedogau.* Gwregysau am y canol. 2. Ymguddio. 3. Ofni. Ni wyddai dyn am y teimladau hyn o'r blaen. Ei gydwybod yn awr oedd wedi deffro. "Efe a gollodd Eden ac a ennillodd gydwybod" (Newman). "Fel y mae poen yn ein gwneyd yn ymwybodol o'n cyrff, felly y mae euogrwydd yn ein gwneyd yn ymwybodol o'n heneidiau" (Dods). Cydwybod yw yr hyn sydd o'n mewn yn ein ceryddu am wneyd drwg, ac yn ein canmol am wneyd da. Nid yw Adda yn gwadu ei bechod, ond ceisia wneyd esgusawd drosto trwy roddi y bai wrth ddrws y wraig. Nid yw y wraig ychwaith yn gwadu, ond rhydd y bai ar y sarph am iddi ei thwyllo.

Mai 18fed. Gen. iii. 14—24. Yr Arglwydd yn cyhoeddi y Ddedfryd.

1. Y ddedfryd ar y sarph (adn. 14, 15). Nid oedd gan y sarph esgusawd i'w gynnyg. Hi oedd wedi temtio y wraig. Ar y sarph, gan hyny, y rhoddir y ddedfryd gyntaf. Pa un ai ar y sarph ei hun y cyhoeddir y ddedfryd, ai ar Satan trwy y sarph? Ar y ddau. Y tu cefn i'r sarph yn y ddedfryd y mae y diafol. Mae y ddedfryd ar y sarph yn bedair rhan. 1. "Melldigedicach," &c. Yn well, "Melldigedig wyt ti *ymysg* yr holl anifeiliaid a bwystfilod y maes." *Anifeiliaid.* Creaduriaid dôf dan lywodraeth dyn. *Bwystfilod.* Creaduriaid gwyllt. 2. "Ar dy dòr y cerddi." Nid yw hyn yn golygu fod y sarph yn cerdded yn syth yn flaenorol, ond fod ei dull o ymsymud trwy ymlusgo i fod yn nôd o waradwydd arni o hyny allan. 3. "Pridd a fwytâi," &c. Dywed Dr. Thomson na chlywodd ac na ddarllenodd efe erioed am un math o sarph yn bwyta pridd. Y mae i'r geiriau ystyr gyffelyb i "lyfu y llwch." Nid oes dirmyg mwy ar ryfelwr dwyreiniol na gwneyd iddo lyfu llwch. 4. Mae gelyniaeth bythol i fod rhwng y sarph a'r ddynoliaeth. Y tu ol i hyn y mae Satan, gelyn mawr dyn, a Iesu Grist fel ei orchfygwr. Y mae y sarph wrth ymlusgo yn ymosod ar sawdl dyn, a dyn yn

gallu ymosod ar ei phen hithau, ac, fel creadur dan felldith, y mae hi yn cael ei gorchfygu ganddo. Yr oedd Had y wraig, sef Crist, yn ol y brophwydoliaeth hon, i orchfygu y diafol. Yr oedd yr elyniaeth rhyngddynt yn dangos ei hun trwy linell yr had (Abel, Seth, &c.), â'r rhai oedd tu allan i'r llinell hono. Gorchfygwyd y gelyn yn marwolaeth ac adgyfodiad Crist. Paham y dywedir "had y wraig" yn lle "had y gŵr?" Y mae y rheswm yn amlwg wrth i ni gofio mai prophwydoliaeth am Grist sydd yma. Ni fu ond un disgynydd o Efa heb dad daearol. Iesu Grist oedd hwnw. Am hyny gelwir ef yn "had y wraig." 2. Y ddedfryd ar y wraig (adn. 16). Amlhau ei phoenau a'i dwyn dan lywodraeth ei gŵr. 3. Y ddedfryd ar Adda (17—19). Ni felldithiwyd dyn, ond melldithiwyd y ddaear o'i achos. (1) Yr oedd i *orfodi* y ddaear, o hyn allan, trwy chwys ei wyneb, i roddi iddo foddion cynnaliaeth. Nid oedd i ymladd â'r ddaear o'r blaen. Yn awr y mae holl natur yn ei erbyn. (2) Tuedd naturiol y ddaear bellach yw dwyn drain, &c. Yr oeddynt yn tyfu trwy y ddaear o'r blaen, ond yn awr dyna a gynnyrchir yn naturiol ganddi. (3) Llysiau y maes oedd i fod yn ymborth iddo yn lle ffrwythau coed Paradwys. (4) "Pridd wyt ti," &c. Pwynt uchaf y ddedfryd. Bu farw yn ysbrydol y foment y pechodd, a daeth hadau marwolaeth naturiol i'w gyfansoddiad yr un pryd. Adda yn rhoddi enw ar ei wraig, a'r Arglwydd yn gwneyd gwisg i'r ddau (adn. 20, 21). *Efa.* Ystyr yr enw yw *bywyd*. *Peisiau crwyn.* Rhoddir lle i gredu oddiwrth ddefnydd y peisiau fod anifeiliaid yn cael eu lladd yn aberthau mor foreu a hyn. Yr Arglwydd yn gyru dyn allan (adn. 22—24). Cyn creu dyn fe gawn fod y Personau Dwyfol yn ymgynghori â'u gilydd (pen. i. 26), felly hefyd fe gawn fod ymgynghoriad rhyngddynt cyn ei anfon allan o'i gartref cyntaf. *Y cerubiaid â chleddyf tanllyd ysgwydedig.* Math o ymddangosiadau gwyrthiol wedi eu gosod wrth borth paradwys i gadw dyn euog rhag agosâu at bren y bywyd. Mor bell ag y gallem weled, dyna yr eglurhad mwyaf dyogel ellir ei roddi arnynt.

Mai 25ain. Gen. iv. 1—15. Pechod Eden yn dwyn ffrwyth.

1. Hanes dau frawd (adn. 1—8). 2. Yr Arglwydd yn cosbi yr un oedd ddrwg (9—15). Y dygwyddiad pwysig cyntaf a gymerodd le ar ol yr alltudiad o Baradwys oedd genedigaeth Cain ac Abel, plant cyntaf Adda ac Efa. Tybiodd Efa fod yr addewid a roddwyd yn Eden yn myned i gael ei chyflawni ar unwaith pan anwyd ei mab cyntaf. Galwodd ef Cain *(cymhorth))*. Pan anwyd yr ail, gellir meddwl oddiwrth yr enw a roddwyd arno fod ei gobaith wedi gwanhau. Galwyd ef Abel *(gwagedd* neu *darth)*. Amaethwr oedd Cain a bugail oedd Abel. Yr oedd y ddau wedi eu dwyn i fyny yn grefyddol, oblegid cawn hwy ymhen amser ar ol dechreu gyda'u gorchwylion ("wedi talm o ddyddiau"), yn aberthu i'r Arglwydd. Yr oedd yr Arglwydd, trwy ryw arwydd anwybyddus i ni, yn dangos ei gymeradwyaeth o Abel a'i offrwm, ond ni wnaeth efe hyny o Cain na'i offrwm. Yr oedd gwahaniaeth rhwng y ddau offrwm. Yr oedd Cain yn cymeryd o ffrwyth y ddaear. Nid oedd dim yn ddiffygiol yn *nefnydd* yr offrwm. Yr oedd Abel yn cymeryd o *flaenffrwyth* ei ddefaid ac o'u *brasder* hwynt. Blaenffrwyth yw ffrwyth blaenaf, neu gyntaf. Ni ddywedir fod Cain wedi cymeryd o flaenffrwyth y ddaear. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau frawd yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng eu hoffrymau. Yr oedd Abel yn gwneyd trwy ffydd (Heb. xi. 4), tra nad yw yn ymddangos fod Cain yn gwneyd felly. Ffydd Abel oedd yn rhoddi gwerth ar ei offrwm. Dangosir yn adn. 5 fod Cain wedi digio ac yn edrych i lawr. Y mae adn. yn un anhawdd. Os bydd i'r athraw feistroli yr eglurhad canlynol arni gall yn rhwydd arwain y dosbarth i'w deall. "Os da y gwnai, oni chei oruchafiaeth?" Y cyfieithiad llythyrenol fyddai, "Os wyt yn dda, onid oes godiad i fyny?" h.y., oni elli di godi dy wyneb i fyny? Fe all dyn da edrych i fyny. Pan y mae dyn yn dal i edrych i lawr, y mae hyny yn arwydd nad oes llawer o dda yn trigo ynddo, ac nad yw yn hollol ddiberygl. Yn y rhan olaf o'r adnod y mae pechod yn cael ei bersonoli, ac yn cael ei osod allan fel bwystfil yn sefyll wrth ddrws dyn i ymosod arno. "Os na wnei dda, y mae pechod yn gorwedd wrth ddrws dy galon, ac y mae ei ddymuniad yn cael ei gyfeirio atat ti; er hyny, os dewisi, ti a elli ei ddwyn o dan dy lywodraeth." Ar ymyl y ddalen yn y Cyf. Diwyg. fe ddywedir fod amryw o hen awdurdodau yn darllen adn. 8, "A Cain a ddywedodd wrth Abel ei frawd, Gad i ni fyned i'r maes; ac fel yr oeddynt," &c. Yr Arglwydd yn cyhuddo ac yn cosbi Cain (adn. 9—15). Cyfaddefodd Adda ei bechod yn Eden er iddo geisio rhoddi esgus drosto, ond y mae Cain yn gwadu ar y cyntaf. Gofynodd yr Arglwydd iddo ymha le yr oedd Abel er mwyn rhoddi cyfleusdra iddo i gyfaddef ei bechod. *Melldigedig*, &c. Cain oedd

y cyntaf i gael ei felldithio. Yr oedd y ddaear wedi ei melldithio trwy bechod ei dad. Ond yr oedd melldith i ddisgyn ar Cain o'r ddaear yr hon oedd wedi yfed gwaed y merthyr cyntaf. (1.) Nid oedd i roddi ei ffrwyth iddo er iddo ei llafurio. (2.) Nid oedd gorphwysdra iddo ar ei gwyneb. Gallwn edrych ar hyn fel gwrthdystiad y ddaear yn erbyn tywalltiad y gwaed dynol cyntaf. Darllenwn adn. 13 fel ar ymyl y ddalen, "Mwy yw fy ngosbedigaeth nag y gallwyf ei oddef." *Gwyneb y ddaear.* I Cain, Eden oedd gwyneb y ddaear, am mai yma yn unig yr oedd amlygiadau o bresennoldeb Duw. Wrth gael ei ymlid o Eden yr oedd yn teimlo ei fod yn cael ei yru oddiar wyneb y ddaear. *A phwy bynag a'm caffo*, &c. Ofn ei deulu ei hun oedd arno. Yr oedd teulu Adda erbyn hyn yn lliosog. Darllener y rhan olaf o adn. 15, "A'r Arglwydd a roddodd arwydd i Cain na fyddai i neb a'i cyfarfyddai ei roddi i farwolaeth." Beth oedd yr arwydd hwnw ni ddywedir.

DOSBARTH HYNAF.

YR EPISTOL AT YR HEBREAID.

Gan y Golygydd.

Sabboth, Mai 4ydd. Heb. i. 4—6.

Adn. 4: *Wedi ei wneuthur o hyny yn well na'r angylion.* Meddyliai yr Iuddew yn uchel o'r prophwydi, trwy y rhai y rhoddasid dadguddiad yr Hen Destament. Dangosir uwchafiaeth y Mab arnynt hwy yn yr adnodau blaenorol. Perthyna Ef i'r byd goruwchnaturiol. Ond yr oedd a wnelai bodau eraill uwch-ddynol ac uwch-ddaearol â dadguddiad yr Hen Destament. Credai yr Iuddewon fod gan yr angylion law neilltuol yn rhoddiad y gyfraith: "trwy drefniad angylion," Act. vii. 53; "wedi ei threfnu trwy angylion," Galat. iii. 19; "a lefarwyd trwy angylion," Heb. ii. 2. Dengys yr Apostol yn awr ei ragoriaeth ar yr angylion. Yn yr un peth yr oedd hyn yn gynnwysedig, sef yn ei fod yn *Fab.* Yr oedd yr angel yn uwch na dyn, ond yr oedd y Mab yn uwch na'r angel. Ië, yr oedd y Mab gymaint yn uwch na'r angel ag ydoedd yn uwch na dyn. Y mae y pellder rhwng y dyn a'r angel yn myned yn ddim yn ymyl y pellder rhwng y ddau a'r Mab. Nid gwahaniaeth graddau sydd rhwng yr anfeidrol a'r meidrol, ond gwahaniaeth natur. Ond nid ei urddas hanfodol sydd yma yn uniongyrchol, ond ei ddyrchafiad i'r ddeheulaw. "Wedi ei wneuthur"—wedi *dyfod. Yn well.* I sefyllfa uwch, trwy ei ddyrchafiad i ddeheulaw y Mawredd. *O hyny.* Eglurir beth yw "hyny" yn y frawddeg nesaf. *O gymaint ag yr etifeddodd efe enw mwy rhagorol na hwynt-hwy.* Yr "o gymaint" yw mesur yr "o hyny." Ystyr yr "etifeddu" yma ydyw "cael i'w ran" —yn yr Ysgrythyr, fel y gwelir oddiwrth y dyfyniadau sydd yn canlyn o'r Hen Destament. Beth oedd yr "enw mwy rhagorol" na'r angylion a etifeddodd Efe fel hyn? Y mae yr adnodau dylynol, dybygem, yn profi yn amlwg mai yr enw *Mab* ydyw. Y mae yma ddau beth i'w cysylltu heb eu cymysgu—ei fabolaeth a'i ddyrchafiad. Yr oedd ei ddyrchafiad yn cyfateb i'w enw. Dyna yr ystyr a rydd Dr. Thomas. Tebyg yw golygiad Principal Edwards—y dyrchafiad wedi ei godi i urddas cyfatebol i'r enw Mab. Yr un o ran sylwedd yw esboniad Dr. Owen:—Ei *fod* yn Fab yw sail ei *alw* yn Fab; a'i weinyddiad o'i swydd oedd yr achlysur iddo gael ei *amlygu fel* Mab; "fe'i *heglurwyd* yn Fab Duw mewn gallu yn ol Ysbryd sancteiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw," Rhuf. i. 4—yr adgyfodiad fel dechreuad y gogoneddiad.

Adn. 5: "*Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais di.* Dyfyniad o'r ail Salm. Diau fod iddi achlysur hanesyddol. Dengys Ebrard gyda helaethrwydd a manylder mawr mai breniniaeth Dafydd yw y testyn, a Solomon yn y dyfodol, ac yn cyrhaedd ei hystyr uchaf yn y Messïah. Ai at y tragywyddol genedliad y cyfeirir yma, ynte at ryw act allanol o eiddo Duw tuag at ei Fab—rhyw achlysur pan y tystiolaethwyd am dano neu yr eglurwyd ef yn Fab Duw? Y mae hwn yn gwestiwn anhawdd, ac wedi rhanu yr esbonwyr er yn foreu. Y golygiad blaenaf yw yr eiddo Awstin a llïaws o'r tadau a'r esbonwyr boreuaf. Wrth "heddyw" deallent y presennol tragywyddol, ac wrth y "cenedlu" y tragywyddol genedliad. Nid hawdd ar y cyntaf yw ymadael â'r hen esboniad hwn. Ond wrth ystyried, ymddengys i ni fod rhesymau trymion yn erbyn y golygiad. 1. Y mae rhoddi y syniad yna i eiriau y Salmydd yn *anachronism*—yn anghyson â'r *amser* y llefarwyd hwynt, ac â graddau goleuni y Dadguddiad ar y pryd. Naturiol iawn yw i ni roddi ystyr i eiriau y Bibl o'n safle ni, yn lle o safle yr ysgrifenwyr sanctaidd. Nid oedd athrawiaeth y Drindod wedi ei dadguddio y pryd hwnw, na phrin wedi ei hawgrymu. 2. Nid yw y gair a gyfieithir "heddyw" yn y Salm byth yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau

ond am ran neillduol o amser, un diwrnod neu fwy. 3. Y mae rhoddi yr ystyr o dragywyddol genedliad i'r geiriau yn yr ail Salm yn ymddangos yn ddiberthynas â'r hyn sydd o'u blaen ac ar eu hol. O'u blaen y mae "Minnau a osodais fy Mrenin ar Sïon, fy mynydd sanctaidd;" ac ar eu hol, "Gofyn i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti." Ymddengys y buasai dyfod â'r pwnc o ddirgelwch yr hanfod ddwyfol i mewn yn nghanol ymadroddion fel hyn yn beth na buasai un cyfrif i'w roddi am dano. Nid am yr *hanfod* dŵwyfol y sonia y Salmydd, ond am swydd, gosodiad, awdurdod freninol —yr eiddo Dafydd i ddechreu, ond Dafydd fel cysgod o'r Messïah. 4. Buasai cyfeirio at y dirgelwch dwfn a elwir yn dragywyddol genedliad allan o gylch ymdriniaeth yr Apostol yn y lle hwn. Son y mae am *ddyrchafiad y* Mab fel prawf o'i uwchafiaeth ar yr angylion. 5. Nid am y Mab fel Person dwyfol y sonia yr Apostol yma, ond am dano fel *Duw-ddyn.* Duw sydd yn y Salm, dybygid, yn yr ystyr gyntaf, yn cyfarch Dafydd fel ei Fab, wedi ei "genedlu" ganddo (yn ol dulliaith Hebreig am arddangos, profi, neu ddwyn tystiolaeth i'r peth) trwy ei gyfodi ef, a'i sefydlu yn ei freniniaeth. Felly y mae y geiriau yn y Salm yn gyson â'r hyn sydd o'u blaen ac ar eu hol. Ac y maent hefyd wrth eu cymhwyso at Grist yn eu hystyr uwchaf yn ymasio yn naturiol âg ymresymiad yr Apostol.

Yn ol y golygiad a amddiffynir, ystyr y "cenedlu" yma yw—egluro, dangos ar adeg neillduol, trwy ryw weithred gyhoeddus a difrifol, fod Iesu Grist yn Fab Duw; yn unol â'r geiriau yn Rhuf. i. 4: "Ac a *eglurwyd* yn Fab Duw mewn gallu, yn ol ysbryd sanctеiddiad, trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw." Y ferf am y peth, yn ol dulliaith Hebreig, yn golygu ar y pryd nid y peth ei hun, ond rhyw ddadganiad neu gyhoeddiad neillduol o'r peth. Pa "heddyw" gan hyny oedd hwn? Dydd ei enedigaeth, medd rhai, Luc i. 35; dydd ei fedydd, medd eraill, Mat. iii. 17; dydd ei adgyfodiad, medd eraill, Rhuf. i. 4; dydd ei esgyniad, medd eraill, ar sail y geiriau dan sylw. Y maent oll yn gyson â'u gilydd fel rhanau o un gwirionedd, yr adgyfodiad, fe allai, y mwyaf arbenig o honynt; megys y cymhwysir geiriau y Salm ato gan yr Apostol Paul yn benodol yn Act xiii. 32, 33. Y mae Dr. Owen yn cysylltu y tragywyddol genedliad âg adgyfodiad Crist yn y lle hwn trwy ddyweyd "nad yw tragywyddol genedliad Crist, ar yr hwn y mae ei fabolaeth (yr enw a'r peth) yn dibynu, i'w gymeryd ond yn unig yn fynegiadol *(declaratively);* a'r mynegiad hwnw wedi ei wneyd yn ei adgyfodiad a'r dyrchafiad a ganlynodd hyny uwchlaw ac ar bob peth.

A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab? Engraifft arall o'r un peth. Prophwydoliaeth Nathan wrth Dafydd a ddyfynir yma (yn ol Cyfieithiad y Deg a Thriugain), 2 Sam. vii. 14 neu 1 Chron. xvii. 13. Am Solomon y lleferir yn uniongyrchol; ond trwyddo ef yn ddiau, yn unol â nodwedd gysgodol yr oruchwyliaeth a breniniaeth Dafydd yn arbenig, am "un mwy na Solomon." Prophwydoliaeth Nathan, gweddi Dafydd ynglŷn â hi, a'r ail Salm, medd un, yw hedyn yr holl brophwydoliaeth Fessianaidd.

Adn. 6: *A thrachefn, pan yw yn dwyn y Cyntafanedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef.* Neu, yn fwy cywir, "A phan drachefn y dyg." Ond nid yr ystyr yw "dwyn drachefn," neu yr ail waith. Nid at yr ail ddyfodiad y cyfeirir, fel yr esbonia rhai, ac yn eu plith Principal Edwards yn yr *Expositor's Bible.* Ond y mae efe yn ddigon gwrol a doeth i newid ei farn pan wedi cael goleuni newydd. Ac felly yn yr Esboniad Cymreig dywed fod y cyfeiriad at ei ddyfodiad yn y cnawd, ac na sonir mewn un man am yr ail ddyfodiad fel gwaith y Tad yn dwyn y Cyntafanedig i'r byd. Cydolygwn yn hollol â Dr. Thomas yn mhlaid yr esboniad hwn; y mae ei resymau yn erbyn y golygiad arall, i'n tyb ni, yn derfynol. Dealla eraill ef am ei adgyfodiad oddiwrth y meirw. Nis gallwn weled sail ddigonol i'r golygiad hwn. Ystyr y "trachefn" yma, y mae yn amlwg, yw yr un ag yn yr adnod flaenorol—*eto, dyma engraifft arall.* Cyflwyniad etifedd y brenin i'r deiliaid.—(Dr. Edwards).

Y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angylion Duw ef. Ymha le y dywedwyd hyn? Yn Deut. xxxii. 43, yn ol rhai esbonwyr. Y mae geiriau cyffelyb mewn rhai argraffiadau o Gyfieithiad y Deg a Thriugain, yr hwn a ddefnyddid gan awdwr yr Epistol. Ond nid ydynt yn y testyn gwreiddiol o'r Hebraeg sydd genym ni yn awr. Yr un pryd, tybia rhai eu bod yn y testyn Hebraeg pan wnaed cyfieithiad y Deg a Thriugain, a'u bod wedi hyny rywfodd wedi colli o hono. Gwelwn fod Dr. Thomas yn dyfod i'r casgliad nad oedd y geiriau yn y testyn Hebraeg gwreiddiol, nac ychwaith yn nhestyn gwreiddiol y Deg a Thriugain. Pe caniateid mai hwn oedd y dyfyniad a wneid gan yr awdwr, o'r copi oedd ganddo ef o Gyfieithiad y Deg a Thriugain, y mae yr anhawsder arall yn codi—nas gellir eu cymhwyso at y Mab o gwbl, yn

ol y geiriau a'u cysylltiadau yn Deut. xxxii. 43.

Tueddir ni i'r farn mai nid oddiyno y gwneir y dyfyniad, ond o Salm. xcvii. 7. Ceir yno yn ol yr Hebraeg a'r cyfieithiad Cymreig—"Addolwch ef, yr holl ddduwiau;" ond yn ol y Deg a Thriugain, "Addolwch ef, ei holl angylion." Ceir gweled yn Esboniad llawn a rhagorol Dr. Thomas y gwrthddadleuon yn erbyn y dybiaeth hon, a rhaid addef, fel y sylwa efe, eu bod yn gryfion. Ond nis gallwn ni lai na theimlo fod yr atebion iddynt, y rhai hefyd a roddir i lawr ganddo ef, yn foddhâol. Nid ydym yn meddwl fod yn rhaid i ni dderbyn y casgliad ag y mae Dr. Thomas yn ei ffurfio, fod y geiriau wedi eu dyfynu o ryw ran o'r Hen Destament sydd wedi llithro allan o'r testyn, neu eu bod yn brophwydoliaeth am y Messïah yr hon oedd yn anysgrifenedig ac a drosglwyddid yn unig ar lafar. Credwn yn hytrach gyda Dr. Owen mai Salm Fessïanaidd yw y Salm hon, ac y gelwir ar yr angylion i addoli ac i lawenychu yn y rhagolwg ar deyrnasiad y Messïah. Rhydd efe hefyd ystyr eang i'r ymadrodd "dwyn i'r byd" neu "i blith dynion," fel yn golygu nid un weithred ond cyfres o weithredoedd, o'r ymgnawdoliad a'r bedydd, ymlaen i'w farwolaeth a'i adgyfodiad. Dyfodiad y Messïah, a sefydliad ei deyrnas ymhlith dynion.

SABBOTH, MAI 11EG. Heb. i. 7—9.

ADN. 7: *Ac am yr angylion y mae yn dywedyd, Yr hwn sydd yn gwneuthur ei angylion yn ysbrydion, a'i weinidogion yn fflam dân.* Dyfyniad o gyfieithiad y Deg a Thriugain o Salm civ. 4. Y mae y gair am "ysbrydion" yn yr Hebraeg a'r Groeg yn arwyddo "gwyntoedd" yn gystal ag ysbrydion. Ac y mae y "fflam dân" yn niwedd yr adnod yn ffafr cyfieithiad y gair yn y lle hwn yn "wyntoedd. 'Y mae yn creu,' neu yn hytrach fe allai yn defnyddio, 'ei angylion yn genadon cyflym, nerthol i gyflawni ei negesau, fel y gwyntoedd a'r fflamau tân'—elfenau cryfaf natur. Gwelir uwchafiaeth y Mab yn yr adnod nesaf.

ADN. 8: *Ond wrth y Mab, Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd: teyrnwïalen uniondeb yw teyrnwïalen dy deyrnas di. Wrth,* neu *am,* gyda golwg ar y Mab, fel yn adn. 7; yr un gair sydd yn y ddau le. Dyfyniad o Salm xiv. 6. Tra nad yw yr angylion ond gweision, fel y mae elfenau natur, y mae y Mab yn frenin, ïe, yn *Dduw.* Duw Dad yn cyfarch Duw y Mab, yn ei alw yn *Dduw,* ac yn ei gydnabod yn frenin. "Gwïalen dy freniniaeth di yw gwïalen uniondeb." Lle bynag y mae uniondeb mewn llywodraeth, llywodraeth y Mab sydd yno.

ADN. 9: *Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd; am hyny y'th eneiniodd Duw, sef dy Dduw di, âg olew gorfoledd tu hwnt i'th gyfeillion.* Y mae breniniaeth y Mab yn seiliedig ar gymhwysder tragywyddol ei Berson. Rhaid i osodiad fod wedi ei sylfaenu ar gymhwysder mewn pethau ysbrydol. Nid yn unig y mae y Person hwn yn ddigon mawr i lanw y swydd, ond cafodd y swydd ei hunan ei bôd yn y Person—yn ei gymhwysder hanfodol. Gellir dyweyd fod yr "am hyny" nid yn unig yn rheswm am fod y Person hwn yn y swydd, ond hefyd yn rheswm am y swydd ei hunan. Dyma beth neillduol i diriogaeth y dwyfol. Nid oes cyfatebiaeth iddo ymhlith dynion. "Cyfeillion."="y rhai sydd yn gyfranog â thi." Yr angylion, medd rhai; y credinwyr, medd eraill; breninoedd, medd eraill, y rhai nad ydynt ond rhaglawiaid o dano ef, a'r holl ddaioni, neu yr "uniondeb" sydd yn eu llywodraeth, yn ffrwyth ac yn amlygiad o freniniaeth y Mab. "Olew gorfoledd," holl lawenydd Crist fel Cyfryngwr.

SABBOTH, MAI 18FED. HEB. i. 10—12.

ADN 10: *Ac, Tydi yn y dechreuad, Arglwydd, a sylfaenaist y ddaear; a gwaith dy ddwylaw di yw y nefoedd. Ac,* fel y "trachefn" yn yr adnodau blaenorol. Dyma esiampl eto o'r modd y mae yr Ysgrythyrau yn dysgu uwchafiaeth y Mab: megys ar yr angylion, felly ar y greadigaeth. Dyfyniad o Salm cii. 25, &c.

ADN. 11: *Hwynt-hwy a ddarfyddant; ond tydi sydd yn parhau; a hwynt-hwy oll fel dilledyn a heneiddiant;*

ADN. 12: *Ac megys gwisg y plygi di hwynt, a hwy a newidir: ond tydi yr un ydwyt, a'th flynyddoedd ni phallant.* Nid yw y greadigaeth ond fel "gwisg" neu fantell i'r Mab. Ei "phlygu" yw ei diosg a'i gosod o'r neilldu. Dengys berchenogaeth a llywodraeth hollol. Wedi i'r wisg "heneiddio," "plygir" hi. Gyda golwg ar ddyn, y mae y gwisgwr yn heneiddio yn gystal a'r wisg. Ond nid felly yma. Y Tragywyddol yw y Mab yn gwisgo yr amserol. Y mae cyn y greadigaeth, ac felly bydd ar ei hol. Y mae uwchlaw deddfau amser ac adfeiliad.

SABBOTH, MAI 25AIN. HEB. i. 13, 14.

ADN. 13: *Ond wrth ba un o'r angylion y dywedodd efe un amser, Eistedd ar fy neheulaw, hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainc i'th draed?* Paham y mae yr Apostol

yn dychwelyd eto at yr angylion, ar ol gadael yr angylion a myned at y greadigaeth? Gallai na adawodd yr angylion o gwbl; a bod y tair adnod blaenorol am y greadigaeth yn atebiad dystaw i'r athrawiaeth Gnosticaidd mai trwy yr angylion y creodd Duw bobpeth. Dangosir yn yr adnod hon fod y Mab yn uwch na'r angylion, nid yn unig am ei fod yn etifedd ac yn frenin, ond am fod y Tad wedi ei osod yn yr anrhydedd a'r awdurdod uwchaf, i weithio allan amcanion ei freniniaeth, mewn goruchafiaeth hollol a sicr ar holl elynion ei lywodraeth. Dyma ei lywodraeth gyfryngol mewn modd arbenig. Dangosir yn yr adnod nesaf beth yw lle yr angylion yn y llywodraeth hon.

Adn. 14: *Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?* Gweision yw yr angylion yn y llywodraeth gyfryngol. Gwasanaethant ar y deiliaid teyrngarol (yn gyferbyniol i'r gelynion, adn. 13). Gwasanaeth i'r Mab, i'r Brenin, yw y gwasanaeth hwn ar ran neu "er mwyn" deiliaid ei deyrnas ef.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. John Owen, *Cenadwr.*

VIII.

Yr oedd gan y Parch. E. Jones fantais neillduol er bod yn genadwr ymysg y morwyr yn Dublin, gan mai gwneuthurwr hwyliau ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd trwy hyny wedi dyfod yn gydnabyddus â llïaws mawr o forwyr cyn dyfod yma, a gallai adnabod llongau pob gwlad wrth eu *rigs*, ac felly ni byddai anhawsder iddo adnabod yr holl longau Cymreig o'r pellder. Ymwelai â hwynt oll, ac yr ydoedd yn gymeradwy iawn ymysg y morwyr, gan ei fod yn ŵr serchog a hynaws, ac yn grefyddol iawn; ac yr ydoedd yn dra gofalus hefyd am yr holl aelodau a'r gwrandawyr cartrefol.

Yn y flwyddyn 1865, yn fuan wedi dyfodiad Mr. Jones yma, cawn fod Mr. R. F. Roberts y cyfeiriwyd ato yn barod, yn ymadael, wedi bod yn gwasanaethu yr Achos yn ffyddlawn am flynyddoedd fel arweinydd y canu ac ysgrifenydd yr Eglwys. Ar ei ymadawiad y mae y ddwy swydd yma yn disgyn ar ysgwyddau un Mr. Griffith Jones, brodor o'r Bontnewydd, Sir Gaernarfon, yr hwn a'u cyflawnodd yn ffyddlon hyd y flwyddyn 1876, pryd y mae ei iechyd yn adfeilio, ac yntau felly yn methu dilyn gyda chysondeb; ac yn y flwyddyn 1880, cawn ef yn gadael i Gymru, nid i fyw, fel y tybiai, ond i farw. Felly, yn y flwyddyn 1876, y mae y swydd o ysgrifenydd yr Eglwys yn disgyn ar Mr. D. W. Davies, yr hwn sydd yn ei chyflawni hyd heddyw, a hyny yn y modd mwyaf destlus, cywir a gofalus. Y mae ef wedi ei fagu yn yr Eglwys yn Dublin, ac yn unig fab i'n parchus ddiacon; ac wedi glynu yn dŷn wrth yr Achos Cymreig er pob temtasiwn i gefnu, ac y mae yn teimlo yn zelog dros yr Achos.

Oddeutu yr un adeg, sef 1876, y mae y gorchwyl o arwain y canu yn disgyn ar un Mr. H. O. Jones, Bonthaiarn, Llandinorwic, Sir Gaernarfon; ond y mae ef yn gadael yr Eglwys yn y flwyddyn 1880, ac y mae arweiniad y canu yn disgyn ar Mr. W. T. Edwards, brodor o Rhoscolyn, Môn. Y mae ef yn parhau i gyflawni y gwaith hyd heddyw, ac yn fedrus yn ei orchwyl, ac yn dra ffyddlawn yn dilyn pob moddion o ras.

Yn mis Ebrill, 1869, cawn y Parch. E. Jones yn ysgrifenu am yr Achos i'r Drysorfa fel y canlyn:—"Ychydig mewn cymhariaeth i drefydd Lloegr yw nifer Cymry Dublin; nid yw y teuluoedd Cymreig yn rhifo ond tua 14. Y mae nifer o wŷr ieuainc yn gwasanaethu mewn lleoedd parchus, llïaws mewn ysgolion, ac yn eu plith bedwar o bregethwyr ieuainc." Y gwŷr hyn oeddynt y diweddar Barch. W. Gwyddno Roberts, Llanystymdwy; y Parchn. W. Williams, Talsarn; E. Roberts, Llanfairfechan; a Thomas Hughes, Tabernacl. Yr oedd eraill yn parotoi eu hunain i fod yn feddygon, a'r gweddill i gyfarfod â gwahanol amgylchiadau bywyd; ynghyd a llïaws o ferched ieuainc mewn gwasanaeth. O'r dosbarthiadau a nodwyd y mae o 70 i 80 yn arfer gwrando yr efengyl yn y Capel Cymraeg, ac y mae nifer yr aelodau eglwysig dros 50. Y mae yma ffyddlondeb mawr, a gofal calon yn cael ei ddangos at achos crefydd, er nad ydym heb deimlo i raddau oddiwrth y claiarineb a'r cysgadrwydd y cwynir cymaint o'u herwydd y dyddiau hyn. Ar y cyfan y mae yr Achos mawr yn lled siriol yn ein plith. Y mae ein cyfeillion, y rhai sydd wedi eu dwyn i fyny gyda'r gwahanol enwadau crefyddol yn Nghymru, wedi dyfod yma yn dangos

pob ffyddlondeb, cydweithrediad a brawdgarwch. Yr ydym yn un â'n gilydd, yn gymaint felly fel y clywais un morwr parchus o Sir Gaernarfon yn dyweyd, 'Capel Cymraeg Dublin yw y lle tebycaf i'r nefoedd o un man a welais erioed,' a'i reswm dros y dywediad oedd 'fod pob enwad yn un â'u gilydd yno.' Fel hyn y mae yn llawen genym gael gwneyd yn hysbys i'n cyfeillion yn Nghymru, fod y sefydliad cenadol yn Dublin âg arwyddion amlwg o amddiffyniad y Nef arno; a chredwn ei fod wedi bod yn foddion i gadw llawer o ieuenctyd Cymru rhag myned ar gyfeiliorn. Peth arall sydd yn gysur mawr i ni, yw gweled y morwyr yn cyrchu atom; yr ydym yn myned yn fwy hoff o'r morwyr yn barhaus. Dosbarth o ddynion serchog, tyner, a rhwyddgalon yw y morwyr, a dynion meddylgar a chrefyddol lawer o honynt. Bydd yn dda gan eu teuluoedd ddeall fod morwyr Cymru, ar y cyfan, yn ystod eu harosiad yma yn ymddwyn yn deilwng o'u gwlad a'u cenedl. Nid peth anghyffredin yw gweled 150 o forwyr Cymreig yn y capel ar nos Sabboth, a llawer o honynt ar adegau heb gael cyfle i wrando gair o efengyl er ys misoedd cyn dyfod yma. Y maent yn teimlo yn falch fod drws agored iddynt yn Dublin, a dangosant hyny trwy eu cyfraniadau siriol at ddwyn traul yr Achos yn ein plith."

Yn yr adroddiad cenadol am yr un flwyddyn cawn, "Y mae yr achos cref yddol yn ein mysg yma yn cyfleu esboniad ymarferol ar yr adnod, 'Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio,' trwy y ffaith fod y gynnulleidfa wedi newid (gyda rhai eithriadau) ddwy waith o leiaf yn ystod y pedair blynedd diweddaf. Y mae hyn yn gosod anhawsdra ar ein ffordd i ffurfio syniad cywir am lwyddiant nac aflwyddiant yr Achos mawr yn ein plith, ond yn dysgu gwers bwysig i ni fod yn ffyddlawn gyda dyledswyddau crefyddol, gan na wyddom 'pa un a ffyna ai hynyma ai hynacw.' Y mae yma lawer o ffyddlondeb yn cael ei ddangos gyda'r moddion, ac y mae arwyddion amlwg ar y rhai sydd ffyddlawn eu bod yn cael tâl gan yr Arglwydd; fod gweithio gyda chrefydd yn blesser iddynt. Y mae genym le i feddwl hefyd nad yw eu llafur yn gwbl ofer. Y mae ambell un o'r newydd yn troi eu hwyneb tua Sïon Duw, yn dymuno ymgyflwyno i'r Arglwydd, a gwneyd proffes gyhoeddus o Iesu Grist. Y mae y cynnulliadau yn cael eu cadw i fyny yn dda, ac yr ydym yn teimlo y byddai yn dda iawn i ni gael presennoldeb Duw yn fwy amlwg yn ein mysg; ac yr ydym yn benderfynol o lynu wrth orsedd gras, nes ei gael trwy ei Ysbryd i gysuro ei bobl yma, ac i argyhoeddi pechaduriaid a'u dychwelyd."

Cawn fod rhif y gwrandäwyr y flwyddyn hon yn 200; yr Ysgol Sabbothol, 20; cymunwyr, 40; yr hyn sydd lai o 10 na'r flwyddyn flaenorol. Cyfanswm y casgliadau yn £54 18s. Ar ddiwedd y flwyddyn hon, cawn gais yn cael ei anfon gan yr eglwys at Gyfarfod Misol Môn, ar fod i'r Parch. E. Jones gael pregethu yn Dublin ddau Sabboth o leiaf o bob mis yn lle un, ac yn mis Mai, 1870, cawn fod y cais yna yn cael ei ganiatâu.

Hwyrach mai yma y byddai goreu gwneyd y crybwylliad am yr hyn fuasem wedi ei wneyd yn ei le priodol pe buasai yr hysbysrwydd genym wrth law. Fel y crybwyllwyd yn barod, fod arolygiaeth yr achos i raddau pell yn perthyn i Gyfarfod Misol Môn. Yno y mae ac y bu Trysoryddion yr achos; ac fel y mae y darllenwyr yn cofio, Mr. John Roberts, *currier*, Caergybi, oedd y trysorydd ar y cychwyn, a mawr fu ei drafferth a'i ofal, yn neilduol felly gyda phwnc y ddyled. Bu y gŵr da hwn farw yn y flwyddyn 1856, wedi bod yn fawr ei ofal am yr achos yma am dros 18 mlynedd; a chawn mai ei fab, Mr. Richard Roberts, yr hwn yntau oedd ddiacon yn Nghaergybi, fu ei olynydd, a ffyddlawn a doeth y bu yntau yn ei oruchwyliaeth. Yn mis Tachwedd, 1870, cawn fod y gofal yn cael ei roddi ar Mr. Hugh G. Hughes, *druggist*, Caergybi, yr hwn eto sydd ddiacon yn y lle; ac efe sydd yn gofalu am yr achos hyd heddyw. Er fod dyddiau henaint a gwendid wedi ei ddal, y mae yn dra gofalus, ac yn cymeryd llawer o drafferth gyda'r achos bach yn Dublin, yn ccleddu serch mawr ato, ac yn teimlo yn llawen o allu dal gafael a chyflawni y rhan hon yn ngwinllan ei Arglwydd, pan, o herwydd gwendid, yn gorfod rhoddi heibio bethau eraill. Hyderwn y caiff nerth i ddal gafael yn y rhan hon am flynyddoedd lawer eto, cyn clywed ei Arglwydd yn dyweyd wrtho, "Da, was da a ffyddlawn." Yr ydym yn teimlo fod gwaith y brodyr hyn wedi bod yn fawr, yn fwy hwyrach nag y gellir ei egluro i rai heb wybod yr amgylchiadau. Y mae dau o honynt wedi myned at eu gwobr, a diau fod gwobr iddynt am gyflawni y rhan a wnaethant mewn cysylltiad â'r rhan hon o deyrnas y Gwaredwr.

Am yr achos yn Dublin, yn mis Mawrth, 1871, ysgrifena y Parch. Joseph Jones, Borth, fel hyn:—"Gwrandawyr yn preswylio yn sefydlog yn y lle, tua 80; cyfartaledd y morwyr, a chymeryd y naill Sabboth gyda'r llall, 60; ni bydd yma byth lai na 30 o forwyr, ac ar am-

bell Sabboth gwelir cynifer a 150; yn yr Ysgol Sabbothol, 25; cymunwyr, 49; y gwrandawyr a'r aelodau yn ffyddlawn yn ol eu gallu mewn dilyn y moddion."

Bu y Parch. E. Jones yma yn llafurio yn gyson a diwyd, ac yn myned yn fwy cymeradwy yn barhaus am 12 mlynedd, pryd y symudodd i Portdinorwic, lle y bu ei lafur yn gymeradwy iawn hyd ddydd ei farwolaeth. Clywsom iddo dderbyn llawer o sarhâd am amser maith wedi iddo ddyfod yma, pan y byddai yn myned o amgylch y Dociau i ymweled â'r morwyr. Byddai rhai o wehilion cymdeithas Wyddelig yn ei luchio â cheryg a phethau eraill. Ond nid ymrysonai, ond edrychai yn dawel a serchog arnynt; eithr rhyw foreu oer, pan yn myned ar un o'i ymweliadau, gwelai yr un a fyddai yn cymeryd y rhan fwyaf blaenllaw yn ei anmharchu â golwg tra anwydog arno. Aeth ato yn siriol gan roddi darn o arian yn ei law, gan ddywedyd wrtho am fyned at dân a cheisio boreubryd da. Diolchodd y Gwyddel yn gynhes am y caredigrwydd hwn, gan ddymuno iddo fendithion Mair a'r holl seintiau; a byth wedi y boreu hwn ni byddai neb yn trafaelu y ffordd hono ag yr arddangosid mwy o barch iddo. Gadawodd Dublin tua diwedd y flwyddyn 1877, ac y mae yn gadael yr achos mewn gwedd lewyrchus; yr eglwys, yn ol a allwn gael yn ol y llyfr, yn rhifo 56; cyfanswm y casgliadau yn £77 18s. 4¼c.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1878, yn olynydd i'r Parch. E. Jones, y mae y Parch. J. R. Jones yn dyfod yma o Penycaerau, Lleyn; ac y mae yr achos eto yn llwyddo, o herwydd cawn wrth edrych i'r llyfrau fod yr eglwys ar ddiwedd y flwyddyn yn rhifo 62; a chyfanswm y casgliadau yn £84 9s. 8c. Ar derfyn y flwyddyn ddilynol cawn yr eglwys yn rhifo 60, a chyfanswm y casgliadau yn £71 1s. 5½c.; a'r flwyddyn hon, oddeutu y diwedd, fe gafwyd *harmonium* at wasanaeth yr eglwys a'r gynnulleidfa. Fel y mae gwaethaf y modd, cymerodd rhywbeth le, can belled ag yr ydym yn deall, ynglŷn â dull ei dyfodiad i mewn, fu yn foddion i oeri cariad rhai. Yn fuan ar ol hyn y mae y cynhwrf gwleidyddol, yr hwn oedd yn "deyrnasiad dychryn," yn dechreu yn y wlad, canlyniad yr hwn fu y gyflafan erchyll yn Phœnix Park, y cyfeiriwyd ati eisoes. Ac y mae hyn yn effeithio yn niweidiol iawn ar yr achos Cymreig yn Dublin. Dyna fel yr ysgrifena y Parch. J. R. Jones i'r Adroddiad Cenadol am y flwyddyn 1881, a gallwn feddwl mai yn nechre Ionawr 1882 y mae yn gwneyd:—"Y mae effaith cynhwrf Gwyddelig y flwyddyn ddiweddaf wedi profi yn niweidiol i'r eglwys fechan yma. Parodd iselder masnachol oedd yn ganlyniad naturiol iddo i amryw deuluoedd ymadael o'r ddinas, y rhai a fu yn aelodau o'r eglwys hon am flynyddoedd, ynghyd a llawer o bobl ieuainc. Mae y gynnulleidfa yr parhâu yn debyg, a mwy o ffyddlondeb i ddyfod i'r moddion. Rhifai y rhai oedd yn bresennol y tri Sabboth cyntaf o'r flwyddyn hon 133, 169, 141; ystyriwn y rhif cyntaf yn ganolrif y gynnulleidfa trwy y flwyddyn. Morwyr yw mwyafrif mawr y gynnulleidfa, pa rai sydd yn aelodau a gwrandawyr gyda'r gwahanol enwadau yn Nghaergybi. . . . . Y mae nifer y llongau fydd yn talu ymweliad achlysurol â Dublin yn llawer llai nag y bu flynyddau yn ol. . . . . Y mae yr aelodau eglwysig yn hynod am eu ffyddlondeb; anaml y gwelir cyfarfod o ddechre y flwyddyn i'w diwedd heb eu presennoldeb ynddo. Pan ddygwydd hyny, mawr fydd yr holi beth allai yr achos fod; oblegid gŵyr pawb fod y rhwystr yn anorfod. A chyda phob parodrwydd y gwna pob un o honynt bob peth a allant er dwyn y gwaith ymlaen; pawb yn teimlo fod yn rhaid wrtho, a phâr hyn fwynhâd iddynt. Felly yr ydym oll yma yn cydymdrechu gyda'r achos. Rhif y cymunwyr ar ddiwedd 1881, oedd 49."

Y GALON YN CAEL EI DIFA GYDA'R TRYSOR.

"Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd."—MAT. VI. 21.

BETH yw grym y gair *Canys* yma? Nid yw ystyr y rheswm a chwanegir fel hyn mor amlwg ar y wyneb. Rhaid chwilio am dano am ei fod yn ddwfn, ac ar yr un pryd am ei fod yn syml. Ond unwaith y deallir ef, y mae mor gyflawn, mor gynnwysfawr, mor rymus ar y gydwybod, fel nad oes dim ychwaneg i'w ddyweyd, ond pob peth i'w wneuthur.

"Paham y dylem beidio trysori i ni ein hunain drysorau ar y ddaear?"

"Am mai yno y mae y gwyfyn, y rhwd a'r lleidr yn dyfod."

"Ac felly am y collem y trysorau hyny?"

"Ië; trwy y gwyfyn a'r rhwd a'r lleidr."

"A ydyw ein Harglwydd felly yn golygu mai y *rheswm* am beidio trysori y cyfryw drysorau ydyw eu natur gyfnewidiol a llygradwy?"

"Nac ydyw. Y mae yn chwanegu *Canys:* 'Canys lle y mae eich trysor yno y bydd eich calon hefyd.'"

"Wrth gwrs fe fydd y galon yn y lle y bydd y trysor; ond beth sydd a wnelo hyny â'r ymresymiad?"

"Hyn: y bydd i'r hyn fydd gyda'r trysor gyfranogi o dynged y trysor; y bydd i'r galon sydd yn trigo yn y trysor-dy lle y mae y gwyfyn a'r rhwd yn llygru, gael ei gosod yn agored i'r un anrhaith a'r trysor—y bydd iddi hithau gael ei rhydu a'i difa gan y gwyfyn. Llawer dyn, llawer merch, deg a blodeuog yr olwg arnynt, sydd yn myned oddiamgylch gyda chalon rydlyd yn cael ei bwyta gan wyfyn, y tu fewn i'r ffurf yna o nerth a phrydferthwch."

"Ond nid yw hyn ond ffugyr."

"Gwir: Ond a ydyw y sylwedd a olygir yn llai ynte yn fwy na'r ffugyr? Onid yw *y rhwd a'r gwyfyn* yn meddwl mwy nag afiechyd? Ac onid yw *y galon* yn meddwl mwy na'r galon? Onid yw yn meddwl calon ddyfnach, calon eich hunan chwi eich hun, nid yr eiddo eich corff? yr *hunan* hwnw sydd yn dyoddef, nid poen, ond trueni? yr hunan ag y mae nid cysur, na mwynhad, yn amcan ei fod, ond gwynfyd, ïe, y llawenydd uchaf? y galon, yr hon yw yr ystafell fwyaf mewnol o'r hon y tardd ffynnonell ddwyfol eich bôd? y galon ag y mae Duw yn edrych arni, er nad ydych chwi erioed wedi gwybod ei bod genych, ddim hyd yn nod pan y mae ei hing, o dan gnofeydd y gwyfyn a thân araf y rhwd, yn gyru poen mud i'r galon allanol hono sydd yn gyru y gwaed i'w redfa osodedig trwy eich corff? Os yw Duw yn gweled y galon hono wedi ei difa gan rwd gofalon, wedi ei rhidyllu i geuleoedd a chaenenau gan bryfaid uchelgais a thrachwant, yna y *mae* eich calon fel y mae Duw yn ei gweled, canys y mae Duw yn gweled pethau fél y maent. A rhyw ddiwrnod bydd raid i chwithau weled, ïe, a *theimlo* fod eich calon fel y mae Duw yn ei gweled; a gwybod mai y peth cancredig sydd genych o'ch mewn, yn ysglyfaeth i'r ffieiddiaf o glefydau, mai hwnw yn wir yw canolbwynt eich bôd, eich calon wirioneddol.

Ac nid i gybyddion yn unig y mae y wers hon, ond i bawb sydd mewn unrhyw ffordd yn addoli y pethau sydd dros amser; y rhai sydd yn ceisio gogoniant dynion yn fwy na gogoniant Duw; y rhai a fynent wneyd arddangosiad yn y byd trwy gyfoeth, trwy chwaeth, trwy ddeall, trwy allu, trwy gelfyddyd, trwy athrylith o unrhyw fath, ac felly a fynent gasglu clodydd i'w trysori mewn ystorfa ddaearol.

Ac nid i'r rhai hyn yn unig, ond yn sicr i'r rhai hyny yn ogystal y rhai y mae eu pleserau yn amlwg o natur fwy diflanedig etc, megys pleserau y synwyrau ymhob cyfeiriad—pa un bynag ai mwynhâd cyfreithlon neu anghyfreithlon, os bydd llawenydd ein bôd wedi ei ganolbwyntio ynddynt—i'r rhai hyny hefyd y mae y geiriau hyn yn dwyn rhybudd dychrynllyd. Canys nid yn hyn y mae y niwed—fod y pleserau yma yn gau fel twyll dewiniaeth, canys nid felly y maent: y maent yn bleserau. Ac nid ychwaith yn hyn—eu bod yn myned heibio, ac yn gadael siomedigaeth chwerw ar eu hol; y maent o gymaint a hyny yn well. Ond yn hyn y mae y niwed—fod yr anfarwol, yr anfeidrol, a grëwyd ar ddelw y tragywyddol Dduw, fod hwnw yn cael ei roddi i fyw yn yr un tŷ â'r hyn sydd yn diflanu ac yn llygru; a'i fod yn glynu wrthynt fel ei ddaioni—yn glynu wrthynt nes y mae yn cael ei wenwyno a'i dreiddio drwyddo gan y clefydau sydd yn perthyn yn briodol iddynt hwy, y rhai ydynt yn cymeryd ffurf ynddo ef fwy ofnadwy o gymaint ag y mae o rywogaeth uwchlaw iddynt, gan fod yr hyn nad yw ond adfeiliad yn y naill yn myned yn aflendid moesol yn y llall, a'r hyn sydd yn cymhwyso y naill i'r domen yn bwrw y llall i'r tywyllwch eithaf; yn ymlusgo, er mwyn cyd-gyfranogi â hwynt, i dyrchu yn y ddaear, lle y mae ei adenydd sydd yn dechreu tyfu yn gwywo ac yn oeri ac yn madru ymaith oddiar ei ysgwyddau, yn lle tramwy y gwastadeddau agored, a'r uchelfanau, gan ledu ei adenydd ieuainc i'r haul a'r awyr, a'u cryfhau mewn ehediadau pellach a phellach, nes o'r diwedd ddyfod yn ddigon cryf i ddwyn yr hyn a aned o Dduw i bresennoldeb ei Dad yn y Nefoedd. Yn hyn y mae y niwed."

GEORGE MACDONALD, LL.D.

Barddoniaeth.

YMSON.

Pa le byddaf farw? Pwy fydd o fy amgylch
Yn sychu 'r chwys oeraidd oddiar welw rudd?
Pa un ai cyfeillion, a hoffus berth'nasau,
Ai ynte estroniaid dideimlad, pwy fydd?
Pa un ai rhwng muriau fy nghartref fy hunan
Ai ynte mewn anghof ymhell o'm hoff wlad,
Pa le? O fy Ngheidwad, daw 'r adeg yn fuan,
Dy gwmni 'n nhir estron dry angeu 'n fwyn-hâd.

Pa fodd byddaf farw? ai trwy ingol boenau,
Yn dryllio 'n ddiarbed y babell wan frau,
Ai ynte 'r afiechyd siomedig a'm denai
O fro y gofidiau i wynfyd di-drai?

A dorir fy einioes o ganol nwyf iechyd
Trwy angeu disyfyd i'r gwely oer pridd?
Pwy etyb y cwestiwn? A raid gadael bywyd?
A raid i mi farw? *Rhaid marw* ryw ddydd!

Pa bryd byddaf farw? a gaf fy nghoroni
A chlaerwyn benwyni cyn 'mado i'r bedd?
A fydd y pren almon yn teg berarogli,
A siriol dawelwch yn harddu fy ngwedd?
Ai ynte fel blod'yn cyn gorphen ymagor
Heb amnaid na rhybudd y torir fi i lawr?
Beth waeth am yr amser? cael meddu y trysor
Sydd bwysig trwy 'mywyd, bob mynyd, bob awr

Dystawa, fy enaid, i maes â'th bryderau,
Ymorphwys mewn cariad ar Geidwad sydd fyw,
Ymbwylla 'n ystyriol, rho heibio dy ofnau,
Sych ymaith dy ddagrau, gobeithia yn Nuw;
Dy Dduw, 'r hwn a'th alwodd i ysgol bro amser,
I'th feithrin a'th ddysgu i artref y nef,
Fel haul gyda 'r gwlithyn a'th symud ar fyrder:
Pa sut, lle, ac amser, gad hyn iddo Ef!

H. E. Williams.

94, *Anfield Road, Liverpool.*

CYNGHANEDDION CYFARFOD SEFYDLIAD ANTHROPOS YN BEULAH, CAERNARFON, RHAGFYR 27, 1890.

Un *weddus* yr alwad iddo,—redai
O unfrydedd ato;
Ond, cofiwch, sylwch mai Siloh
Yn *weddus* iawn a'i rhoddes o.

Mae degwm eich rhwymedigaeth—i ni
Yn swm o nod helaeth;
Ond, o naws hael, gadarn swm,
Y degwm i'ch cym'dogaeth.

Anwylir yn Hen Walia—weinidog
O'r nodwedd onesta';
Galwyd doeth fugail da,—gan ddoethwyr,
Er gwylio ysbeilwyr eglwys *Beulah*.

Gwelir ei ffon fugeiliol,—yn ei law,
A chwyd lef urddasol!
A rhwydd iawn y rhydd ei ôl,
Yn bybyr ar ei bobol.

Galanas yn mro 'r gelynion,—deifl ef
A diflosg ergydion;
I fyny 'r ä dan faner Ion,—a llais Tad
A ŷr yn alwad ar annuwiolion.

Yr achos yn ngwres ei wreichion—ysol,
Gynhesir i'w galon;
Yn nŵr iachus ei ymdrechion,
Y gloewa saint yr eglwys hon.

Pregethwr pur a goetha—yr eglwys
Yn nhreigliad ei yrfa;
Llenor doeth, cynlluniwr da,
Cabolwr llanciau *Beulah*.

Y gwael, eiddil, ymgeledda,—y llesg,
A'r llwfr galonoga;
Yr anwyl ŵr hwn leihâ
Helbulon teulu *Beulah*.

Bendith yr Arglwydd lwydda—eŕ uniad
A'i anwyl Hephsibah;
Doed iddo hedd dedwydd ha',
Heb elyn yn nhir *Beulah*.

R. R. Morris.

Caernarfon.

ODLAU HIRAETH AR OL Y DIWEDDAR BARCH. EVAN PETERS, BALA.

Peters ffyddlawn gynhes-galon,
Fforddwr dynion at eu Duw,
Cenad hedd, a moddyg mewnol,
Balm i'r bobol er cael byw:
Cafodd Ysgol Sabboth ergyd
Dost dy golli; nid tyst gau
Fuost ti, dy ymadawiad
Bery 'r rhwygiad heb ei wau.

Ti ragoraist fel arholwr,
Peraidd swyn pereiddiol sant;
Nefol odlau oedd deg adlais
Pan yn holi 'n "Sasiwn Plant:"
"Pwy a edwyn yn yr adnod?
Pwy sy 'n gwybod? Dowch, os oes?
Pwy o'n tu sy 'n meiddio maddeu?
Pwy fu 'n dyoddef ar y groes?"

Yna bonllef dreiddiai Benllyn,
Mil fel un â'u mawl i'r Oen,
Iawn atebiad, ffrwyth ymchwiliad,
"Iesu pur fu 'n dyoddef poen."
Megys gwladwr a phregothwr,
Bugail dwys ysbrydol daith,
'D oes yn bod, neb ydw i 'n 'nabod,
Fel ti 'n gwybod am y gwaith.

Cŷn o aur mewn cerfwaith arian,
Perlau purlan oedd dy ddawn;
A oes modd i mi eu meddu?
Melus win o rin yr lawn;
Lloni 'r afiach wna 'th gyfeillach
Hedd gyfrinach oedd dy gôl;
'Th golli wna im' calon dori,
Pryd mewn difri' doi di 'n ol?

'R wy 'n adgofio cwrdd y Bala
Pan yn holi am gewri 'r ffydd,—
Jacob Joseph, Samson, Jephthah,
Moses, Noah, Dura a'i dydd;
'N awr mae 'r tafod wedi tewi,
Cilio wnaeth i wlad y sant,
'N mynwes Iesu mae 'n gorphwyso,
Wedi peidio holi 'r plant.

Chwiliai 'n fwyn y gŵyn ni wyddai,
Codai lu i gadarn làn;
Gyda 'i air rho'i rodd goronog
I'r anghenog yn y fan;
Fe a wyddai gŵyn y weddw,
Ddiwr nod marw ei phriod mâd,
A rho'i gynghor i'r amddifaid
Call—o'u tu 'r ol colli eu tad.

Cefaist ddwyn mewn mwyn amynedd
Oes o rinwedd ar ei hyd,
Gardd o lysiau oedd dy rasau,
Gemawg berlau yn y byd:
Cydymdeimlad brawdol gariad,
Fyddai 'n wastad ar ei wedd;
'R wyt yn galw at haeddiant heddyw,
Er dy farw, o dy fedd.

Gwelwyd nod y duwiol deulu
Yn ei ymarweddiad e',
Egwyddorion hedd-gyfammod
Oedd ei lyw er cadw 'i le;
Pan oedd cyfaill arno 'n cefnu,
Yntau mewn angeuol hin,
Angel Duw weinyddai 'n dawel,
Gyda 'i gostrel wrth ei fin.

Talybont, a'r Cwmtirmynach,
Capel Celyn a Phantglas,
Ymfyddinwch i feddiannu
Nodau ffydd yr ufudd was;
O! mor anwyl yw dy enw,
Darfu 'th farw 'n gwneyd yn drist,
Tebyg, Peters, fu dy rodiad
I gymeriad Iesu Grist.

J. Hughes.

Celyn, Bala.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Liverpool, a gynnaliwyd yn Chatham Street, Mawrth 17eg, yr oedd y Parch. Principal Edwards, D.D., yn bresennol, ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol, a chafwyd annogaethau gwresog ganddo i fwy o zel a ffyddlondeb gyda'r symudiad daionus hwn. Cyflwynwyd diolchgarwch cynhes y cyfarfod iddo am ei ymweliad a'i anerchiad rhagorol. Traddododd Principal Edwards hefyd anerchiad gwresog a galluog ar yr Ysgol Sabbothol, mewn cyfarfod cyhoeddus yr un noswaith. Amlygwyd cydymdeimlad cryf â'r dyoddefwyr trwy y damweiniau alaethus yn y gweithfëydd glô yn y Deheudir, ac annogwyd yr holl gynnulleidfäoedd i wneyd casgliad i'w cynorthwyo. Hysbyswyd fod y Parch. D. Harries, D.D., Chicago, yn bwriadu talu ymweliad â'r wlad hon yn ystod yr haf, a phenderfynwyd ei wahodd i bregethu yn Nghymanfa y Sulgwyn.

Yn Nghyfarfod Misol Manchester, a gynnaliwyd Mawrth 25ain, derbyniwyd gyda llawenydd yr hysbysiad fod y Parch. W. James, B.A., yn gwella ac yn dełyg o ddychwelyd yn fuan.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Heol-y-dwr, Mawrth 26 a'r 27ain, cafwyd anerchiadau rhagorol gan y Parch. T. Charles Edwards, D.D., Aberystwyth, ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol a Jubili y Genadaeth Dramor. Talwyd diolchgarwch gwresog y Cyfarfod i Dr. Edwards, a datganwyd y dymuniadau goreu am yr amddiffyn dwyfol drosto ef a'i briod ar eu mordaith i'r America, am i Dduw pob gras ei nerthu a bendithio ei weinidogaeth yn y wlad hono, ac ar iddynt gael dychwelyd yn ol wedi derbyn adnewyddiad mewn corff ac ysbryd. Rhoddwyd derbyniad croesawgar i'r Parch. John Foulkes, Capel Saesoneg, Llanelli, a dadganwyd dymuniadau am ei lwyddiant. Pasiwyd i anfon llythyr o gydymdeimlad â Mr. Alderman James, Llanymddyfri, yn ei gystudd, gan ddymuno iddo adferiad buan.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Hill's Lane, Amwythig, Mawrth 28ain, cadarnhäwyd galwad y Parch. D. Pierce, i fod yn fugail ar eglwys Salem. Cafwyd anerchiad cynhes gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., Llandinam, ar ran Jubili y Genadaeth Dramor, am yr hwn y cyflwynwyd diolchgarwch y cyfarfod, a phenderfynwyd gwneyd ymdrech arbenig y flwyddyn hon i chwyddo casgliad y flwyddyn, ac i chwanegu y casgliadau blynyddol.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Morganwg, a gynnaliwyd yn Llwydcoed, Mawrth 19 a'r 20fed, pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad gwresog â'r dyoddefwyr ynglŷn â'r ddwy danchwa echrydus yn y Llanerch a'r Morfa, ac annogwyd yr holl gynnulleidfaoedd i wneuthur casgliad haelionus a dioedi er eu cynnorthwyo.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, Mawrth 26ain, hysbysodd y cenadon a benodasid i ymweled â Mr. J. W. Jones, eu bod wedi cyflwyno iddo gydymdeimlad y frawdoliaeth âg ef yn ei afiechyd; a derbyniwyd y newydd yn llawen fod iechyd Mr. Jones erbyn hyn yn well. Cafwyd anerchiad clir a gwresog gan John Roberts, Ysw., A.S., ar ran Jubili y Genadaeth Dramor. Talwyd diochgarwch cynhes y Cyfarfod Misol i Mr. Roberts, ac ymrwymodd y Cyfarfod i wneyd eu goreu i gario allan amcanion Pwyllgor y Jubili. Hysbyswyd fod yr eglwys yn Jewin Newydd wedi penderfynu gwneyd tysteb i'r blaenor parchus a ffyddlawn, Mr. J. W. Jones, yr hwn sydd wedi gwasanaethu yr achos yn Llundain am lawer iawn o flynyddoedd. A chan fod cylch gwasanaeth Mr. Jones wedi bod yn llawer eangach, a'i edmygwyr yn llawer lliosocach, na therfynau eglwys Jewin Newydd, dymunid hysbysu fod croesaw i bawb gydweithredu â hwynt yn yr arwydd hwn o'u teimladau da tuag at un a berchir mor fawr gan bawb a'i hadwaenant.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Gilead, Mawrth 31ain ac Ebrill 1af, cafwyd ymdriniaeth fuddiol ar y mater gosodedig, "Iaith anweddaidd." Agorwyd y mater gan y Parch. E. Evans, Bodedeyrn, yn oleu a chlir, a chyda dwysder mawr. Diolchwyd i Mr. Evans am ei sylwadau rhagorol, a phenderfynwyd annog i ymdrech egnïol yn erbyn y drwg hwn, gan erfyn am gydweithrediad athrawon yr ysgolion dyddiol, a'r gwahanol enwadau crefyddol.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fynwy, a gynnaliwyd yn Casbach, Mawrth 27ain, traddododd y Parch. W. Lewis, Pontypridd, anerchiad clir a grymus ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol. Diolchwyd yn wresog i Mr. Lewis, a phenderfynwyd gwneyd y trefniadau anghenrheidiol tuag at gydweithredu â chynllun y Pwyllgor.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Penmount, Pwllheli, Mawrth 31 ac Ebrill 1af, dadganwyd llawenydd y Cyfarfod Misol wrth weled y Parchn. R. Hughes, Uwchlaw'r ffynnon, a T. Ellis, Llanystumdwy, yn bresennol, ar ol bod mewn cystudd maith, a dymunwyd ar iddynt gael treulio blynyddoedd eto o ddefnyddioldeb gyda gwaith yr Arglwydd. Cafwyd anerchiadau dyddorol gan y Parchn. Dr. Griffiths, Cassia, a G. Ellis, M.A., Bootle, ar ran y Genadaeth Dramor, a chyflwynwyd diolchgarwch cynhes y Cyfarfod iddynt. Cynnygiwyd gan Mr. R. Rowland, U.H., Pwllheli, cefnogwyd gan y Parch. R. Hughes, Babell, ddadganiad o lawenydd a diolchgarwch i'r Arglwydd am ei amddiffyn dros ein Cenadaeth am y 50 mlynedd diweddaf, a'r llwyddiant mawr a ddylynodd lafur ein cenadon; ac amlygiad o gydymdeimlad calonog â'r symudiad presennol ac addewid o ymdrech o'i blaid.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Llanon, Ebrill 2 a'r 3ydd, penodwyd trysoryddion ac ysgrifenyddion lleol ymhob ardal i gymeryd gofal casgliad Jubili y Genadaeth Dramor. Cafwyd anerchiad galluog gan y Parch. D. Morgan, Penllwyn, ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgolion Sabbothol. Rhoddwyd diolchgarwch gwresog i Mr. Morgan, a hyderid y byddai yr anerchiad yn fendithiol i ddeffroi yr ysgolion i ymaflyd yn y manteision gwerthfawr a gynnygir iddynt.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Uchaf, a gynnaliwyd yn Dinas Mawddwy, Mawrth 31 ac Ebrill 1af, rhoddwyd derbyniad cynhes i'r Parch. T. J. Thomas, Towyn, ar ei ymsefydliad fel gweinidog yr Achos Seisonig yn Machynlleth. Ymatganwyd tristwch a gofid dwys y Cyfarfod Misol o herwydd ymadawiad y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth, o gylch y Cyfarfod Misol hwn, a'r golled drom a barai hyny i'r Achos yn y Sir; a phenderfynwyd rhoddi iddo lythyr cyflwyniad serchog i Gyfarfod Misol Liverpool.

ADRODDIAD PWYLLGOR YR YSGOLION PROTESTANAIDD AM Y FLWYDDYN 1889—90, A DDARLLENWYD YN NGHYMDEITHASFA Y RHOS.

(A gyhoeddir yn ol penderfyniad y Gymdeithasfa.)

Yn ystod yr wyth mis diweddaf cymerais gyfleusdra i dalu ymweliad achlysurol â'r ysgolion, ac â rhai o'r cymydogaethau cylchynol. O ran nifer yr ysgolheigion, y maent wedi dal eu tir, ac wedi cynnyddu ychydig, er fod tir lawer eto f'w feddiannu, yn enwedig yn Whitford a Llanasa. Oddiwrth ganlyniadau tra rhagorol yr arholiad a gymerodd le yn Chwefror yn Ysgol y Rhuallt, y mae apwyntiad yr Athraw diweddaf wedi profi yn un hynod o hapus. Cafwyd y *grant* oreu eto yn hanes yr ysgol hon ymhob ystyr, ac yn ol y safon uchaf, sef £43 13s. 10c., ynghyd a £11 10s. ychwanegol o dan adran III. y *code*—yn gwneyd y cyfanswm o £55 3s. 10c. oddiwrth y Llywodraeth. Oddiwrth dystiolaeth yr Arolygwr ar Femrwn Athrawes Ysgol Gronant, ar ol yr arholiad a gymerodd le wythnos yn ddiweddarach; ac hefyd yn ol ffigyrau y *schedules*, yr ydym yn casglu y bydd y *grants* i'r ysgol hon yr un modd yn dra boddhaol, er nad ydym eto wedi derbyn y manylion. Nid ydyw arholiad y ddwy ysgol arall eto wedi cymeryd lle.

Trwy y cyfan y mae genym 329 o blant o dan addysg. Nid doeth fyddai arfer gor-fanylder gyda'r anhawsderau sydd gan yr Ysgolion hyn i'w gwrthwynebu, rhag peri tramgwydd dianghenrhaid i neb o fewn y cylchoedd yma: nodwn yn unig y prif ffeithiau, gan obeithio y gwna hyny ateb y dyben o ddangos i'n cyfeillion yn y gwahanol Siroedd anghen am barhad eu cydymdeimlad a'u cynnorthwy er gwneyd yr ysgolion yn effeithiol i gyrhaedd amcan pwysig eu sefydliad. Canys nid fel sefydliadau addysgol yn unig, nac yn benaf, y maent yn bwysig, ond am eu bod yr unig foddion sydd genym i gadw yr ieuenctyd am chwe' diwrnod o'r wythnos allan o gyrhaedd dylanwadau yr ydym fel Ymneillduwyr a Phrotestaniaid yn eu hystyried yn dra phwysig i grefydd eu cadw oddiwrthynt. Fel y mae yn hysbys, yr achos o'u sefydliad ydoedd, ac ydyw, y darpariaethau ëang a chynnyddol a wneir gan y Babaeth mewn pedwar plwyf cyfagosol gogyfer âg addysgiaeth plant y cymydogaethau, a'r ffaith ddigalon fod llawer o blant Ymneillduwyr Cymreig yn cael eu hanfon i'w haddysgu yn y Sefydliadau Pabaidd. A'r ffaith ddifrifol hon y mae a fynom ni; a dylid edrych yn ei gwyneb, a rhoddi yr ystyriaeth ddifrifolaf iddi. Ni wnai manylu mewn adroddiad o fath hwn ddim lles i'r gwaith. Ymddyddan personol ac ymweliadau yw yr unig lwybr effeithiol; a gwneyd hyny yn ddystaw.

O fewn y cylch neillduol hwn y mae tua 1400 o blant o dan addysg yn ddyddiol. O'r rhai hyn, fel y sylwyd, y mae genym ni 329. Nid ydym yn cynnwys yn y niferi hyn y plant a änt o gymydogaeth Carmel i'r Ysgol Babaidd yn Nhreffynnon. Yn erbyn tair o'n hysgolion ni

y mae un ar ddeg o ysgolion Pabaidd ac Eglwysig, heb gyfrif y Mynachdŷ a'r lliaws mawr yn Pantasaph, a'r Coleg yn Nhremeirchion. Ar gyfer y 85 o blant sydd yn Ysgol Carmel, y mae gan y Pabyddion rhwng Pantasaph—sydd o fewn hanner milldir, a Lime Bank ychydig ymhellach mewn cyfeiriad arall—268 o leiaf; yr oll yn cael eu hanfon o'r tu allan. Yn un o honynt Cymraes ydyw yr Olygyddes. Ar gyfer y 72 o blant sydd yn Ysgol Gronant, y mae gan y Pabyddion 150 yn eu hysgol yn ymyl. Nid ydyw o un dyben manylu ar y ffigyrau hyn; ond y mae yn ddifrifol ddigon fod ysgolion yn cynnwys dros 400 o blant yn bosibl mewn cylch cymharol fychan, a hyny yn nghanol Ymneillduwyr Cymru. Y mae y gweddill, dros 600, yn yr ysgolion Eglwysig.

Saif ysgolion Carmel a Gronant yn nghanol y galluoedd ymosodol—Pabaidd ac Eglwysig; ac y mae Ysgol Rhuallt ar derfyn meddiannau ëang y Pabyddion perthynol i Goleg mawr Tremeirchion o fewn tua milldir i'r sefydliad hwnw; ac felly yn cau adwy o'r fath bwysicaf rhag i'r Pabyddion feddiannu'r lle, yn gystal a rhoddi drws agored i blant ddyfod o'r cyfeiriad hwnw a thu draw. Fe welir, oni b'ai am y tair ysgol Brotestanaidd hyn, y buasai Ymneillduaeth heb un math o ddarpariaeth addysgol, ac hefyd y buasai addysg yr holl gymydogaeth yn nwylaw y Pabyddion a'r Eglwys Sefydledig. Y mae rhesymau neilduol sydd yn galw am benderfyniad yn nghymydogaeth Gronant i anfon y plant i'r Ysgol Brotestanaidd; y rhai sydd yn byw yn yr ardal ac yn adnabyddus o honi, sydd mewn sefyllfa i ddeall hyn. Ac mewn perthynas i'r Sefydliadau mawrion yn Pantasaph, yn ymyl Carmel, y maent yn cynnyddu yn gyflym o flwyddyn i flwyddyn. Os parhâ i fyned ymlaen, bydd yn gymaint a thref fechan ymhen ychydig flynyddoedd. Nid ydyw y cyfryw ddarpariaethau heb ystyr iddynt, er eu bod yn myned ymlaen yn ddystaw. Dichon nad anmnriodol ydyw crybwyll yn y fan hon fod yr Offeiriaid yn ddiwyd a chyson yn eu hymweliadau â'r ysgolion.

Gydag ychydig o ychwanegiad at ein hadnoddau, yr ydym yn dysgwyl gallu gwneyd rhywbeth cyn bo hir mewn ffordd o ffurfio Clybiau dillad ymhob lle, a rhoddi gwobrwyon am ragori yn yr Arholiad Ysgrythyrol a drefnir i gymeryd lle yn flynyddol, er mwyn cyfarfod â'r cyffelyb bethau sydd yn meddu dylanwad, mae'n ddiau, yn yr ysgolion eraill. O herwydd prinder, a chostau achlysurol ynglŷn â'r adeiladau, dodrefn, &c., nid oes dim wedi cael ei wneyd yn y cyfeiriad hwn. Yn y Pwyllgor Cyffredinol a gyfarfu yn Rhyl ar y 18fed o Mawrth, pasiwyd penderfyniad y teimlai y Pwyllgor yn dra diolchgar pe byddai Trysoryddion y gwahanol Gyfarfodydd Misol mor garedig ag anfon i'r Trysorydd, Mr. Jacob Jones, Rhyl, eu symiau penodedig bob blwyddyn yn fyr o gyrhaedd y gofynion—sef £45—ac y mae dau Gyfarfod Misol eto heb anfon eu dogn i mewn, sydd yn ddyledus er y 30ain o Mehefin 1889.

Er nad ydyw y cyfanswm (£73 10s.) rhwng yr holl siroedd ond swm cymharol fychan, gall y Pwyllgor yn dra chydwybodol sicrhau y Gymdeithasfa eu bod yn cael eu rhoddi tuag at un o'r achosion pwysicaf; a'u bod yn gwneyd gwaith sylweddol i achos crefydd. Er fod yr eglwysi sydd yn gysylltiol â'r Ysgolion Protestanaidd yn wan iawn, y maent yn gwneyd cymaint ag a allant tuag atynt. Rhwng y naill beth a'r llall y maent yn costio iddynt £30 gyda'u gilydd yn flynyddol, heblaw cynnal eu hachosion crefyddol; ac yn sicr nis gellir dysgwyl iddynt wneyd mwy. Y mae Carmel yn awr yn ymgymeryd â chostau adgyweirio, yn ol awgrymiad Swyddog y Llywodraeth. Gweddus iawn ydyw i ni gydnabod yn ddiolchgar haelioni y boneddigion sydd wedi parhau i gefnogi a chynorthwyo yn sylweddol ar hyd y blynyddoedd trwy eu tanysgrifiadau; a'r boneddigion sydd wedi addaw eu henwau fel tanysgrifwyr newyddion. Swm y tanysgrifiadau ydyw £27 2s.—dau foneddwr £10 yr un; un £5; ac un £2 2s.

Cymerodd y Pwyllgor i ystyriaeth yr awgrymiadau a roddir yn Adroddiad y Parchn. D. Rowlands, M.A., a T. J. Wheldon, B.A., mewn canlyniad i'w hymweliad â'r Ysgolion ar gais y Gymdeithasfa, a chydolygwyd:—

(1.) Fod ymdrech arbenig yn cael ei gwneyd o du aelodau y Pwyllgor i dalu ymweliadau achlysurol â'r ysgolion.

(2.) Fod yr Ysgrifenydd mewn cydymgynghoriad â'r Pwyllgor, mor fuan ag y mae modd, yn trefnu amser a chynllun Arholiad Ysgrythyrol blynyddol.

(3.) Cydolygwyd hefyd ar awgrymiadau a roddir yn yr Adroddiad, fod rhan bwysig o gylch yr Ysgolion yn sefyll mewn anghen am arolygiaeth ac ymdrech neilduol; ac yn unol â'r teimlad hwn, penderfynwyd,—Ein bod yn dadgan i'r Gymdeithasfa y byddai yn dra dymunol pe gallai y Gymdeithasfa drefnu fod cysylltiad agosach yn cael ei ffurfio rhwng yr Ysgrifenydd a'r Ysgolion, yn

arbenigol yn Whitford a Llanasa, sef Gronant a Carmel, dyweder am flwyddyn neu ddwy. Fe allai, fel y barna rhai, y byddai hyn mor debygol a dim o ddwyn y lleoedd hyn i ymgymeryd âg arolygiaeth fugeiliol.

H. ROBERTS, *Ysgrifenydd.*

YR ARHOLIAD CYMANFAOL.

CYNNELIR yr Arholiad uchod eleni ddydd Mercher, Mai 7. Bydd dau eisteddiad, un yn y prydnawn, a'r llall yn yr hwyr. Yn y prydnawn cymerir papyr y Parch. O. JONES, B.A., Liverpool, ar *Ysbrydoliaeth y Bibl;* ac yn yr hwyr eiddo y Parch. D. SAUNDERS, D.D., ar *Y Pedair Efengyl.* Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio Biblau; ond ni chaniateir iddynt ddefnyddio unrhyw lyfr arall. Bydd yn dda genyf gael rhoddi pob hysbysrwydd pellach i'r rhai sydd yn bwriadu ymgeisio.

JOHN G. DAVIES.

Aberystwyth.

TREFFYNNON.

Y MAE Achos Seisonig wedi ei gychwyn yn ddiweddar yn y dref hon. Cynnaliwyd y gwasanaeth agoriadol yn yr *Assembly Hall,* ar y Sabboth, Mawrth 16eg. Pregethwyd gan y Parch. J. Puleston Jones, B.A., Bangor. Yr oedd yno gynnulleidfa fawr, yn enwedig yn yr hwyr; ac y mae pob arwyddion y bydd y symudiad yn llwyddiannus.

ABERGELE.

Nos Sabboth, Mawrth 16eg, ymwelodd Mr. Peter Roberts, Llanelwy, â'r lle hwn ar ran Jubili y Genadaeth Dramor. Llywyddwyd gan J. Roberts, Ysw., A.S. Anerchwyd y gynnulleidfa gan y Cadeirydd, a'r Parch. Owen Evans, Colwyn Bay, a chan Meistri P. Roberts, T. Williams, Pensarn, ac eraill. Ar ddiwedd y cyfarfod, addawodd y Cadeirydd £100 at y casgliad arbenig hwn, a'i fab, J. Herbert Roberts, Ysw., U.H., £50. Cyrhaeddodd yr addewidion y pryd hwnw i ryw gymaint dros *ddau gant* o bunnau. Cawsid addewidion hefyd yn Nghapel Clwyd Street, Rhyl, am dros £100. Gwelir fod dechreuad grymus i'r symudiad hwn o fewn cylch Cyfarfod Misol Dyffryn Clwyd.

SEFYDLIAD GWEINIDOG YN BRITON FERRY.

CYNNALIWYD cyfarfod yn Bethel, Briton Ferry, nos Fercher, Mawrth 5ed, i sefydlu y Parch. W. Richards (gynt o Lanfynydd), yn fugail ar yr eglwys hon. Llywyddwyd gan y Parch. Thomas Davies, Giant's Grave. Cynnrychiolid Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd gan y Parch. Moses Williams, Aberavon, a Mr. John Davies o'r un lle. Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan lïaws o weinidogion a diaconiaid.

TOWYN.

Nos Fawrth, y 25ain o Fawrth, traddodwyd Darlith sylweddol a rhagorol yn Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn y lle hwn, gan y Parch. John Owen, Aberdyfi, ar Zuinglius, y diwygiwr Protestanaidd.

CYFARFOD PREGETHU.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu yn Morïah, Treboeth, Abertawe, ar y 30 a'r 31ain o fis Mawrth. Pregethwyd gan y Parchn. Dr. Saunders, T. H. Jones, Llansamlet, a D. R. Williams, Cruglas.

COLEG TREFECCA.

DEWISWYD y Parch. Owen Prys, B.A., Penllwyn, yn unfrydol, yn y pwyllgor o gynnrychiolwyr Cyfarfodydd Misol a Henaduriaeth y Deheudir, yn Athraw ychwanegol i Goleg Trefecca.

BOOTLE.

Nos Iau, Mawrth 20fed, yn y Cyfarfod Eglwysig yn Bootle, cyflwynwyd Tysteb, yn cynnwys Anerchiad wedi ei oreuro yn dra phrydferth, ac wedi ei arwyddo gan weinidog a diaconiaid yr eglwys, ynghyd a *cheque* am £120, i Mr. David Jones, un o ddiaconiaid a thrysorydd eglwys Stanley Road, fel amlygiad o gydymdeimlad y frawdoliaeth âg ef yn ei gystudd diweddar, ac o'u gwerthfawrogiad o'i lafur ffyddlawn a diwyd am flynyddoedd lawer ynglŷn âg achos y Gwaredwr yn y lle hwn Llywyddwyd gan y Parch. G. Ellis, M.A., ac anerchwyd y cyfarfod gan lïaws o gyfeillion.

CAERNARFON.

Nos Lun, Mawrth 16eg, traddodwyd darlith alluog a dyddorol dros ben yn Nghapel Engedi, gan y Parch. John Hughes, D.D., ar "Feistriaid y Gynnulleidfa," yn rhoddi golwg ar hanes pregethu a phregethwyr mawr yn y gwahanol oesoedd. Llywyddid gan Owen Jones, Ysw., Green Bank. Rhoddid yr holl elw at Ysgol Sabbothol y Tlotŷ. Ar ddiwedd y cyfarfod cafwyd ychydig o

eiriau gan Ficer y plwyf, yr hwn oedd yn gwrandaw yn y sêt fawr o'r dechreu.

CLYNNOG.

Mawrth 20 a'r 21ain, ymwelodd y Parch. J. Puleston Jones, B.A., â'r ardal hon, i draddodi ei ddarlith ddyddorol ar "Emynau Cymreig." Prydnawn Gwener, yr 21ain, traddododd Mr. Jones anerchiad galluog a buddiol i efrydwyr yr Ysgol Ramadegol, ar "Astudio a Siarad;" a phregethodd nos Wener i gynnulleidfa fawr. Gwerthfawrogid a mwynheid holl wasanaeth Mr. Jones yn yr ymweliad hwn yn fawr.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. DAVID JONES, RHUDDLAN.

Bu y brawd caredig a'r gweinidog gweithgar hwn farw boreu Mawrth, y 25ain o Fawrth, yn 48 mlwydd oed. Ei afiechyd oedd ymosodiad o'r *influenza*, yr hwn, wedi ei ail gael, a drôdd yn ennyniad yr ysgyfaint *(inflammation of the lungs)*. Dygwyd ef i fyny yn ardaloedd Aberllefenni a Chorris. Dechreuodd bregethu yn Abergynolwyn, tua deunaw mlynedd yn ol, yn ddeg ar hugain oed. Symudodd oddiyno i Dalysarn. Ordeiniwyd ef yn y flwyddyn 1878. Cydsyniodd â galwad i fugeilio eglwysi Llanfairtalhaiarn a Thabor, Dyffryn Clwyd, lle y bu ei lafur yn gymeradwy a bendithiol. Symudodd oddiyno i Rhyl; ac oddiyno dychwelodd yn ol yn fuan i Talysarn. Tua blwyddyn yn ol derbyniodd yr alwad i fod yn fugail ar eglwys Rhuddlan, lle yr ennillodd barch a serch yr eglwys i raddau helaeth. Claddwyd ef ddydd Gwener, yr 28ain o Fawrth. Gweinyddwyd wrth y tŷ gan y Parchn. John Williams a Lewis Ellis; wrth y bedd gan y Parchn. B. Hughes, Llanelwy, a Francis Jones, Abergele. Traddodwyd pregeth angladdol yr un noswaith yn Rhuddlan i gynnulleidfa lïosog, oddiar Heb. xi. 16, gan y Parch. S. T. Jones, Rhyl.

Y PARCH. THOMAS JERMAN JONES.

Gyda galar dwys a chyffredinol y derbyniwyd y newydd am farwolaeth y brawd anwyl a'r cenadwr ymroddedig hwn. Bu farw ar y fordaith gartref o India, am ddau o'r gloch ddydd Llun, Ebrill 14eg, ar fwrdd y llong, yn nghulfôr Dungeness. Yr oedd y newyddion a dderbyniwyd o India cyn ei gychwyniad, ac̨oddiwrth Mrs. Jerman Jones, wedi parotoi meddyliau ei gyfeillion i raddau i ddysgwyl y newydd galarus. Coleddid gobaith, er hyny, y byddai iddo gyrhaedd y wlad hon yn fyw. Ni bu genym o'r dechreuad gymeriad mwy pur a syml, mwy llawn o gariad at Grist ac at eneidiau dynion, na mwy llwyr-ymroddedig i waith y Genadaeth. Medrodd golli ei hunan yn ei waith. Hunananghof a hunan-aberthiad i Grist a'r efengyl oedd yn nodweddu ei fywyd. Yr oedd ei zel a'i ymroddiad i'w waith fel Cenadwr yn apostolaidd. Claddwyd ef ddydd Gwener, y 18fed, yn Smithdown Lane Cemetery. Ni chawsom fanylion y claddedigaeth. Diau genym y bydd hanes helaeth gan Ysgrifenydd y Genadaeth yn y Cronicl Cenadol yn y rhifyn hwn.

Bwrdd y Golygydd.

YR ACHOS CYMREIG YN LLUNDAIN.

Barchedig Syr,—Gyda'ch caniatâd, anturiaf wneuthur ychydig grybwylliad o berthynas i'r Achos Cymreig ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd yn y Brifddinas.

Un o'r pethau mwyaf dyddorus genyf fydd cael hanesion am y modd y dygid ymlaen yr achos crefyddol, yn ngwahanol ranau o'r "Hen Wlad," ynghyd a lleoedd a gwledydd eraill. Yr ymdrech, y zel, ar ymroad diflino a ddangosai yr hen frodyr anwyl yn yr amser gynt a fu (coffa da am danynt) yn nygiad ymlaen yr achos goreu. Byddai yn hyfrydweh o'r mwyaf genyf pe byddai i ryw frawd cymhwys ymgymeryd â'r gorchwyl o roi Hanes yr Achos Methodistaidd Cymreig yn Llundain o'i ddechreuad hyd yn awr. Fe fyddai yn faes helaeth mae'n ddiau, a hynod ddyddorol i'r enwad dros yr holl fyd, os nad i'r genedl Gymreig yn gyffredinol. Gallwn ddyweyd hyn yn ddibetrus, fod y cynnydd wedi bod yn eglur i bawb sydd yn gwybod rhyw gymaint am dano.

Deng mlynedd ar hugain yn ol nid oedd ond 3 neu 4 capel ganddynt yma, ond erbyn hyn mae yma 8 o gapelau hardd a lled helaeth, rhai o honynt wedi eu helaethu a'u haddurno fwy nag unwaith; 5 o honynt yn eglwysi lled gryfion o dan ofal bugeiliol, brodyr gweithgar a zelog ymhob cylch perthynol i'r achos; un eglwys arall, fe ddywedir, sydd lawn mor gryfed a rhai o honynt sydd o dan ofal bugeiliol, yn araf a phwyllog symud ymlaen tuag at gael bugail cymhwys i'w porthi yn y gair a'r athrawiaeth.

Felly gellir meddwl eu bod erbyn hyn yn allu yn y Cyfundeb. Ond eto gellir dyweyd

fod un peth yn eisieu i ni: er ein bod yn gwneyd ein rhan at y gwahanol Gymdeithasau Biblaidd a Cenadol, eto nid ydym yn cyfranu yr hyn ddysgwylid i ni at draul y Gymdeithasfa fel holl ffyddloniaid Israel, yr hyn nad ydyw ar gyfer pob aelod ond dau cymaint a rhodd wirfoddol y weddw dlawd i'r drysorfa. Y canlyniad meddir ydyw, er i ni gyda thraul a thrafferth anfon gweinidog a blaenor i'r Gymdeithasfa, eto mae eu gwaith yn pleidleisio gyda gwahanol achosion y Gymdeithasfa, "fel efydd yn seinio neu symbal yn tincian," yn hollol ofer a diles, gan nas meddant hawl gyfreithlawn i hyny, o herwydd yr anffawd a nodwyd. Fe allai na wyr pawb ddim mai nid gwrthod cyflawni eu dyledswydd y maent yma, ond mai mewn sefyllfa o "gyfyng-gynghor" y maent o berthynas i'r pa fodd i'w wneyd. Yn anffodus (fe allai) mae Cymru wedi ei rhanu yn ddwy ran—Dehau a Gogledd, a'r canlyniad yw fod y ddwy yn ddarostyngedig i ddwy Gymdeithasfa wahanol yn ol eu sefyllfa ddaearyddol; o ganlyniad mae perthynas y gwahanol Gyfarfodydd Misol, &c., allan o Gymru â'r rhan ddaearyddol nesaf atynt. Felly perthyna Liverpool, Manchester, &c., i Gymdeithasfa y Gogledd, a chydnabyddant eu perthynas, mae'n debyg, trwy eu cyfraniadau tuag at ei threuliau. Ond am Lundain, mae yn anffodus fel Llanrwst, heb fod yn perthyn i Gymru na Lloegr; o leiaf, tybir na chafodd Methodistiaid Llundain wybod eto i ba un o'r Cymdeithasfäoedd y perthynant, ac nas gwyddant eu hunain. Maent yn barod ac ewyllysgar i gyfranu, ac ystyriant yr undeb yn werth ei goleddu a'i gadw, onidê na sonier am Drefnyddiaeth o gwbl; ïe, ni chwynent lawer pe byddai iddynt eu dwyn i'r ddwy. Os gellwch chwi neu rai o'r brodyr sydd yn gallu gweled ymhell gysoni yr egwyddor sydd o dan hyny, teimla llawer o'r cyfeillion yma y dylid penderfynu yr achos yn ddioed gan yr awdurdodau goruchel.

J. E.

JUBILI 1890.

At Olygydd y DRYSORFA.

SYR,—Gan fod cyfeiriadau "Enwadol" yn cael eu gwneuthur yn y flwyddyn hon, fel "Jubili," o ran amseriad i'r flwyddyn 1840, mewn cysylltiad â sefydliad "y Gymdeithas Genadol Gymreig" yn Khassia, India, hwyrach na fyddai ychydig o gof nodion amrywiaethol hefyd, ddim yn annerbyniol gan fwyafrif darllenwyr y DRYSORFA.

Yn nechreu haf y flwyddyn 1840, daeth y Parch. Thomas Jones, gwir sylfaenydd y Gymdeithas yn y Bryniau hyny, ac hefyd gwir awdwr y sillebiaeth, er ffurfio geiriau y bobl i iaith ac ymadrodd, ar daith trwy Ynys Môn, a dygwyddodd fod yn pregethu yn Nghaergybi, ar foreu Sabboth; a'i destyn ydoedd Rhuf. v. 19.

Yr oedd peth hynodrwydd yn ei wyneb a'i berson, a'i arabedd, ond yn ei bregeth yn benaf, fel y tynodd sylw arbenig fy ngwraig, ac eraill o bosibl (yr oeddwn yn bersonol ar neges fasnachol yn Lerpwl a Manchester), fel pan ddychwelais y cyfeiriwyd yn dra ffafriol at dalent a nodweddau y Cenadwr apwyntiedig, gyda chymeradwyaeth mawr iawn; ac yn wir yr ydoedd hi yn un o graffder cymeriadau, a chof ymhell tu hwnt i'r mwyafrif o ddynolryw.

Nid peth i'w ryfeddu yn fawr ydoedd y ffaith i'r enwog Dr. Duff, Calcutta, barhau yn gyfaill ffyddlawn i Mr. T. Jones, er yr holl helyntion a gymerodd le yn India, ac yn nhŷ yr hwn yn Calcutta y bu Mr. Jones farw.

Llawer gwaith er cyhoeddiad y Cyfieithiad Diwygiedig o'r Testament Newydd, 1881, yr ydwyf wedi awyddu gwrando un gonest ei egwyddorion duwinyddol, yn pregethu ar Rhuf. v. 19, gan gadw y *bannod penodol*—"y llawer" yn y *naill* gysylltiad *fel y llall*.

Ond i ddychwelyd at 1840. Yn mis Medi (19) oedd y Sabboth diweddaf y bu yr anfarwol a'r gwir Barchedig John Elias yn Nghaergybi, ar ol bod yno gannoedd o weithiau yn pregethu yr Arglwydd Iesu Grist ar Sabbothau a dyddiau yr wythnos, yn y capel a'r awyr agored. Ar y Sabboth a nodwyd, yr oedd am hanner awr wedi naw y boreu yn Rhoscolyn, pellder o bum' milldir. Gyda dau frawd ieuainc eraill o'r dref, aethom yno yn brydlawn, gan gerdded yn hapus, a mawr oedd ein gwobr—y capel yn orlawn. Ei destyn oedd Actau xv. 11: "Canys trwy ras yr Arglwydd Iesu Grist yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig yr un modd a hwythau."

Un sylw yn y bregeth oedd hwn: "Mai *math o awyr sanctaidd* yn ennyn yn enaid dyn, gan ddyrchafu ei ysbryd at yr Arglwydd Iesu Grist, Fab Duw, mewn cariad ato, ac ymorphwysiad ar ei haeddiant anfeidrol am fywyd tragywyddol, oedd ffydd gadwedigol."

Brawd y diweddar Barch. T. Hughes, Caernarfon, y Parch. Howell Hughes, oedd Periglor plwyf Rhoscolyn. Yr oedd ei fachgen hynaf, tua 12 i 13 mlwydd oed, yn y capel yn gwrando, a chlywais gan un o'r diaconiaid iddo sylwi, "Mr. Williams, what a beautiful illustration Mr. Elias made on Sunday morning when describing what is saving faith!" Cofiais innau yr *adnod byth* ar ol *hyny* fel un arbenig yn llyfr yr Actau.

Am 6 o'r gloch y Sabboth, yn y dref, pregethodd oddiar Actau v. 31: "Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau." Gwnaeth sylw ar "*i roddi*." Rhoddi fel *Duw anfeidrol* mewn graslonrwydd. Ar ol eglurhad cyflawn a tharawiadol, yna *anecdote* am Alexander Fawr. Pan oedd un o'i brif *Generals* yn dyweyd wrth yr ymherawdwr, pan oedd am wobrwyo arall am ei *loyalty* a'i ffyddlondeb, "Y mae yr hyn a fwriedir yn *ormod rhodd o lawer*." "Nac ydyw," meddai yr ymherawdwr, "rhaid i mi gael *rhoi* fel *Alexander the Great*."

Dydd Llun a Mawrth, 20 a 21, yr oedd y Gymanfa ail-flynyddol yn cael ei chynnal yn y dref, ymha un yr oedd llïaws mawr o bregethwyr yr efengyl—yn eu mysg Richard Williams, Lerpwl; Ellis Phillips, Wrexham, ac eraill o'r Gogledd, ynghyd a rhai o'r Deheudir; ond nid oes gymaint ag *un o honynt* yn fyw ar y ddaear, am a wyddom, yn 1890, a dim ond *un* o bregethwyr Sir Fôn yn fyw, sef y Parch. Robert Hughes, Gaerwen; pan y mae 35 o farw olaethau o'r flwyddyn 1840 hyd 1890, a phump wedi symud i leoedd eraill, yr oll ynghyd, 40.

Eto un sylw priodol cyn terfynu. Nos Fawrth y Gymanfa, yn y "Tabernacl," pregethodd Griffith Jones, a Mr. Elias, a'i destyn ydoedd 1 Ioan v. 19: "Ni a wyddom ein bod o Dduw, ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni." Y bregeth olaf o'r cannoedd gan yr anfarwol John Elias yn Nghaergybi. Bu farw Mehefin 9, 1841.

Y mae dadganiad o egwyddor y testyn yn symbyliad cryf i zel a llafur cenadol.

RICHARD JONES
(Protestant Cymreig).

Chwefror 3, 1890.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA RHOSLLANERCHRUGOG.

EBRILL 9, 10, A'R 11EG, 1890.

LLYWYDD,—Y Parch. W DICKENS LEWIS, D.D., Amwythig.

DYDD MERCHER, EBRILL 9FED.

Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa am 2 o'r gloch.

DECHREUWYD trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. D. Jones, Garegddu.

Gan nad oedd y Llywydd wedi cyrhaedd, dewiswyd y Parch. R. Humphreys Morgan, M.A., Pont Menai, i gymeryd y gadair yn y cyfamser.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Darllenwyd y llythyr canlynol oddiwrth y Parch. W. James, B.A., Manchester, a phenderfynwyd,—Ein bod yn dadgan ein cydymdeimlad puraf â Mr. James yn wyneb ei afiechyd, a'n bod yn llawenhâu wrth ddeall ei fod yn gwellhau, ac yn gobeithio y bydd ar fyrder wedi adennill ei iechyd a'i nerth eto i ail ymaflyd yn y gwaith mawr.

Penarth, Ebrill 4, 1890

ANWYL MR. ROBERTS,—Mae yn wir ddrwg genyf na fyddaf yn nghyfarfod y Gymdeithasfa yr wythnos nesaf, i gymeryd rhan yn nghyflwyniad y gadair i'r Llywydd etholedig, yn rhinwedd yr apwyntiad a orfuwyd ei wneyd yn Llanfair. Mae yn debyg y gwel y Cyfeisteddfod yn iawn benodi rhyw un arall o'r cyn-lywyddion a fydd yn bresennol i'r gwaith.

Byddwch cystal ag egluro mai y rheswm am fy absennoldeb yw fy mod bellach er ys amryw wythnosau oddicartref yn herwydd mesur o waeledd iechyd; cyflwynwch hefyd fy nghofion serchog i'r brodyr oll, a sicrhewch hwynt o'm dymuniad gweddigar am i nawdd y Goruchaf fod dros y Gymdeithasfa yn ei holl weithrediadau y tro hwn ac yn wastadol.—Ydwyf, anwyl frawd, yr eiddoch yn ffyddlawn,

WILLIAM JAMES, *Manchester.*

Parch. T. G. Roberts,
Ysg. y Gymdeithasfa.

III. Darllenwyd Cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

IV. Derbyniwyd enwau y brodyr canlynol i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa i gael eu hordeinio eleni:—Arfon: Mr. David Hughes, M.A., Pentir; Mr. William Matthews, M.A., Graig: Mr. William Jones Williams, Peniel. Dyffryn Clwyd: *Mr. J. R. Evans, Prestatyn* (absennol.) Fflint: Mr. John Evor Jones, Bwlchgwyn. Dwyrain Meirionydd: Mr. Hugh Owen Hughes, Llanuwchllyn; Mr. Edward Edwards, Cwmtirmynach; Mr. William Lloyd, Corwen. Gorllewin Meirionydd: Mr. Robert Williams, B.A., Dolgellau; Mr. John Wilson Roberts, Arthog. Trefaldwyn Uchaf: Mr. Maurice Griffith, B.A., Machynlleth. Henaduriaeth Lancaster, &c.: Mr. John Davies, Coedpoeth. Liverpool: Mr. William Glynne, Birkenhead.—Hysbyswyd fod Mr. J. R. Evans, Prestatyn, o Dyffryn Clwyd, yn analluog o herwydd afiechyd i fod yn bresennol yn y Gymdeithasfa hon, ac nad ydyw yn debyg y gall fod yn y nesaf ychwaith. Gofidiai y Gymdeithasfa ddeall am afiechyd Mr. Evans, a dadgenid cydymdeimlad dwys âg ef.

V. *Gwerthu Tir.*—Gyda golwg ar gais o Drefaldwyn Uchaf am ganiatâd i werthu Tir ynglŷn â chapel y Drefnewydd, penderfynwyd,—Ein bod yn anfon at Eglwys y Drefnewydd, a Chyfarfod Misol Methodistiaid Trefaldwyn Uchaf, i ddeisyf ar iddynt ail ystyried eu cais hwn, yn enwedig wrth ystyried mai tra phriodol fyddai fod ganddynt dir yn eiddo iddynt i adeiladu Tŷ Gweinidog arno.

VI. *Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Darllenwyd rhybuddion am benodiad Ymddiriedolwyr yn Nyffryn Clwyd, ar gapelau Llannefydd, Cricor, a Soar, a phenderfynwyd,—Ein bod yn cymeradwyo y personau a gynnygir gan Gyfarfod Misol Dyffryn Clwyd yn Ymddiriedolwyr ar Gapelau Llannefydd, Cricor, a Soar, i'w penodi drwy Weithred Gyfreithiol yn y Gymdeithasfa nesaf.—Yn wyneb y ffaith nad ydyw yr oll o'r Cyfarfodydd Misol yn symud yn unffurf gyda phenodiad Ymddiriedolwyr mewn achosion o fath y rhai hyn, penderfynwyd,—Ein bod yn gofyn i John Bryn Roberts, Ysw., A.S., fod mor garedig a chyfarfod Pwyllgor y Gweithredoedd sydd yn perthyn i Gymdeithasfa y Gogledd, er mwyn cael trafodaeth ac eglurhad pellach ar yr anghenrheidrwydd am wneuthur penodiadau fel hyn yn y Gymdeithasfa, fel y gallom gydsymud yn y gwaith hwn.—Gan

fod Mr. Jacob Jones, Rhyl, cynnullydd penodedig y Pwyllgor hwn, mewn llesgedd iechyd, penderfynwyd,—Fod Ysgrifenydd y Gymdeithasfa yn cael ei awdurdodi i gynnull y Pwyllgor i'r dyben hwn.

VII. *Ymgeisio am y Weinidogaeth.*—Gyda golwg ar genadwri o Orllewin Meirionydd ar y mater hwn, penderfynwyd,—Ein bod yn gofyn i'r Parch. O. Thomas, D.D., ffurfio penderfyniad i'w gynnyg yn y cyfarfod am 2 o'r gloch yfory.

VIII. *Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Rhoed rhybudd am benodiad personau yn y Gymdeithasfa nesaf yn Ymddiriedolwyr ar Gapel Waenfawr, Arfon, gan fod gweithredoedd yr eiddo hwn, drwy ryw amryfusedd, wedi eu gadael ddegau o flynyddoedd yn ol, heb i werthydd y tir, na neb o'r Ymddiriedolwyr, eu harwyddo. Penderfynwyd,—Ein bod yn cymeradwyo y personau a gynnygir gan Gyfarfod Misol Arfon yn Ymddiriedolwyr ar Gapel Waenfawr, i'w penodi drwy weithred gyfreithiol yn y Gymdeithasa nesaf.—Awgrymwyd gan y Parch. O. Thomas, D.D., y priodoldeb i'r mwyafrif beth bynag o'r personau a benodir yn Ymddiriedolwyr ar eiddo y Cyfundeb, fod yn swyddogion eglwysig, gan gadw golwg hefyd ar gael nifer lled gyfartal o'r cyfryw yn weinidogion a blaenoriaid.

IX. Gohiriwyd penodi Ymddiriedolwyr i hen Gapel Bedford Street, Liverpool, y rhoed rhybudd yn y Gymdeithasfa ddiweddaf y penodid hwy yn y Gymdeithasfa hon, hyd y Gymdeithasfa nesaf, yr hon sydd i'w chynnal yn y Bala, gan fod y weithred am yr eiddo hwnw yn darparu mai yn Nghymdeithasfa y Bala y mae penodiad Ymddiriedolwyr ar y capel hwnw i'w wneyd.

X. *Tiroeddi Adeiladu Capelau.*—Galwyd sylw at Fesur Mr. A. J. Williams, A.S., gyda golwg ar gael tiroedd drwy orfodaeth i adeiladu capelau. Hefyd at Fesur arall gyda golwg ar siorhau Prydlesoedd yn Feddiant Rhydd-ddaliadol a ddygir yn mlaen gan Mr. S. T. Evans, A.S. Gan nad oes debygolrwydd y dygir y naill Fesur na'r llall dan sylw y Senedd yn fuan, penderfynwyd,—Fod Pwyllgor y Meddiannau yn cael dymuno arno alw sylw y Gymdeithasfa at y ddau Fesur hyn pan y gwelo yn briodol; a phe byddai anghen cyn i'r Gymdeithasfa gyfarfod,—Fod Llywydd ac Ysgrifenydd y Gymdeithasfa yn cael eu hawdurdodi i lawnodi Deiseb yn mhlaid y ddau Fesur, a'i hanfon i'r Senedd.

XI. *Achos Patagonia.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau y Pwyllgor fu yn eistedd ar yr achos hwn. Cafwyd ynglŷn â hyn hefyd gyfarchiad gan Mr. G. S. Jones o'r Wladfa, sydd yn awr ar ymweliad â'r wlad hon, yr hwn a gyfeiriai yn gryf at eu mawr anghen am Weinidog yno, ac a ddadganai lawenydd am fod y Gymdeithasfa wedi dyfod i'r penderfyniad hwn.

Cyfarfu y Pwyllgor a benodwyd yn Nghymdeithasfa Llanfair-Caereinion, ddwy waith yn Llanrwst, Ionawr 6, 1890, a Chwefror 28, 1890. Cadeirydd, y Parch. David Jones, Blaenau Ffestiniog. Yr oedd yn bresennol yn y ddau gyfeisteddfod y Parchn. William Roberts, Llanrwst; Lewis Ellis, Rhuddlan a R. H. Morgan, a Mr. J. S. Jones, Blaenor ffyddlawn gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Wladfa. Derbyniwyd adroddiad cysurus iawn gan y Parch. William Roberts a Mr. J. S. Jones am sefyllfa bresennol a rhagolygon y Wladfa. Darllenwyd llythyr oddiyno yn cynnyg £100 a thŷ fel cyflog blynyddol i weinidog i wasanaethu y Methodistiaid. Deallwyd hefyd fod y Bwrdd Cenadol yn addaw £150 am dair blynedd, sef £50 yn flynyddol. Fel ffrwyth yr holl ymdrafodaeth, mabwysiadwyd y penderfyniadau dilynol i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa:—

1. Ar ol darllen y llythyrau a dderbyniasid oddiwrth ymgeiswyr, â'r rhai y buwyd yn gohebu â hwynt yn eu cylch, ac wedi ystyried y tystiolaethau a gafwyd oddiwrth ddynion da eu gair, ac hefyd wedi clywed fod y Methodistiaid yn y Wladfa wedi anfon gwahoddiad i'r Parch. Robert Jones, Treuddyn, Wyddgrug, trwy y Parch. William Roberts, Llanrwst, cynnygiwyd gan Mr. J. S. Jones, Patagonia, cefnogwyd gan y Parch. William Roberts, a phenderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno y Parch. Robert Jones, Treuddyn, fel y gŵr mwyaf cymhwys a ellir ei gael ar hyn o bryd i gyfarfod amgylchiadau y Wladfa, i fyned yno fel gweinidog ar Eglwysi y Methodistiaid Calfinaidd.—2. Gan fod Mr. Jones heb ei ordeinio, penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno ar y Gymdeithasfa i wneyd trefniadau i'w ordeinio mor fuan ag y gellir ar gyfer y maes Cenadol yn Patagonia.—3. Penderfynwyd fod y cyflog i fod yn ol y trefniad a nodwyd uchod, sef £100 a thŷ yn flynyddol gan y Methodistiaid yn y Wladfa, £50 yn flynyddol am dair blynedd gan y Bwrdd Cenadol. Deallwyd hefyd fod y Bwrdd yn barod i dalu swm tuag at ei *passage* allan.—4. Er mwyn osgoi, hyd ag y gellir, bob anghysur neu anghydweledigaeth yn y dyfodol, penderfynwyd,—Ein bod yn awgrymu y priodoldeb o fod cytundeb ysgrifenedig yn cael ei dynu i fyny rhwng Mr. J. S. Jones, fel cynnrychiolydd Methodistiaid y Wladfa, y Bwrdd Cenadol, a'r Parch. Robert Jones, yn cynnwys holl fanylion y dealltwriaeth cydrhwng y tair plaid; a'n bod yn gadael hyn i'w wneyd gan y Cyfeisteddfod Cenadol.—5. Penderfynwyd,—Ein bod hefyd yn dadgan ein barn mai priodol fyddai fod Adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cenadol o ansawdd a llwyddiant yr Achos yn y Wladfa.—6. Rhoddwyd ar yr Ysgrifenydd i hysbysu y Bwrdd Cenadol a Mr. Jones am y penderfyniadau uchod, yr hyn hefyd a wnaethpwyd. Mae Mr. Jones yn derbyn yr alwad a'r Bwrdd Cenadol wedi cymeradwyo y dewisiad a chadarnhau yr addewid, ac hefyd hysbysu y talant hyd £25 at y *passage* allan.—R. H. Morgan, *Ysg.*

XII. *Penderfyniadau y Gymdeithasfa.*—Hysbyswyd fod Mr. E. Jones, Bangor, wedi cwblhau y casgliad o Benderfyniadau y Cymdeithasfaoedd, i'r hwn amcan y darfu i'r Gymdeithasfa yn Machynlleth, yn Ebrill 1888, roddi ei chefnogaeth wresog. Dywedai Mr. Jones nad oedd yn dymuno symud ymlaen gyda chyhoeddi y llyfr, heb hysbysu y Gymdeithasfa. Gan nad ydyw y Gymdeithasfa mewn amgylchiadau i ymgymeryd â chyhoeddi y cyfryw lyfr, a chan yr ymddengys fod rhagolygon da i'r gwaith, dadganwyd dymuniad am i Mr. Jones fyned ymlaen i'w gyhoeddi, gan ddymuno iddo bob llwyddiant yn yr antur.

XIII. *Patagonia etc.*—Galwyd sylw drachefn at yr achos hwn. Cydolygwyd i Mr. J. S. Jones gael cyfle i ddyweyd gair am ein cydwladwyr yn y Wladfa mewn cyfarfod dyfodol yn y Gymdeithasfa hon. Penderfynwyd hefyd,—Ein bod yn dymuno i'r Parch. D. Rowlands, M.A., ysgrifenu cyfarchiad serchog at ein brodyr a'n chwïorydd yn y wlad hono, i'w lawnodi gan y Llywydd yn enw y Gymdeithasfa.

XIV. *Anerchiad y Cyn-lywydd.*—Gwnaed yn hysbys fod ein diweddar anwyl frawd, y Parch. John Pritchard, Amlwch, cyn lywydd y Gymdeithasfa, cyn ei ymadawiad o'r byd, wedi parotoi yr anerchiad y bwriadai ei draddodi wrth adael y gadair, ac fod Mrs. Pritchard yn garedig wedi ei roddi yn ngofal y Parch. D. Rowlands, M.A. Penderfynwyd, wedi peth ymddyddan,—Ein bod yn dymuno am i Mr. Rowlands ei ddarllen yn y Cyfarfod am 6 heno.

XV. *Pwnc Cyfarfod y Pregethwyr.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno ar y Parchn. Owen Thomas, D.D., a G. Parry, D.D., drefnu pwnc gogyfer â Chyfarfod y Pregethwyr.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd drwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. D. Pierce, Salem.

XVI. *Ysgrifenyddiaeth y Gymdeithasfa.*—Wrth gyflwyno llyfrau, &c., y Gymdeithasfa i'r Ysgrifenydd, rhoes y Parch. R. Humphreys Morgan, M.A., y Cyn-Ysgrifenydd, grynodeb o weithrediadau y Gymdeithasfa am y chwe' blynedd y bu efe yn y swydd. Diolchai i'r Gymdeithasfa am ei anrhydeddu â'r swydd, ac am bob cynnorthwyon a gafodd yn y gweinyddiad o'r swydd. Cydnabyddai brydlondeb Ysgrifenyddion y Cyfarfodydd Misol yn anfon iddo hysbysiadau gogyfer â'r Cymdeithasfaoedd. Cydnabyddai hefyd ddeheurwydd a phrydlondeb yr argraffwyr yn Nhreffynnon, gan grybwyll fod hyn wedi hwyluso llawer ar waith yr Ysgrifenydd.

Penderfynwyd, gyda'r unfrydedd mwyaf, fod cofnodiad yn cael ei wneyd o ddiolchgarwch puraf y Gymdeithasfa i Mr. Morgan am y medrusrwydd, y ffyddlondeb, a'r gonestrwydd gyda pha rai y gweinyddodd y swydd—gweinyddiad, yn ol y farn gyffredinol, a ystyrid yn berffaith. Taer ddymunid am iddo eto roddi ei bresennoldeb yn y Gymdeithasfa mor fynych ag y caniatâi amgylchiadau iddo wneyd.

Hysbyswyd nad oedd Cofnodau Cymdeithasfaoedd y flwyddyn ddiweddaf wedi cael eu harwyddo, o herwydd marwolaeth y ddiweddar Gyn-Lywydd. Penderfynwyd ein bod yn dymuno am i'r Parch. Owen Thomas, D.D., wneyd hyny.

XVII. *Y Gymdeithasfa nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i'w chynnal yn y Bala, Mehefin 18, 19, a'r 20fed, dyddiau Mercher, Iau, a Gwener, sef un diwrnod yn ddiweddarach na'r dyddiad a anfonasid gan y Cyfarfod Misol, os bydd y cyfeillion yn y Bala yn gallu gweled eu ffordd yn glir i dderbyn y cyfnewidiad. Yn unol â dymuniad y cyfeirir ato yn Adroddiad Pwyllgor yr Athrofa, penderfynwyd,—Ein bod i neilluduo un cyfarfod yn llwyr yn Nghymdeithasfa y Bala i drafod materion cysylltiedig â'r Athrofa, ac fod Llywydd ac Ysgrifenydd Pwyllgor yr Athrofa i drefnu gyda chyfeillion y Bala yr adeg fwyaf manteisiol i gynnal y cyfarfod hwnw.

XVIII. *Gweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.*—Galwyd sylw at y Penderfyniad o eiddo y Gymdeithasfa a gynnaliwyd yn Mangor, Awst 27—29, 1889, a phenderfynwyd,—Ein bod yn ei gyflwyno i'r Gymanfa Gyffredinol, gyda golwg ar i ni fel Cyfundeb fod mewn cydweithrediad yn ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd.—(Am y penderfyniadau, gwel y Drysorfa am 1889, tu dal. 467, 468.)

XIX. *Y Rheolau Sefydlog.*—Hysbyswyd nad oedd Pwyllgor y Rheolau Sefydlog yn barod gydag Adroddiad, am nad oedd y Pwyllgor wedi gallu cyfarfod.

XX. *Adroddiad Pwyllgor yr Ysgolion Protestanaidd.*—Darllenodd y Parch. H. Roberts, Llanerchymor, Adroddiad y Pwyllgor gyda golwg ar yr Ysgolion hyn. Dangosid fod allan o 1400 o blant sydd yn y cylch, 329 o dan addysg yn yr Ysgolion a gynnorthwyir gan y Gymdeithasfa; fod yr Ysgolion mewn cyflwr llewyrchus, er yr anhawsderau cryfion; y dysgwylir, gydag ychydig o ychwanegiad at yr adnoddau presennol, allu gweithio yn fwy effeithiol eto; y taer ddymunir am i'r Cyfarfodydd Misol anfon eu cyfraniadau yn brydlon; ac fod y Pwyllgor wedi cymeryd i ystyriaeth yr awgrymiadau a roddir yn Adroddiad y Parchn. D. Rowlands, M.A., a T. J. Wheldon, B.A., mewn canlyniad i'w hymweliad â'r Ysgolion ar gais y Gymdeithasfa, ac wedi cydolygu:—(1) Fod ymdrech arbenig yn cael ei gwneyd o du y Pwyllgor i dalu ymweliadau achlysurol â'r Ysgolion. (2) Fod yr Ysgrifenydd mewn cydymgyngoriad â'r Pwyllgor, mor fuan ag y mae modd, yn trefnu amser a chynllun Arholiad Ysgrythyrol blynyddol. (3) Cydolygwyd hefyd, ar awgrymiadau a roddir yn yr Adroddiad, fod rhan bwysig o gylch yr Ysgolion yn sefyll mewn anghen am arolygiaeth ac ymdrech neilltuol; ac yn unol â'r teimlad hwn, penderfynwyd ein bod yn dadgan i'r Gymdeithasfa y byddai yn dra dymunol pe gallai y Gymdeithasfa drefnu fod cysylltiad agosach yn cael ei ffurfio rhwng yr Ysgrifenydd a'r Ysgolion yn arbenigol yn Whitford a Llanasa, sef Gronant a Carmel, dyweder am flwyddyn neu ddwy. Fe allai, fel y barnai rhai, y byddai hyn mor ddymunol a dim er dwyn y lleoedd hyn i ymgymeryd âg arolygiaeth fugeiliol.—Penderfynwyd, — Fod yr Adroddiad yn cael ei gadarnhâu, a'i fod i'w gyhoeddi yn gyflawn yn y Drysorfa, gan ddysgwyl y caiff y sylw dyladwy gan bawb.

(I'w barhâu.)

Bywgraffiaeth.

MRS. MARY JONES, LLANTRISANT.

Anwyl briod ydoedd hi i Mr. John Jones, Bodynolwynhir, yr hon a ymadawodd â'r byd hwn Awst 4ydd, 1889, yn 39 mlwydd oed; ac a gladdwyd yn mynwent Llantrisant Awst yr 8fed, 1889, er gofid mawr i'w theulu, i'r eglwys, ac i bawb a'i hadwaenai; ond iddi hi llawer iawn gwell ydoedd. Er mor dda oedd ei bywyd yma, diau llawer iawn gwell iddi hi. Ac yn ei pherthynas â hi y mae y geiriau hyn yn cael eu hystyr, "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig" (Diar. x. 7).

Merch oedd Mrs. Mary Jones i Thomas ac Ann Owens, Bodynolwynhir. Gwasanaethodd Thomas Owens swydd diacon yn hynod ffyddlawn am 23 o flynyddoedd, yn eglwys Elim, Llanddeusant, ac ennill-odd dystiolaeth gan bawb a'i hadwaenai mai dyn Duw oedd. Fel yna cafodd y chwaer hon ei hanrhydeddu â thad a mam neilduol am eu duwioldeb, yr hyn oedd yn fantais fawr ar gychwyniad bywyd er cael ei hyfforddio â'r esiampl oreu yn mhen ei ffordd; ac wedi tyfu i fyny nid ymadaw-odd â hi.

Yr oedd Mrs. Jones fel aelod yn eglwys Elim yn addurn i grefydd drwy ei hoes. O fel yr oedd yn dangos duwioldeb yn ei theulu gartref! i'r genethod a fyddai yn ei gwasanaeth, y cynghorion a'r esiampl oreu a fyddai yn roi, yn eu dysgu i beidio gwas-traffu eu cyflogau, ond i iawn ddefnyddio eu harian, yn eu dysgu i ddilyn moddion gras a chyfranu at achos crefydd, a hefyd y perygl o fabwysiadu arferion drwg, a'r dylanwad oedd gan gwmpeini, ynghyd a phortreadu iddynt y gwerth o fabwysiadu rhinweddau da. Faint o ddaioni a wnaeth Mrs. Jones yn ei thymmor yn y cyfeiriad hwn i'r genethod a fu yn ei gwasanaeth, ni ellir dyweyd. Hefyd y cynghorion a'r esiampl oreu a fyddai y gweinidogion yn gael, cafodd ei chrefydd y lle a'r cyfleusdra goreu i wneyd daioni yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd yn wastad yn dra gwyliadwrus na chaffai dim ei oddef o fewn cylch ei llyw-odraeth hi a fuasai yn groes i burdeb a rhinwedd. Cyfranogodd y chwaer anwyl hon o'r un ysbryd, ac o'r un penderfyniad a'r Salmydd, "Rhodiaf mewn perffeith-rwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ. Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaid." Ar yr un pryd caniateid digon o ryddid i ddi-grifwch diniwed natur i gael tori allan. Fel yna yr oedd yn frenines ag oedd yn llywodraethu yn ofn Duw Jacob. Ac O! y golled a gafodd ei hanwyl briod, colli gwraig mor rinweddol! un na chai dim golli heb wneyd defnydd o bob peth, un hynod ofalus a gweithgar, un ddoeth, yn llawn llygaid, un o dymher addfwyn, ac o galon hynod garedig. O! fe deimla ei phriod golled a chwithdod golli y fath un, ac wedi ymdaflu mor hollol er ei gysur. Ac O! y golled a gaiff ei brawd Owen Owens, yr hwn oedd yn cydfyw â hwy, ac heb feddu y corff cryfaf, iachaf. Mor deimladwy oedd wrtho, mor dyner ac addfwyn o hono, wedi eu magu gyda'u gilydd, ac heb fod oddiwrth eu gilydd erioed; ac ni welais frawd a chwaer yn fwy anwyl o'u gilydd, yn fwy neilduol am eu gilydd, yn dyner ac yn addfwyn wrth eu gilydd; fe deimla efe golled a chwithdod. A hefyd Mrs. Jane Williams, Ty'nmaen, Llanfigael, pan yn myned i'w hen gartref i edrych am ei chwaer Mrs. Jones, a'i brawd Owen Owens. Yr oedd hi fel ei mam yno yn ei derbyn yn groesawgar, yr oedd y ddwy chwaer yn arw am eu gilydd. Yr oedd yn hapus cael bod yno gyda hwy a'u cael mor anwyl a hoffus yn nghyfeillach eu gilydd. O! na welid hyn yn fwy yn ein gwlad, fel y byddo meddu cymeriadau da yn dyfod yn nod gan y lliaws.

Hefyd fe deimla y teulu hyn chwithdod ar ol eu hanwyl Mary gyda dal i fyny yr allor deuluaidd, ac am ei chymdeithas i fyned a dyfod i'r capel. Yr oedd hi yn ffyddlawn gyda dilyn moddion gras, y cyfarfodydd gweddïau, y cyfarfod eglwysig, a'r Sabboth. Y mae achos crefydd yn Elim wedi cael colled mewn colli chwaer mor anwyl, mor weithgar a ffyddlawn a Mrs. Jones. Os yn athrawes y neilluaid hi, ymgymerai â'r sirioldeb mwyaf. Ac yr oedd ynddi gymhwysder neilduol, ac y mae ei dos-barth wedi cael colled neilduol ei cholli. Yr oedd hi yn un o'r mamau yn Israel gyda threfnu a gweithio y Cyfarfod Misol a'r *tea parties*, a'r cyfarfodydd eraill. Fel y byddai yn trefnu a gwneyd hefyd! Ceid rhai yn barod i drefnu, ond ni wnaent ddim. Ond am y chwaer anwyl hon, pob gwasanaeth a ofynid iddi hi ymgymerai âg ef â'r sirioldeb mwyaf, yr hyn sydd yn deilwng o sylw neilduol,—y sirioldeb, y parodrwydd, i ymgymeryd â phob peth, a hefyd peidio cymeryd tramgwydd. Erioed ni welwyd Mrs. Jones wedi tramgwyddo yn herwydd iddi beidio cael ei gweled, neu rhy fach o barch; a'r oll a wnai hi gwnai ef â'r deheurwydd mwyaf. Yr oedd wedi ei chynnysgaeddu â doethineb a gallu a chariad at Iesu Grist a'i achos lonaid ei chalon, fel nad oedd dim yn rhy fach, nac yn ormod, dros yr Iesu ganddi wneyd. O mor agos at ei chalon oedd achos crefydd! Pan y byddem yn galw yno ar adegau mae adgofion yn dyfod yn fyw ger ein bron wrth ymgymeryd â hyn o orchwyl—ei dull croesawgar a siriol, a phob amser achos crefydd yn Elim ddeuai i gylch yr ymddy-ddan rhyngom. Gwyn fyd na welid hyn yn fwy yn ein plith, onidê?

Ond yn fyr, ni a nodwn un neu ddau o'r ffurfiau ar weithgarwch Mrs. Jones. 1. Ei hymdrech i ennill esgeuluswyr moddion gras i swn yr efengyl. Ac yr oedd ei doethineb, ei phwyll, ei chydymdeimlad a'i phenderfyniad yn elfenau grymus yn ei llwyddiant yn y cyfeiriad hwn. A gwnaeth yn ddystaw wasanaeth mawr dros ei Duw, a lles i eneidiau dynion.

2. Ymweled â theuluoedd galarus a phrofedigaethus, cleifion, tlodion, gweddwon ac amddifaid; ac os wedi chwilio i fewn y câi fod yno anghen a chaledi, yr oedd ei chalon yn llawn tosturi. Nid yn unig cyfranai ei hun yn ddystaw, ond hefyd gwasgai y ddyledswydd arnom i gyfarfod â'r cyfryw yn eu hanghen a'u caledi, a gwnaeth wasanaeth mawr dros ei Duw yn y cyfeiriad hwn eto; fel y gellir dyweyd, "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth."

Ond er ein galar nid yw i'w chael; y mae hi wedi myned i ffordd yr holl ddaear, a'i lle nid edwyn ddim o honi mwy. A gellir cymhwyso y geiriau hyn ati, "Da, was da a ffyddlawn, buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

"Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd
Sy 'n myn'd o blith y byw;
Eu henwau 'n perarogli sydd,
A'u hûn, mor dawel yw!"

CYFAILL O ELIM.

MR. JOHN EVANS, LECKWITH ROAD, CANTON, CAERDYDD.

Gan y Parch. W. JONES, *Canton.*

HIR ddysgwyliwyd y daethai rhywun o gyfoedion Mr. Evans i roi ychydig o'i hanes, y rhai a feddent lawer gwell mantais na ni i wneyd hyny, ond yn hyn fe'n siomwyd. Ond er nad yw ein gwybodaeth ni am dano ond cymharol fyr, eto yr ydym yn llwyr argyhoeddedig o fawr werth ei gymeriad fel Cristion a swyddog eglwysig ffyddlawn yn yr eglwys y perthynai iddi; y byddai yn gaan â'r byd a'r eglwys i ollwng cymeriad mor dda i syrthio i ebargofiant heb fod un sylw yn cael ei wneyd o hono.

Mae yn debyg mai brodor o Sir fawr a chrefyddol Caerfyrddin ydoedd, i'r hon mae nid yn unig Sir Forganwg ond siroedd eraill Cymru yn dra dyledus am y cewri o ddynion gwir rinweddol a fagodd iddynt.

Yr oedd Mr. John Evans yn fab i Mr. David a Mary Evans o'r Sychnant Isaf yn mhlwyf Llanedi, y rhai oeddent yn Fethodistiaid o'r iawn ryw, ac yn Gristionogion trwyadl a dysglaer, y rhai a symudasant i fyw i'r dref hon tua'r flwyddyn 1839.

Bu ei dad yn ddiacon gweithgar yn hen eglwys glodwiw Capel Seion, Caerdydd, am flynyddau, a deallwn fod gwrthddrych hyn o sylw wedi ei ddwyn i fyny o'i febyd yn grefyddol, ac yn meddu ar deimladau crefyddol dwys er yn foreu; eto mai yn Nghapel Seion y cymerodd ei le fel aelod, yr hyn gynnyrchodd lawenydd nid bychan yn meddyliau y rhai a'i hadwaenent, canys edrychent arno fel "Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll," ac y gallent yn gryf obeithio llawer o wasanaeth oddiwrtho yn y dyfodol; a buan y cawsant brawf boddhaol o'u dysgwyliad yn ei gysondeb yn dilyn pob moddion o ras a'i weithgarwch yn yr Ysgol Sabbothol. A diau genym fod hen seintiau llygadgraff Hen Gapel Seion, ac yn arbenig felly yr Hybarch Evan Morgan a'i frawd Thomas, ynghyd a Thomas Siôn, David Lewis, ac eraill, yn hollol gywir yn eu dysgwyliad. Wedi i Mr. John Evans briodi â Miss Mary Lewis, merch Mr. David Lewis (un o'r diaconiaid), ar ol rhyw gymaint o amser daethant i fyw i Ganton. Cawsant deulu mawr o blant, o ba rai y mae y rhan fwyaf yn fyw. Y mae yn ddiau genym fod yn mywyd crefyddol ein hanwyl frawd lawer o nodweddau gwir ganmoladwy, y rhai y byddai yn dda i lawer o swyddogion ein heglwysi i'w hefelychu. Yr oedd yn un tra hynod fel gwrandawr yr efengyl, ac er ei fod ef yn dra hoff o wrando doniau, eto credwn mai gwrandawr yr efengyl ydoedd. Yr oedd bob amser yn gyson a phrydlawn yn y moddion, ac yn wastad yn astud yn gwrando, ac fel y Bereaid yn ymddangos yn barod i roi v derbyniad parotaf i'r gwirionedd; eto fel hwythau chwiliai beunydd yr Ysgrythyrau i gael gwybod a oedd y pethau hyn felly. Yr oedd yr olwg arno yn gwrando yn gefnogol iawn i'r gweinidog—y ddau lygad mawr hyny â'r dagrau gloewon yn eu llanw, nes rhedeg yn ffrydiau tros ei ruddiau, ac yn enwedig ei Amen gynhes (y rhai erbyn hyn sy'n myned yn brinion iawn) yn dra swynol. Yr oedd yn ddarllenwr mawr o'i Fibl, ac yn gyfarwydd iawn ynddo. Dangosodd hefyd ei fod yn meddu ar lawer o gymhwysderau i fod yn athraw yn yr Ysgol Sabbothol, yr hon swydd a lanwodd gyda ffyddlondeb a chymeradwyaeth mawr. Yr oedd yn caru ei ddosbarth yn fawr, a gofalai i wneyd darpariaeth briodol ar eu cyfer erbyn pob Sabboth, a hyny am lawer o flynyddoedd. Ymdrechai yn wastad i wneyd i'r gwirioneddau a ddarllenai i wneyd argraff ddofn ar feddyliau y dosbarth, ac nid treulio yr amser i olrhain geiriau ac achau anorphen, y rhai nad ydynt fuddiol. Ac ar ddiwrnod ei angladd dangosodd ei ddosbarth eu parch hwythau i'w hen athraw, trwy ddymuno cael bod yn bresennol a chael rhoi eu hysgwydd o dan ei arch wrth ei gludo i dŷ ei hir gartref. Yr oedd Mr. Evans yn ddiacon yn eglwys Canton, yr hon swydd a wasanaethodd gyda medr a ffyddlondeb mawr am flynyddoedd, ac amlwg oedd i bawb fod ganddo gariad mawr at a gofal mawr am yr achos yn ei holl ranau; ac yn y Cyfarfodydd Eglwysig, er ei fod yn meddu ar lawer o ddawn siarad, eto ni byddai un amser yn eu blino hwy. Yr oedd hefyd yn meddu ar lawer o gymhwysder i ddwyn i sylw y frawdoliaeth rhyw ran o'r gwirionedd yr ystyriai ef fod eisieu sylw arno, neu rhyw ddarnau o bregethau a fyddai wedi eu gwrando yn ddiweddar ag y teimlai yn briodol eu dwyn ar gof i'r cyfeillion. Ac ni byddai un amser yn siarad er mwyn siarad, nac yn hoff o adrodd chwedlau dibwys a gwag; ond geiriau gwirionedd a sobrwydd a fyddai y rhai hyny fel halen yn tueddu i beri gras i'r gwrandawyr. Yr oedd yn ddyn profiadol iawn yn hyn, ac â llygad craffus i weled ac adnabod hyny yn eraill.

Yr oedd hefyd yn meddu ar lawer o ddawn gweddi; ac amlwg oedd mai nid llafurio am eiriau cymhwys y byddai, ond mwy tebyg i Job pan yn dywedyd, "O na wyddwn pa le y cawn ef," ac felly yr ydym yn credu am ein hanwyl frawd hwn. A llawer gwaith y gwelsom ef yn debyg i'r publican, gyda gwir ostyngeiddrwydd ac adnabyddiaeth helaeth o hono ei hun, yn taer ymbilio am iachawdwriaeth. Yn y gweinyddiad o'i swydd fel diacon yr oedd yn hynod o ofalus a pharod i ymweled â'r cleifion a'r tlodion a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, ac nid myned i ymweled â hwynt fel y dywedai Iago, "Ymdwymnwch ac ymddilledwch, heb roi dim iddynt," ond byddai ganddo ef rywbeth i'w roi iddynt; a chredu yr ydym fod Mr. Evans yn meddu ar gymeriad ag oedd yn rhoi iddo hawl i air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Fel prawf o hyny trodd un atom cyn ymadael â'r gladdfa gan ddyweyd, "Yr ydych wedi claddu heddyw un o'r dynion goreu yn Canton. Dyn rhonc oedd John Evans." Ond er ei holl rinweddau yr ydym yn amddifad o hono; ac er edrych am dano yn ei deulu, nid yw efe yno; ac edrych i'r gornel, mae'r gadair yn wag; y dosbarth, y cyfarfod gweddi, cyfarfodydd yr eglwys, y maent oll yn wag. Ond er fod ei ymadawiad yn golled fawr i ni, yr ydym yn cwbl gredu ei fod yn ennill tragywyddol iddo ef. Cafodd gystudd blin a phoenus, ond yr hyn a ddyoddefodd yn amyneddgar a dystaw; ac nid yw hyny yn rhyfedd genym, canys yr oedd yn mwynhau yn helaeth o orfoleddd yr iachawdwriaeth. A phan ddaeth yr awr i ymadael, ymostyngodd yn dawel i ewyllys Duw, gan ymollwng mewn tangnefedd i ddwylaw ei Brynwr.

Yr oedd yn ei angladd dyrfa o'i hen gyfeillion, o bell ac agos, i ddangos eu parch diffuant i'w goffadwriaeth. Claddwyd ef yn Nghladdfa Eglwys Gadeiriol Llandaff. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. W. Jones, Canton, yn ol y gyfraith newydd.

Lloffion.

CRIST YN APOSTOL AC ARCHOFFEIRIAD.

YSTYR yr ymadrodd gwreiddiol ydyw "yr hwn sydd yn Apostol ac Archoffeiriaid." Golyga yr awdwr fod eraill yn apostolion, ac eraill yn archoffeiriaid, ond mai Iesu yn unig sydd yn llanw y ddwy swydd; ac o herwydd hyny efe yn unig sydd, yn yr ystyr uwchaf, yn Apostol—ac efe yn unig sydd, yn yr ystyr uwchaf, yn Archoffeiriad. Yr hwn sydd yn anfonedig oddiwrth Dduw ac yn dadguddio Duw yw y gwir Archoffeiriad, a'r hwn sydd yn gweini dros ddynion ger bron Duw yw y gwir Apostol. Fel Apostol ein cyffes, rhagora ar yr angylion, yn gymaint a'i fod yn Fab Duw, yn ol ymresymiad y bennod gyntaf. Fel Archoffeiriad ein cyffes, rhagora ar yr angylion, yn gymaint a'i fod yn gynnrychiolydd dyn, yn ol ymresymiad yr ail bennod. Nid yw yr awdwr yn unman yn galw ei hun yn Apostol. A fuasai Paul yn peidio? Ond awdwr yr Epistol hwn yn unig o holl ysgrifenwyr y Testament Newydd sydd yn galw Crist yn Apostol Y mae hyn yn hollol naturiol mewn un nad oedd yn apostol ei hun. Tra yr edrychai yr apostolion, y rhai a anfonasid yn uniongyrchol gan Grist ei hun, ar Grist fel anfonydd yn hytrach nag fel yr anfonedig, ymddangosai Crist i'r rhai a ddeuent ar ol yr apostolion yn fwy fel anfonedig Duw. Gwel Ioan xx. 27. Yr oedd ei alw yn Apostol yn weddus ynddynt hwy, ond buasai yn ymddangos yn rhy debyg i ddarostyngiad ar Grist i'r un sefyllfa â hwy eu hunain, pe galwai yr apostolion ef yn Apostol. Y mae hyn eto yn tueddu i ddangos mai nid apostol yw awdwr y llythyr.—*Principal* EDWARDS ar yr Epistol at yr Hebreaid.

TAWELWCH Y GALLU DWYFOL.

YR ydwyf wedi meddwl rai gweithiau fod gallu mwyaf Duw i'w weled oreu yn ei waith yn deffroi ysbryd dyn yn y modd mwyaf dystaw. Felly y mae mewn pethau naturiol; cwrs dyddiol y ddaear, yn ddystaw a sicr, heb un ysgytiad na llam sydyn; felly hefyd yn yr holl actau ar y rhai y mae ein bywyd yn ymddibynu. Y mae Duw yn gweithredu yn yr oll o'r rhai hyn yn uniongyrchol. Pe buasai ein hactau bywydol (megys anadlu, cylchrediad y gwaed, &c.) yn sefyll ar ein hewyllys ni ein hunain, ni byddem fyw am foment. Paham y byddai yn wahanol o fewn y cylch ysbrydol, lle y mae yr enaid yn fynych yn deffro yn dawel ar gyffyrddiad Duw? Na foed i ni byth ddychymygu fod cyfnewidiadau trystfawr, cynhyrfiadau tymhestlog yr ewyllys, yn dadguddio ei bresennoldeb Ef yn fwy nodedig na sibrydion tyner ei lais. Nid yw Efe yn nebpell oddiwrth neb o honom; canys *ynddo Ef yr ydym yn bod*.—DR. DUNCAN yn y *Colloquia Peripatetica*.

YR AMRYWIOL EILUNOD.

DYWED Bacon fod pedwar math o Eilunod yn amgylchynu y meddwl dynol. [Nid eilunddwiau oedd ystyr y gair gan Bacon, medd Hallam, and lledrith, twyll, hudoliaeth; er fod Brown, Playfair, a Stewart yn rhoddi yr ystyr arall i'r gair.] 1. Eilunod y Llwyth: y mae y rhai hyn yn perthyn i natur dyn. 2. Eilunod y Ffau: perthyna y rhai hyn i neilldnolion y dyn unigol. 3. Eilunod y Farchnadfa: cwyd y rhai hyn o ymwneyd dynion â'u gilydd trwy iaith, cymdeithas a masnach. 4. Eilunod y Chwareufa: tardd y rhai hyn o wahanol gyfundraethau o athroniaeth ac opiniynau dynion.

GEIRIAU Y DOETHION.

YR ydym yn farw i ddoe, ac heb ein geni i yfory.

Y mae Natur yn rhoddi yr hyn sydd yn wir anghenrheidiol.

Pan oedd Socrates yn edrych ar lwyth o drysorau gwerthfawr yn cael eu cludo trwy yr heolydd gyda rhwysg, dyna a ddywedodd, "Gymaint o bethau sydd nad oes arnaf eu heisieu!"

Nis gall yr enaid wneyd heb gariad. Y mae fel y winwydden yn marw os na cha rywbeth i'w gofleidio.

Yr ydym yn addaw yn ol ein gobeithion, ond yn cyflawni yn ol ein hofnau.

MARWOLAETH Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Mae genym y mis hwn y gorchwyl pruddaidd o groniclo marwolaeth ein hanwyl a'n ffyddlawn Genadwr, y Parch. T. Jerman Jones, un y mae ei lythyrau wedi bod yn cael eu darllen gyda blas gan dderbynwyr y Drysorfa er ys ugain mlynedd. Chwith iawn fydd gan lawer o honynt feddwl na dderbynir byth eto oddiwrtho yr adroddiadau cynhes am y gwaith, y desgrifiadau o'i deithiau Cenadol, y cyfarfodydd pregethu a'r dychweledigion brodorol, sydd wedi eu galluogi i ffurfio syniad mor fywiog am Khasia a'r gwaith sydd yn myned ymlaen yno. Fel y crybwyllwyd yn ein rhifyn diweddaf, yr oedd Mr. Jones, yn ol annogaeth Dr. Campbell, meddyg y Llywodraeth yn Shillong, ar gychwyn adref. Dyma hefyd, y mae yn ymddangos, oedd cynghor Dr. Hughes. Ar y 22ain o Dachwedd diweddaf, ysgrifenai Mr. Jerman Jones fod Dr. Campbell yn dyweyd na byddai i ddim ei wella ond cyfnewidiad a gorphwys, "a dywed," meddai, "os na bydd i mi gymeryd cyfnewidiad yn y Gwanwyn na byddaf dda i ddim yr haf nesaf, ond y bydd i gyfnewidiad am ddeunaw mis, dan fendith Duw, fy adfer yn gwbl, fel y gallwyf fyned ymlaen i lafurio yn y gwaith am flynyddoedd eto. Os rhaid i mi adael yma yn Chwefror neu Mawrth, brwydr galed a fydd, a phrofedigaeth a siomedigaeth fawr, gan fy mod yn meddwl myned ymlaen am ddwy neu dair blynedd yn hwy cyn gadael y gwaith am dymmor. Ond teimlaf yn awr nad oes genyf nerth i deithio y gauaf hwn, fel yr arferwn wneyd y blynyddoedd o'r blaen, os na byddaf yn teimlo yn llawer cryfach yn Rhagfyr; ac felly byddaf, er yn dra anewyllysgar, dan orfod i roddi i fyny y teithiau hirion hyny y gauaf hwn, a cheir gweled pa fodd y byddaf yn teimlo yn Ionawr." Ar ol hyn derbyniwyd oddiwrtho lythyr dyddiedig Tachwedd y 25ain, yn rhoddi hanes agoriad capel Myllim, a rhai teithiau a gymerasai y mis blaenorol. Aeth i Shangpoong i gyfarfod yr Henaduriaeth yn nechreu Rhagfyr, a chan na chafwyd gair yn un o lythyrau y Cenadon yn cyfeirio at sefyllfa ei iechyd, nac yn y llythyr oddiwrtho yntau, dyddiedig Rhagfyr 26ain, ymha un y rhoddai hanes yr Henaduriaeth, yr oeddys yn gobeithio fod yr hin oer yn cael yr argraff a ddysgwylid ganddo ar ei iechyd. Derbyniwyd oddiwrtho amryw lythyrau wedi eu hysgrifenu yn mis Ionawr, ond nid ydyw yn un o honynt yn cyfeirio at sefyllfa ei iechyd. Erbyn mis Chwefror y mae yn ymddangos ei fod wedi myned gryn lawer yn waeth, oblegyd ar y 13eg o'r mis hwnw ysgrifenai, "Drwg genyf fod sefyllfa fy iechyd yn gyfryw fel yr wyf dan orfod i ofyn caniatâd y Cyfarwyddwyr i ddyfod adref am ddeuddeg neu ddeunaw mis mor fuan ag y bydd yr Henaduriaeth drosodd (Mawrth 23). Dyma gynghor Dr. Hughes a Dr. Campbell. Anfonir eu *certificates* yr wythnos nesaf. Annogant fi i gymeryd y cam hwn fel yr unig foddion, dan fendith Duw, i adferu fy iechyd. Yr wyf wedi ymladd yn ei erbyn a cheisio ymhob ffordd, ond yr wyf yn gorfod rhoddi i fyny. Dywed y meddygon y bydd i gyfnewidiad trwyadl a gorphwys fy adferu i fy iechyd yn hollol, a'm gwneyd yn gymhwys i waith eto am nifer da o flynyddoedd; ond os arosaf yma flwyddyn eto, na byddaf yn gymhwys i waith yn y byd, y byddai i'm hiechyd dori i lawr yn gwbl yn y tymmor poeth. Felly hyderaf y bydd i'r Cyfarwyddwyr yn garedig ganiatâu i mi ryddid am ddeuddeg neu ddeunaw mis, a gobeithiaf y bydd i'r cyfnewidiad fy adfer i'm hiechyd arferol. Drwg genyf adael y gwaith yma ar hyn o bryd, ond byddai yn ddwbl ddrwg genyf fod yma a bod heb allu gwneyd dim." Ar yr un adeg clywsom oddiwrth Mr. Braddon, un o swyddogion y Llywodraeth oedd newydd ddychwelyd o Shillong, fod Mr. Jones yn gwaelu yn fawr, ac fod yn bwysig iddo ddychwelyd yn fuan. Ar dderbyniad y llythyrau hyn, anfonwyd *telegram*, Mawrth 13eg, "Dychwelwch ar unwaith, heb aros am yr Henaduriaeth." Ond yr oedd Mr. a Mrs. Jones, fel yr oedd yn dda genym wedi hyny ddeall, eisoes wedi gadael y Bryniau naw niwrnod yn flaenorol. Ysgrifenai Mr. Jones ar yr 21ain o Chwefror fel y canlyn, a dyma y llythyr diweddaf a dderbyniwyd oddiwrtho:—

"Shillong, 21 Feb., 1890.

"My Dear Friend,—Kindly forward the enclosed to Mr. D. Hughes. Enclosed please find the certificates of Dr. Hughes and Dr. Campbell. We intend to leave Shillong on the 4th or 5th March, and Calcutta on the 12th, in the 'Clan Matheson.' Mr. Roberts has come here and will stay here, it may be, till we leave. Dr. Campbell told me this morning not to do anything, but to take perfect rest in order to husband my strength, so as to be able to bear the fatigue of the journey down to Calcutta. I have become very weak, and unable to swallow a morsel of solid food, only a little broth, &c."

Yna rhydd awgrymiadau gyda golwg ar y trefniadau i'w gwneyd yn ei absennoldeb. Aeth Dr. Hughes i lawr gydag ef i Calcutta, a derbyniwyd oddiwrtho oddiyno y llinellau canlynol, dyddiedig Mawrth 12fed:—

"Mr. Jerman Jones is now on his way home to England, and is accompanied by Mrs. Jones. His health has been thoroughly shattered, and his condition is very precarious, so much so, indeed, that Dr. Campbell and I considered it absolutely necessary that he should not be left an hour without medical attendance. I have, therefore, brought him down to Calcutta, and have left him in charge of the ship-surgeon. I return immediately to the Hills. Dr. Campbell and I wish to lay

great emphasis on this,—Mr. Jones must not be allowed to preach, or address any public assembly for a period of at least nine months, if he be spared. He should make a very considerable stay in England, and have perfect rest."

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mrs. Jones o'r Môr Coch, wedi ei ysgrifenu ychydig cyn i'r agerlong gyrhaedd Suez, yn hysbysu fod ei phriod yn wanaidd iawn, a'u bod oll yn ofni, dros ystod y ddeuddydd blaenorol, ei fod yn eu gadael. Gan nad oedd yn alluog i gymeryd dim maeth, gwanychai o ddydd i ddydd. Yn foreu ddydd Mawrth, Ebrill y 15fed, daeth yr agerlong i fyny afon Llundain, gyda'r *flag* yn *half-mast*, a phan aeth ei frawd yn nghyfraith, Mr. John Jones, ar fwrdd y llestr, a'r Ysgrifenydd yn fuan wedi hyny, cawsant Mrs. Jones wedi ei gadael yn unig; yr oedd ei hanwyl briod wedi ehedeg ymaith er dau o'r gloch y dydd blaenorol, sef dydd Llun, Ebrill 14eg, pan oedd y llong rhyw ddwy filldir y tu allan i Dungeness. Daeth Mr. Edwards, High Street, Marylebone, a Miss Edwards, ynghyd a'r Parch. Francis Jones a'r Parch. Ellis James Jones i lawr i Tilbury, a rhoddasant yn garedig bob cynnorthwy yn eu gallu yn yr amgylchiadau profedigaethus. Cafodd Mrs. Jones nerth rhyfedd i weini ar ei hanwyl briod i'r diwedd, a derbyniodd bob caredigrwydd oddiar law Captain Beer, meistr y llong, y meddyg, a'r swyddogion a'r cyd-deithwyr. Yn hwyr nos Fawrth dygwyd yr hyn oedd farwol o'n hanwyl gyfaill i Liverpool, i dŷ ei frawd yn nghyfraith, Albert Park, a dydd Gwener, ar ol gwasanaeth yn nghapel Chatham Street, rhoddwyd ei gorff i orwedd yn mynwent Smithdown Road. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth yn y capel ac wrth y bedd gan y Parchn. O. Jones, B.A., D. Williams, Josiah Thomas, M.A., Dr. Griffiths, Dr. Owen Thomas, Hugh Jones, G. Ellis, M.A., a J. P. Davies, M.A., Caer.

LLYTHYRAU ODDIWRTH Y CENADON.

Mawrth y 4ydd ysgrifenai y Parch. R. Evans, o Shillong:—"Dim ond gair yn frysiog cyn cychwyn i Jaintia. Daethum yma ddydd Sadwrn i ffarwelio â Mr. Jerman Jones. Aeth ef a Mrs. Jones, yn nghwmni Dr. Hughes, oddiyma y boreu heddyw. Drwg iawn oedd genym weled Mr. Jones yn edrych mor wael. Edrychai weithiau can wyned â chalch. Bydd y daith heddyw i Gowhati yn bur boenus iddo. Yr ydym yn gobeithio ac yn gweddïo y cedwir ei nerth nes cyrhaedd Lloegr. Cynaliodd pobl Shillong amryw gyfarfodydd er dydd Sadwrn, i ddangos eu teimlad da tuag ato."

Ysgrifenai y Parch. John Roberts, Chwefror y 18fed:—"Y fory byddaf yn cychwyn am Shillong, er mwyn myned i lawr tua Nongpoh, a lleoedd eraill yn nos barth Shillong, i fedyddio a rhoddi yr ordinhad o Swper yr Arglwydd i'r Cristionogion, y rhai sydd hebddi er ys dros flwyddyn. Ymddengys fod Mr. Jones wedi meddwl ceisio myned y gauaf hwn, ond y mae gryn lawer yn waeth nag y bu; ac y mae wedi gofyn i mi fyned yn ei le; ac er fy mod yn bur brysur, nis gallaf wrthod. Neithiwr clywais oddiwrtho ei fod yn cychwyn adref tua'r 1leg o Fawrth. Yr oeddwn wedi anfon ato i'w annog i fyned adref ar unwaith, ac y mae yn dda genyf ei fod yn myned, ac nid yn aros hyd y *Presbytery*.

Ar ddiwedd llythyr dyddiedig Mawrth y 5ed, yn yr hwn y crybwylla am daith o ddeuddeg diwrnod a gymerasai, dywed Mr. Stephens: "Yr oedd yn syndod mawr genyf ddeall ddoe fod Mr. Jerman Jones wedi cychwyn ar unwaith i Ewrop, yn nghwmni Dr. Hughes i Calcutta. Yr ydym yn ddidwyll yn hyderu y bydd i'r fordaith, gyda gofal a gorphwys gartref, fod yn foddion i'w adferu yn fuan i raddau o'i iechyd arferol."

Mawrth 1af, ysgrifenai y Parch. W. Williams, Shella: "Drwg iawn genyf fod Mr. Jerman Jones dan orfod i ymadael, a hyny yn fuan, o herwydd gwaeledd iechyd. Gobeithiaf y bydd i'r fordaith a'r hinsawdd gartref fod yn foddion i'w adfer yn fuan i iechyd, fel y byddo iddo allu dyfod yn ol i'r maes llafur sydd mor agos at ei galon, ac yn yr hwn y mae yr Arglwydd wedi benddithio yn *helaeth* ei lafurus gariad. Ni welodd Bryniau Khasia erioed *Genadwr* mwy. Mae Mr. Jerman Jones yn sicr yn 'born missionary.' Cofiaf yn dda ei gynghor tadol i mi pan y daethum i'r wlad. Pan y siaradai am y brodorion dywedai, 'Ymddiriedwch ynddynt.' Ymddiried ynddynt a bod yn dirion wrthynt yw yr allweddau i'w calonau."

Mawrth y 5ed, ysgrifenai y Parch. John Jones: "Daethum yma wythnos i heddyw er cymeryd lle Mr. Jerman Jones, gan ei fod yn wael ei iechyd a than orfodaeth i ddyfod gartref o herwydd ei waeledd. Dangoswyd *llawer iawn* o gydymdeimlad a *llawer iawn* o ofid gan y brodorion, yn Gristionogion a phaganiaid, fod Mr. a Mrs. Jones dan orfodaeth i ddychwelyd gartref. Gweddïant a hyderant oll y caiff Mr. Jones adferiad buan fel y gallo ddychwelyd yn ol i faes ei lafur. Hyn yw ein gweddi a'n dymuniad ninnau oll fel cenadon ar ran ein hanwyl frawd."

Y CYFEISTEDDFOD CENADOL.

Yn nghyfarfod Cyfeisteddfod Gweithiol y Genadaeth a gynnaliwyd nos Fercher yr 16eg o Ebrill, Mr. J. Griffith yn y gadair, wedi i'r Ysgrifenydd roddi yr hysbysrwydd pruddaidd am farwolaeth y Parch. T. Jerman Jones, ar gynnygiad y Parch. O. Jones, B.A., a chefnogiad y Parch. H. Jones, pas iwyd y penderfyniad a ganlyn:—"Ein bod yn dymuno dadgan ein galar dwys o herwydd y golled y mae ein Cenadaeth Dramor a'n Cyfundeb wedi ei phrofi yn marwolaeth ein hanwyl frawd, y ffyddlon weinidog a'r cenadwr ymroddgar, y Parch. T. Jerman Jones, a hyny pan yr oeddym yn

tybied ein bod ar fin profi y llawenydd o'i groesawu ef a'i briod eto i'n plith.

"Ein bod hefyd yn dymuno dadgan cydymdeimlad dyfnaf â'n hanwyl chwaer ei briod yn y brofedigaeth chwerw iawn o'i golli pan yn mron a chyrhaedd cartref, a'n diolchgarwch am y nerth a estynwyd iddi i weini arno yn ddibaid trwy holl ystod y daith ar dir a môr, gan weddïo ar iddi gael bod i barhau yn nghysgod yr un nodded ac o dan yr un amddiffyn.

"Ein bod hefyd yn dymuno dadgan ein cydymdeimlad â'r Cenadon sydd yn aros eto ar y maes, ac â'r holl eglwysi ar y Bryniau,—llawer o'r rhai ydynt yn blant iddo yn yr efengyl,—am na chânt weled ei wyneb ef mwy yn y cnawd yn eu plith, na mwynhau dim yn ychwaneg o'i lafur gwerthfawr a'i arweiniad dyogel.

Teimlwn rwymau i gydnabod yr Arglwydd yn ddiolchgar am y gwasanaeth mawr a phwysig y galluogwyd ein brawd i'w roddi i'w Deyrnas Ef mewn cysylltiad â'n Cenadaeth Dramor yn Khasia am yr ysbaid maith o ugain mlynedd; am y doniau y cynnysgaeddwyd ef â hwynt, am y gras mawr oedd yn prydferthu ei gymeriad, am yr hunanymwadiad y nerthwyd ef i'w ymarfer i lesoli eraill ar draul gosod ei einioes ei hun mewn enbydrwydd, am y dyfalbarhad a ddangosodd mewn llafur ac ymdrech i ddwyn eneidiau i afael Iachawdwriaeth, a'r llwyddiant â pha un y coronwyd y cwbl. Attolygwn arno Ef, Arglwydd y cynhauaf, i anfon eto weithwyr i'w gynhauaf, o gyffelyb ysbryd i'n brawd sydd wedi ei gymeryd oddiwrth ei waith at ei wobr, gan gydnabod ei hawl Ef i gymeryd ei was ffyddlawn gartref ato ei hun."

CYMDEITHASFA DEHEUDIR CYMRU.

Yn fuan ar ol i'r agerlong gyrhaedd, anfonwyd *telegram* o Tilbury i Gymdeithasfa y Deheudir, yr hon oedd yn ymgynnulledig ar y pryd yn Crughywel, a derbyniwyd yr atebiad a ganlyn:—"Er fod y Parchedig Jerman Jones wedi myned i dderbyn cymeradwyaeth a gwobr ei Feistr, buasai yn ddymunol genym allu cael ei wasanaeth yma yn hwy. Derbyniwyd yr hysbysrwydd am ei ymadawiad gan y Gymdeithasfa gyda galar dwys. Bydded i'w weddw anwyl deimlo yn sicr ein bod yn cydymdeimlo â hi, ac yn gweddïo drosti." Rhoddwyd ar Ysgrifenydd y Gymdeithasfa hefyd i ysgrifenu llythyr at Ysgrifenydd y Genadaeth, a darllenwyd ef yn y gwasanaeth angladdol yn Nghapel Chatham Street.

DOSBARTH SHELLA.

Llythyr oddiwrth y Parch. W. Williams.

Mawrth 11eg, 1890.

Yn ystod yr wythnosau diweddaf bum yn ymweled âg amryw o bentrefi y dyffryn yma.

Nongwar. Yr oeddwn yno ar yr un Sabboth â Mr. Ceredig Evans. Danfonwyd ef ynghyd a blaenor o Cherra gan yr Henaduriaeth i gynorthwyo yr eglwys i ddewis blaenoriaid. Dewiswyd tri. Cafwyd Sabboth dymunol a chynulleidfaoedd da. Cyfranogwyd o Swper yr Arglwydd a bedyddiwyd dau blentyn. Yn min yr hwyr cafwyd cyfarfod yn yr awyr agored yn nghanol y pentref, pryd y siaradodd tri o'r brodorion yn rhagorol o dda. Yr oedd un o honynt, U Bin, brodor o Nongwar, yr hwn sydd yn athraw ar hyn o bryd yn Maram, yn llefaru gyda chryn lawer o hyawdledd. Bychan ydyw o gorff, ond y mae ganddo ben mawr a llais cryf. Y mae yn ymddangos i mi ei fod wedi cael ei eni i fod yn bregethwr. Wedi ei glywed yn pregethu yn Laitkynsew yr haf diweddaf galwyd ef gan un o'r Cristionogion yno yn Dr. Watts! Synwyd fi yn fawr bod yno ddyn yn gwybod dim am Dr. Watts.

Tynger a Dewsaw. Treuliais Sabboth yn y pentrefi hyn. Cafwyd cynnulleidfaoedd rhagorol. Bedyddiwyd deunaw—13 mewn oed a 5 o blant, a chyfranogodd 13 o Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf yn eu bywyd. Y mae y pentrefi hyn o dan ofal U Ksan.

Tynrong. Yr oedd yno dros 150 yn bresennol yn y cyfarfodydd y Sabboth yr oeddwn yno. Bedyddiwyd tri—un o Umtiang, un o Mawrap, ac un o Nonglyngkin, a chyfranogodd pump o'r newydd o Swper yr Arglwydd.

O Tynrong aethpwyd i Nongshlwyd, i fyny yr ochr arall i'r dyffryn. Taith flinderus a pheryglus i raddau ydyw hon. Nid oes yno yr un ffordd, dim ond ffordd neu "lwybr anialwch" (*lynti khlaw*) ys dywed y bobl. Y mae ysgol wedi ei chychwyn yn Nongshlwyd er ys tua blwyddyn, ac y mae gwedd lewyrchus arni. Y mae yno tua deg wedi dysgu darllen yn dda, ac yn eu plith y mae y *Sirdar* (Penaeth) a'i frawd. Gobeithio y gwelir rhai o honynt yn dyfod drosodd at Gristionogaeth heb fod yn hir. Dyma ydyw ein gweddi a'n dymuniad. Cynnaliwyd yno ddau gyfarfod, un y noson y cyrhaeddwyd yno, a boreu drannoeth cyn cychwyn. Yr oedd y bobl yn dyweyd wrthyf fod yno lawer iawn o eirth, a'r rhai hyny "yn fawr fel gwartheg," yn cartrefu yn y gymydogaeth. Ni welodd pobl y pentref hwn yr un dyn gwŷn o'r blaen. Yr oedd ein mynediad i'r pentref hwn, ynghyd a phentref o'r enw Synnai (nid Sinai, pentref arall ydyw hwn yn ymyl Tynger) yn tynu cryn lawer o sylw, gan fod y plant yn gweled dyn gwŷn am y tro cyntaf yn eu bywyd. Y mae yna athraw rhwng Nongshlwyd a Synnai. Y mae amryw o'r plant yn Synnai hefyd wedi myned trwy y llyfr cyntaf a'r Catecism. Cynnaliwyd cyfarfod i bregethu yno hefyd.

O Synnai daethpwyd i Lyngkom, pentref yn ymyl Tynger, lle y mae ysgol, a chynnaliwyd cyfarfod i bregethu yno hanner dydd, pryd y daeth cryn lawer ynghyd.

Y mae y *Presbytery* wrth y drws. Peth diflas iawn fydd *Presbytery*, a hyny yn

Shillong, heb Mr. a Mrs. Jerman Jones. Prysured yr Arglwydd eu dyfodiad yn ol ydyw ein gweddi ni oll yma. Ar ol y *Presbytery* bwriadaf fyned i Maram am ychydig ddyddiau, ac y mae Mr. Ceredig Evans wedi addaw dyfod gyda mi. Y mae yna amryw o ymgeiswyr o'r newydd am aelodaeth yn y gwahanol leoedd yn Maram. Y mae gwaith yr Arglwydd yn myned rhagddo. Iddo Ef y byddo y diolch a'r gogoniant.

Llosgwyd yr ysgoldy yn Nongtrai yn ddiweddar. Bu yno *riots* mawr; olwyfwyd pedwar neu bump. Achos perthynol i'r pentref oedd yr achos gwreiddiol o'r cynhwrf, ac i fwyhau y drwg llosgwyd yr ysgol. Y mae y Cristionogion wedi ymddwyn yn weddaidd trwy yr holl gynhwrf, ac y maent oll ar yr un ochr, sef ochr cyfiawnder. Y mae y *Deputy Commissioner* wedi dechreu barnu yr achos yr wythnos hon.

Llydaw.

LLYTHYR ODDIWRTH MR. EVAN JONES.

Pont l'Abbé, Ebrill 8, 1890.

TALODD Mr. Fourneau, Gweinidog Protestanaidd o Paris, ymweliad â'r lle hwn, y 19eg o Fawrth, a thraddododd ddarlith ragorol i gynnulleidfa o bedwar cant a hanner i bum' cant. Y mater yr ymdriniodd y darlithydd âg ef ydoedd "Cyfeiliornadau a thwyll y Babaeth," ac er fod yn ddiau ymhlith y gwrandawyr amryw ffafriol i'r Babaeth, ni aflonyddwyd dim ar y cyfarfod, ond rhoddwyd y gwrandawiad mwyaf astud i'r ddarlith o'r dechreu i'r diwedd. Y mae llawer o siarad wedi bod am dani oddiar y noson hono hyd heddyw, a rhoddir y gymeradwyaeth uchaf i'r dar lithydd a'i ddarlith. Gwnaeth yn ddiammheu lawer i oleuo meddyliau y gwrandawyr, ac y mae genym bob lle i gredu y parha ei heffeithiau yn hir. Y mae y darlithydd yn deall ei destyn yn ei holl fanylion, gan ei fod pan yn ddeg ar hugain oed yn offeiriad Pabaidd, ac wedi bod amryw weithiau, yn rhinwedd ei swydd, yn Rhufain ar ymweliad â'r Pab. Gosododd dwyll a chyfeiliornadau Pabyddiaeth allan yn y modd mwyaf eglur a didderbyn-wyneb, ac amlygodd y gynnulleidfa ei chymeradwyaeth amryw weithiau tra y llefarai. Heblaw dynoethi y Babaeth, cawsom ganddo ddarluniad teg o'r hyn ydyw crefydd yr Efengyl mewn gwrthgyferbyniad iddi; ac yr ydym wedi cael ar ddeall oddiwrth amryw wedi hyny fod argraff hynod o ffafriol wedi ei wneyd. Y mae yn amlwg oddiwrth ymddygiad y gwrandawyr fod cyfnewidiad amlwg wedi cymeryd lle yn meddyliau y werin o barth i Brotestaniaeth. Ofer fuasai cynnyg siarad ar bwnc o'r fath i gynnulleidfa mor lïosog rai blynyddoedd yn ol. Ni chawsid tawelwch na hamdden at y fath orchwyl. Yr hyn sydd wedi bod yn foddion i effeithio cyfnewidiad mor amlwg er daioni yn ddiau ydyw y cyfarfodydd cyson yr ydym yn eu cadw. Y mae llawer o'r rhai a wrandawent y ddarlith wedi bod o bryd i bryd yn ein cyfarfodydd; a'u syniadau wedi newid i raddau mawr ar y cwestiwn crefyddol. Amlwg yw fod yr Eglwys Babaidd wedi colli llawer o'i dylanwad ar feddyliau y werin, a gall roddi heibio bob gobaith am adennill byth y tir y mae wedi ei golli, ac yn ei golli yn barhaus. Bydded i'r Arglwydd o'i ras barhau i lwyddo ein hymdrechion er cael eneidiau lawer at Grist, yr unig Waredwr.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

DYMUNA y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Sir Gaerfyrddin	1	14	2
Sir Fflint	0	9	0
Birkenhead	1	1	0
Sir Fynwy	0	13	1
Dillis, Ffestiniog, i'r teuluoedd y llosgwyd eu tai yn Mawpuh	1	0	0
Cyfaill eto	1	0	0
Ysgol Sabbothol Gilead, Nantymoel (lle y bu y Parch. J. Ceredig Evans unwaith yn weinidog), tuag at ail adeiladu y capel a losgwyd yn Mawpuh	4	0	0
Cymro	1	0	0
T. P.	5	0	0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, DAVID HUGHES, ESQ., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. HERBERT LEWIS, ESQ., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* JOSIAH THOMAS, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.